# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mawrth, 7 Hydref 2014**

Amser:
**09.00**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Michael Kay**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8041
pwyllgor.cyfrifoncyhoeddus@cymru.gov.uk

## Agenda

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon (09:00)

## 2 Papurau i'w nodi (09:00-09:05) (Tudalennau 1 - 9)

**Trefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Llythyr gan Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (17 Medi 2014)** (Tudalennau 10 - 26)

**Menter Twyll Genedlaethol 2012-13: Gohebiaeth y Pwyllgor** (Tudalennau 27 - 28)

**Adroddiad blynyddol a chyfrifon Comisiwn y Cynulliad 2013-14: Llythyr gan Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad (26 Medi 2014)** (Tudalennau 29 - 37)

## 3 Craffu ar Gyfrifon y Comisiynwyr 2013-14: Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 09:05-09:50 (Tudalennau 38 - 107)

PAC(4)-24-14 papur 1

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

Sarah Rochira – Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Alison Phillips – **Cyfarwyddwr Cyllid,** Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

## 4 Craffu ar Gyfrifon y Comisiynwyr 2013-14: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (09:50 - 10:35) (Tudalennau 108 - 177)

PAC(4)-23-14 papur 2
Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

Nich Bennett – Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Chris Vinestock – Cyfarwyddwr a Phrif Swyddog, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Dave Meadon – Swyddog Cyllid, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Susan Hudson – **Rheolwr Polisi a Chyfathrebu,** Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol: (10:35)

Eitemau 6 a 7 ac Eitem 1 y cyfarfod a gynhelir ar 13 Hydref 2014

## 6 Craffu ar Gyfrifon y Comisiynwyr 2013-14: Trafod y dystiolaeth a gafwyd (10:35-10:45)

## 7 Cyflogau Uwch-reolwyr: Trafod yr adroddiad drafft (10:45-11:00)

(Tudalennau 178 - 238)
PAC(4)-25-14 papur 3

Eitem 2

# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 23 Medi 2014** |
| Amser: | **09.00 - 10.31** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/Meeting/Archive/6ff09036-15d6-4282-ad95-f7d6e4ca15dc?autostart=True

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar AC (Cadeirydd)**<br>**Keith Davies AC**<br>**William Graham AC**<br>**Mike Hedges AC**<br>**Alun Ffred Jones AC**<br>**Julie Morgan AC**<br>**Jenny Rathbone AC**<br>**Aled Roberts AC** |
| Tystion: | **Peter Black AC, Comisiynydd**<br>**Claire Clancy, Y Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad**<br>**Nicola Callow, Comisiwn y Cynulliad**<br>**Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Richard Harries** |
| Staff y Pwyllgor: | **Michael Kay (Clerc)**<br>**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)**<br>**Richard Bettley (Ymchwilydd)** |

TRAWSGRIFIAD
**Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.**

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

**1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.**

**1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Sandy Mewies yn sgil ei chyfrifoldebau fel un o Gomisiynwyr y Cynulliad (yn unol â RhS 18.9). Dirprwyodd Keith Davies ar ei rhan.**

## 2 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Cynulliad 2013 - 2014

2.1 Trafododd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Cynulliad 2013 - 2014, gan holi Peter Black AC, Comisiynydd, Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, a Nicola Callow, Cyfarwyddwr Cyllid y Cynulliad.

2.2 Cytunodd Claire Clancy:

- i ddarparu amlinelliad o'r camau a gymerwyd yn dilyn y digwyddiad twyll
- i ddarparu manylion pellach ynghylch llithriad y prosiect Adnoddau Dynol â'r Gyflogres
- i anfon darn o Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2013-14 sy'n dangos y cydbwysedd rhwng y rhywiau yn ôl gradd
- i ddarparu amlinelliad o raddau effeithlonrwydd ynni Tŷ Hywel a'r Senedd
- i ddarparu gwybodaeth fanwl am y costau TGCh ar gyfer 2013-14, gan gynnwys y costau rhedeg arferol a'r gwariant a wnaed fel rhan o'r prosiect i ddod â darpariaeth TGCh yn fewnol

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 4 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Cynulliad 2013 - 2014: Trafod y dystiolaeth a gafwyd

4.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a gafwyd, gan gytuno i edrych eto ar y mater hwn ar ôl cael y wybodaeth ychwanegol gan Gomisiwn y Cynulliad.

# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 22 Medi 2014** |
| Amser: | **13.30 - 16.54** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/Meeting/Archive/2272f82e-3818-469a-9991-09e180641a0a?autostart=True

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar AC (Cadeirydd)**<br>**Jocelyn Davies AC**<br>**William Graham AC**<br>**Mike Hedges AC**<br>**Julie Morgan AC**<br>**Jenny Rathbone AC**<br>**Aled Roberts AC**<br>**Sandy Mewies AC** |
| Tystion: | **Syr Derek Jones, Permanent Secretary, Welsh Government**<br>**Gawain Evans, Llywodraeth Cymru**<br>**Lynne Hamilton, Finance and Commercial, Welsh Government**<br>**Michael Hearty, Director General for Strategic Planning, Finance & Performance** |
| Staff y Pwyllgor: | **Michael Kay (Clerc)**<br>**Meriel Singleton (Ail Clerc)**<br>**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)**<br>**Richard Bettley**<br>**Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

TRAWSGRIFIAD
**Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.**

## 1 Cyflogau Uwch-reolwyr: Trafod yr adroddiad drafft

1.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft ac awgrymodd nifer o newidiadau. Bydd fersiwn ddiwygiedig yn cael ei pharatoi i'r Pwyllgor ei hystyried ar 13 Hydref.

## 2 Cyfrifon Cyfunol Blynyddol Llywodraeth Cymru 2013 - 2014

2.1 Trafododd yr Aelodau gynnwys y briff ymchwil cyn y sesiwn graffu a gynhelir gyda'r Ysgrifennydd Parhaol ar Gyfrifon Cyfunol Blynyddol Llywodraeth Cymru 2013-14.

## 3 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

**3.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.**
**3.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Alun Ffred Jones. Roedd Jocelyn Davies yn dirprwyo ar ei ran.**
**3.3 Dywedodd Jocelyn Davies fod Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio wedi'i chynnwys yn ei phortffolio pan yr oedd hi'n Weinidog.**

## 4 Cyfrifon Cyfunol Blynyddol Llywodraeth Cymru 2013 - 2014

4.1 Craffodd y Pwyllgor ar waith Syr Derek Jones, Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, a'i swyddogion mewn perthynas â Chyfrifon Cyfunol Blynyddol Llywodraeth Cymru 2013 - 2014.

4.2 Cytunodd yr Ysgrifennydd Parhaol:

- i anfon manylion ynghylch y pecynnau ymadael a ddyfarnwyd a'r arbedion cysylltiedig mewn costau cyflog, ac i roi dadansoddiad o'r cynnydd a welwyd yn niferoedd staff y sefydliad
- i roi eglurhad o'r ddarpariaeth ar gyfer cronfa risg Cymru
- i egluro'r gostyngiad a welwyd yn nefnydd ynni adnewyddadwy a'r cynydd a welwyd yn nefnydd ynni anadnewyddadwy ar ystâd Llywodraeth Cymru
- i ddarparu dadansoddiad o'r gwariant a wnaed ar deithio busnes swyddogol yn 2012-13 a 2013-14, o lwfansau ymrwymiad lleihau carbon, ac o wariant ar ynni yn 2013-14
- i ddarparu dadansoddiad o'r gwariant wnaed ar deithio, cynhaliaeth a lletygarwch yn 2013-14
- i roi eglurhad manwl o'r goblygiadau sydd ynghlwm â methiant Llywodraeth Cymru i sicrhau £25.6 miliwn ar ffurf darpariaeth nad yw'n arian parod. Yn dilyn trafodaeth gyda'r Ysgrifennydd Barhaol, cytunodd yr Aelodau eu bod yn dymuno gweld yr adroddiad a luniwyd ar y gwersi a ddysgwyd yn dilyn y digwyddiad hwn.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Cyfrifon Cyfunol Blynyddol Llywodraeth Cymru 2013 - 2014

6.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a gafwyd, gan gytuno i edrych eto ar y mater hwn ar ôl cael y wybodaeth ychwanegol gan yr Ysgrifennydd Parhaol.

# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 16 Medi 2014** |
| Amser: | **09.00 - 10.43** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/Meeting/Archive/268f82b9-610c-4e25-9ad9-385443778695?autostart=True

## Cofnodion Cryno:

MeetingTitle

Aelodau'r Cynulliad:

**Darren Millar AC (Cadeirydd)**
**William Graham AC**
**Mike Hedges AC**
**Alun Ffred Jones AC**
**Julie Morgan AC**
**Jenny Rathbone AC**
**Aled Roberts AC**
**Sandy Mewies AC**

Tystion:

**Emma Giles, Swyddfa Archwilio Cymru**
**Steve Martin, Swyddfa Archwilio Cymru**
**Mike Usher, Swyddfa Archwilio Cymru**
**Matthew Mortlock, Swyddfa Archwilio Cymru**
**Michael Palmer, Swyddfa Archwilio Cymru**
**Martin Peters, Swyddfa Archwilio Cymru**
**Andy Phillips, Swyddfa Archwilio Cymru**

Staff y Pwyllgor:

**Michael Kay (Clerc)**
**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)**
**Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)**

TRAWSGRIFIAD
**Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.**

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

**1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.**

## 2 Papurau i'w nodi

**2.1 Nodwyd y papurau yn amodol ar y camau gweithredu canlynol:**

- **Cofnodion y cyfarfod blaenorol (15 Gorffennaf 2014): Gofynnodd Sandy Mewies i'w datganiad fel cymrawd o Brifysgol Glyndŵr gael ei nodi.**
- **Gofal heb ei drefnu: Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (24 Gorffennaf 2014): Cytunodd y Pwyllgor i ailystyried agweddau ar y mater hwn yn gynnar yn 2015.**
- **Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Leol mewn Llywodraeth Leol: Llythyr gan June Milligan (22 Gorffennaf 2014): Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Gweinidog dros Wasanaethau Cyhoeddus yn gofyn am ei safbwynt ar bartneriaethau cydweithredol, ad-drefnu awdurdodau lleol a chostau cysylltiedig.**
- **Trefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Llythyr gan Dr Peter Higson (29 Gorffennaf 2014): Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Is-gadeirydd yn BIPBC yn gofyn am ragor o wybodaeth ynghylch gwelliannau sy'n ymwneud â heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Byddai trefniadau llywodraethu'n cael eu hystyried yn ddiweddarach yn y tymor a BIPBC yn cael ei ailystyried yn 2015.**
- **Rheoli Grantiau yng Nghymru: Llythyr gan Syr Derek Jones (11 Awst 2014): Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Parhaol yn gofyn a oes modd rhannu gyda'r Pwyllgor unrhyw ystyriaeth bellach o'r materion sy'n codi o achos AWEMA gan fod yr achosion troseddol bellach wedi dod i ben.**

2.1 Gofal heb ei drefnu: Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (24 Gorffennaf 2014)

2.2 Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Leol mewn Llywodraeth Leol: Llythyr gan June Milligan (22 Gorffennaf 2014)

2.3 Trefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Llythyr gan Dr Peter Higson (29 Gorffennaf 2014)

2.4 Memorandwm ar gyfer Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (4 Awst 2014)

2.5 Rheoli Grantiau yng Nghymru: Llythyr gan Syr Derek Jones (11 Awst 2014)

2.6 Cyllid addysg uwch: Llythyr gan Swyddfa Archwilio Cymru at Mike Hedges AC (15 Awst 2014)

2.7 Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon:  Llythyr gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau (20 Awst 2014)

## 3 Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

3.1 Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r Cadeirydd **ysgrifennu at William Graham fel Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes i rannu ymateb Llywodraeth Cymru a nodyn yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cynorthwyo eu hymchwiliad. Bydd y llythyr yn pwysleisio pryderon y Pwyllgor ynglŷn â chyfran y bobl ifanc a ystyrir i fod yn NEET yn y grŵp oedran 19-24 oed ynghyd â phryderon ynghylch casglu a rhannu data. Gofynnodd y Pwyllgor am y wybodaeth ddiweddaraf gan y Pwyllgor Menter a Busnes pan fydd wedi cwblhau'i waith a bydd y Pwyllgor wedyn yn ystyried ymhellach a yw'n dymuno ymgymryd ag unrhyw waith ei hun ar y mater hwn.**

## 4 Y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

4.1 Ystyriodd y Pwyllgor y llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a chytunwyd y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at Alun Ffred Jones fel Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, gyda chopi'n cael ei anfon at y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, gan ofyn bod y pwyntiau a godwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n ymwneud â'i bwerau a chyfrifoldebau yn cael eu hystyried wrth i'r Pwyllgor graffu ar y Bil.

## 5 Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru – Caerdydd i Ynys Môn: Trafod yr ymateb gan Lywodraeth Cymru

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru a chytunwyd **y dylid ceisio cael diweddariad yng ngwanwyn 2015. Erbyn hynny, dylai'r cytundeb newydd fod wedi cael ei ddyfarnu. Cytunodd y Pwyllgor hefyd y dylai'r Cadeirydd, yn y cyfamser, ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn iddi rannu'r wybodaeth y mae'n gallu gyda'r Pwyllgor ynglŷn â chwmpas, cynnwys, methodoleg ac amserlen adolygiad ARUP yn ogystal â'r ddogfen dendro ar gyfer y gwasanaeth awyr.**

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Glastir: Sesiwn friffio gan Swyddfa Archwilio Cymru

7.1 Cyflwynodd staff Archwilydd Cyffredinol Cymru sesiwn friffio ar yr adroddiad ar Glastir. Cytunodd y Pwyllgor i ofyn am ymateb gan Lywodraeth Cymru a fydd yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd. Bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd gan gynnwys ymateb Llywodraeth Cymru, pan ddaw i law.

# Eitem 2.1

**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mr Darren Millar AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

17 Medi 2014

Annwyl Darren

**ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS I'R TREFNIADAU LLYWODRAETHU YM MWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR**

Rwy'n amgáu diweddariad byr i ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i'r Trefniadau Llywodraethu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a gyflwynais i'r Pwyllgor ym mis Chwefror.

Yn gywir

Mark Drakeford

**Mark Drakeford AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Mark.Drakeford @wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

**Ymateb i Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar y Trefniadau Llywodraethu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.**

Rydym yn croesawu canfyddiadau'r adroddiad ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'r un ar hugain argymhelliad ynddo sy'n gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 1:**
Er mwyn dwyn uwch arweinwyr i gyfrif, rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu trefniadau'r broses reoli ac arfarnu perfformiad ar gyfer Prif Weithredwyr a Chadeiryddion sefydliadau'r GIG, a'u cryfhau lle bo angen er mwyn sicrhau eu bod yn ddigon trwyadl, yn eglur a'u bod yn cael eu gweithredu.

**Ymateb: Derbyn**

Mae prosesau adolygu perfformiad eisoes wedi'u sefydlu ar gyfer Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr Sefydliadau'r GIG yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn cymryd camau i sicrhau bod y prosesau hyn yn gadarn ac yn cael eu deall yn rhwydd. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ac Academi Cymru "Gwneud yn dda, gwneud yn well", y Canllaw Llywodraethu Da ar gyfer Byrddau GIG Cymru ym mis Ionawr 2014. Mae'r ddogfen hon yn tanlinellu pwysigrwydd y broses gwerthuso perfformiad, ac yn arbennig gwerthuso'r Prif Weithredwr gan y Cadeirydd.

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnal adolygiad chwemisol o Gadeirydd bob BILl ac Ymddiriedolaeth yng Nghymru. Mae'r cyfarfodydd hyn yn cytuno ar amcanion ar gyfer y cyfnod i ddod, yn ogystal ag adolygu perfformiad yn ystod y cyfnod blaenorol. Mae Cadeiryddion yn darparu tystiolaeth hunanasesu cyn y cyfarfod adolygu ac mae'r Gweinidog yn rhoi adborth ysgrifenedig yn dilyn yr adolygiad. Mae'r broses hon yn nodi materion i fynd i'r afael â nhw ac unrhyw anghenion datblygu. Yn ogystal â'r broses ffurfiol, mae'r Gweinidog yn cwrdd â'r Cadeiryddion fel grŵp yn chwarterol ac yn anffurfiol gydag unigolion wrth i faterion godi.

Mae gan bob Prif Weithredwr yng Nghymru amcanion y cytunir arnynt gyda'u Cadeirydd a Phrif Weithredwr GIG Cymru. Caiff eu perfformiad ei adolygu'n ffurfiol ddwywaith y flwyddyn. Mae Cadeirydd y BILl yn cynnal adolygiad canol blwyddyn ac mae Prif Weithredwr GIG Cymru yn cael copi o'r adolygiad. Mae'r Cadeirydd a Phrif Weithredwr GIG Cymru yn cynnal yr adolygiad diwedd blwyddyn ar y cyd.

Mae'r Gweinidog hefyd yn cynnal cyfarfod chwarterol gyda'r Cadeiryddion a'r Prif Weithredwyr fel un grŵp.

**Diweddariad mis Awst 2014**

Cynhaliwyd adolygiadau diwedd blwyddyn gyda'r holl Gadeiryddion a Phrif Weithredwyr. Ar gyfer blwyddyn berfformiad 2013/14, cynhaliwyd yr adolygiad diwedd blwyddyn o Brif Weithredwyr unigol gan y Cadeirydd perthnasol yn unig, gan fod Prif Weithredwr interim yn weithredol yn GIG Cymru. Derbyniodd Llywodraeth Cymru gopi o gofnod ffurfiol y drafodaeth a chafodd ei anfon at yr Ysgrifennydd Parhaol. Mae amcanion ar gyfer y flwyddyn gyfredol wedi'u cytuno yn awr ar gyfer Prif Weithredwyr a Chadeiryddion cyrff y GIG a bydd y rhain yn cael eu hadolygu'n ffurfiol ganol y flwyddyn.

Mae cyswllt yn cael ei wneud hefyd â statws cynyddol cyrff unigol y GIG a'r trefniadau perfformiad. Mae protocol disgyblaethol newydd ar gyfer Prif Weithredwyr yn cael ei baratoi hefyd.

**Argymhelliad 2:**
Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad brys o'r hyfforddiant sydd ar gael i aelodau byrddau ar draws holl gyrff y GIG yng Nghymru. Dylai canlyniad yr adolygiad hwn lywio'r modd y caiff rhaglen hyfforddi genedlaethol ei datblygu a'i chyflawni ar gyfer aelodau bwrdd, a dylai cyfranogiad fod yn amod aelodaeth o'r bwrdd. Dylai'r rhaglen ddatblygu cymwyseddau craidd, egluro gofynion a chynnwys hyfforddiant wedi'i ddatblygu'n benodol ar gyfer aelodau bwrdd newydd fel rhan o'u cyfnod sefydlu'n aelodau o'r bwrdd.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod datblygu Bwrdd effeithiol yn hanfodol bwysig. Rydym o'r farn bod angen sicrhau bod gennym y cyfuniad cywir o weithgarwch cenedlaethol cyson a threfniadau lleol addas at y diben i sicrhau bod aelodau anweithredol y Bwrdd yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau a swyddogaethau'r Bwrdd yn llawn.

Mae Prif Weithredwr y GIG eisoes wedi ysgrifennu at Gadeiryddion Sefydliadau'r GIG yng Nghymru yn ail-bwysleisio bod datblygu Bwrdd effeithiol yn hanfodol bwysig, a bod angen sicrhau cyfuniad priodol o weithgarwch cenedlaethol cyson a threfniadau lleol addas at y diben i gefnogi aelodau anweithredol y Bwrdd. Mae'r llythyr yn datgan yn glir mai cyfrifoldeb y BILlau yw diffinio a sicrhau'r trefniadau lleol addas at y diben.

Roedd llythyr David Sissling hefyd yn hysbysu Cadeiryddion am y cymorth cenedlaethol sydd ar gael drwy Academi Cymru, sy'n cynnwys:

- Y Ddau ar y Brig – System o baru Prif Weithredwr a Chadeirydd newydd i ddefnyddio'r cymorth hwn yn eu blwyddyn gyntaf y gall Prif Weithredwyr a Chadeiryddion ei defnyddio pan fydd angen;

- Cyfres Datblygu Byrddau – dylai pob Ymddiriedolaeth a Bwrdd Iechyd gwblhau dwy ran y rhaglen dros y 2 flynedd nesaf;

- Y Canllaw Llywodraeth Da ar gyfer Byrddau GIG Cymru – i'w ddefnyddio gan holl Aelodau Byrddau yn barhaus;

- Cyfres Llywodraethu - Dosbarthiadau Meistr – Cadeiryddion i nodi aelodau Bwrdd priodol i fynychu'r gyfres, gan rannu gwersi gyda Byrddau wrth ddychwelyd i'w sefydliad;

- Datblygu Pwrpasol – gofynnwyd i bob Ymddiriedolaeth a Bwrdd Iechyd drafod cymorth datblygu arall gydag Academi Cymru wrth i'r angen godi.

Mewn ymateb i lythyr y Prif Weithredwr, gofynnwyd i holl gyrff y GIG roi crynodeb o'r gweithgarwch datblygu a fwriedir gan y Bwrdd yn 2014. Daeth yr wybodaeth hon i law ym mis Rhagfyr ac mae wedi cael ei hasesu. Mae Academi Cymru bellach yn gweithio gyda sefydliadau'r GIG i lenwi unrhyw fylchau posibl yn y rhaglen.

Ar ben hyn, mae'r Canllaw Llywodraethu Da ar gyfer Byrddau GIG Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar, "Gwneud yn dda, gwneud yn well", yn amlinellu fframwaith ar gyfer dysgu a datblygu gan Fyrddau. Mae'r canllaw yn atgoffa Byrddau bod yr heriau strategol sydd o'u blaenau yn golygu bod angen sgiliau penodol, a bod angen adolygu'r gofyniad hwn mewn ffordd systemaidd. Er mwyn sicrhau cydbwysedd effeithiol o wybodaeth, sgiliau a chefndir, mae'r canllaw'n dadlau y dylai Byrddau gynnal archwiliadau sgiliau rheolaidd o'u haelodau cyfredol.

Rydym hefyd yn nodi'r sylwadau gan y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus ar hyfforddi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a byddwn yn ystyried pa gamau pellach y mae eu hangen yng ngoleuni canfyddiadau'r Comisiwn.

**Diweddariad mis Awst 2014**

Mae rhaglen Datblygu Arweiniad y GIG, sydd wedi'i chynllunio ac yn cael ei chyflwyno gan Academi Cymru, yn darparu amrywiaeth o ymyriadau i gefnogi aelodau unigol a byrddau cyfan. Fel rhan o hyn, ym mis Ionawr 2014, lansiwyd 'Y Canllaw Llywodraethu Da ar gyfer Byrddau GIG Cymru', sy'n esbonio swyddogaethau ac atebolrwydd, perfformiad a datblygiad, yn ogystal â llywodraethu a rheoli risg.

Mae Rhaglen Arweiniad Meddygol, i gefnogi Uwch Arweinwyr Meddygol Clinigol Gogledd Cymru wrth iddynt ad-drefnu'r gwasanaeth, yn cael ei chyflwyno hefyd yn awr i 21 o gyfranogwyr o Brifysgol Betsi Cadwaladr. Cyflwynir y rhaglen drwy ddull

cyfun sy’n cyflwyno themâu allweddol ac yn arwain gwelliannau a thimau ac yn gweithio ar draws ffiniau sefydliadol.

Yn y cyfamser, mae ymyriadau datblygu pwrpasol wedi cael eu cyflwyno ar gyfer yr uwch dîm ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf ac ar gyfer Grŵp Arweinwyr y Strategaeth Iechyd Meddwl, yn ogystal ag ABM a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf (gan gefnogi tîm y Prif Swyddog Gweithredol yn ABM a’r cyfarwyddwyr clinigol newydd yng Nghwm Taf). Roedd y rhain yn rhan o 131 o ymyriadau a gyflwynwyd yn 2013-14 o dan agwedd Arweiniad a Datblygu Sefydliadol gwaith Academi Cymru.

Ar ôl cyflwyno cynlluniau datblygu Bwrdd yn gynharach eleni, bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at Ysgrifenyddion y Byrddau hefyd, yn gofyn yn ffurfiol iddynt am y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyfforddiant sydd wedi cael ei gynnal o ganlyniad. Defnyddir hyn fel cyfrwng i gadw llygad ar gynnydd ac i ddatgan unrhyw feysydd lle mae angen rhagor o gefnogaeth gan Academi Cymru o bosib.

**Argymhelliad 3:**
Rydym yn argymell y dylid cyhoeddi canllawiau cyfarwyddyd i bob bwrdd ar bwysigrwydd datblygu byrddau unigol a chyfunol ac y dylid adolygu canllawiau o'r fath yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn addas i'r diben.

**Ymateb: Derbyn**

Roedd y llythyr a anfonwyd gan Brif Weithredwr GIG Cymru at Gadeiryddion cyrff y GIG yn ddigamsyniol ynghylch y pwysigrwydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi ar ddatblygu Bwrdd effeithiol. Mae'r neges hon eisoes wedi cael ei hatgyfnerthu yn y *Canllaw Llywodraethu Da ar gyfer Byrddau GIG Cymru “Gwneud yn dda, gwneud yn well*” a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2014.

Fel rydym wedi'i amlinellu yn yr ymateb i argymhelliad 2, rydym yn ystyried er angen am gymorth neu arweiniad cenedlaethol pellach yng ngoleuni'r ymatebion gan gyrff y GIG a chanfyddiadau'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Argymhelliad 4:**
Rydym yn argymell bod yr ymrwymiad amser sy'n ofynnol gan Aelodau Annibynnol yn cael ei adolygu i sicrhau ei fod yn ddigon i'w galluogi i gyflawni'r holl swyddogaethau sy'n ddisgwyliedig ganddynt.

**Ymateb: Derbyn**

Fel y mae'r *Canllaw Llywodraethu Da ar gyfer Byrddau GIG Cymru* yn ei nodi, mae gan Gadeiryddion Byrddau gyfrifoldeb allweddol i gynllunio a rheoli ymrwymiad amser gofynnol Aelodau Annibynnol. Felly, i ddechrau rydyn ni'n ysgrifennu at Gadeiryddion cyrff y GIG yng Nghymru i ofyn iddynt adolygu faint o amser sydd ar

gael gan Aelodau Annibynnol ar gyfer gofynion y rôl. Byddant yn cael cymorth allanol ar gyfer cynnal yr adolygiad os bydd ei angen arnynt.

Byddwn yn ystyried y mater hwn ymhellach yn dilyn yr adolygiad gan y Cadeiryddion ac yng ngoleuni canfyddiadau'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn rhoi diweddariad ar hyn i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ymhen 6 mis.

**Diweddariad mis Awst 2014**

Mae canfyddiadau cychwynnol ein trafodaethau gyda Chadeiryddion cyrff y GIG yn dynodi bod angen adolygiad mwy ffurfiol o ymrwymiad amser yr aelodau annibynnol mewn rhai cyrff yn y GIG. Yng ngoleuni'r canfyddiadau hyn, rydym yn ystyried yn awr a ddylid cynnal adolygiad ffurfiol o'r mater hwn, cyn cynghori'r Gweinidog.

**Argymhelliad 5:**
Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru roi camau ar waith i alluogi system fwy trylwyr a chyson o arfarnu Aelodau Annibynnol Byrddau Iechyd Cymru, gan gynnwys nodi anghenion hyfforddi a datblygiad personol, ac y dylid datblygu cynllun mentora cymheiriaid i aelodau annibynnol.

**Ymateb: Derbyn**

Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod Aelodau Annibynnol yn cael eu gwerthuso, a ddylai nodi anghenion hyfforddi a datblygu personol ar gyfer Llywodraeth Cymru. Ar ben hon, er mwyn atgyfnerthu'r system hon, mae'r *Canllaw Llywodraeth Da ar gyfer Byrddau GIG Cymru* yn cynnwys adran ar Feithrin Capasiti a Gallu Byrddau, sy'n ymdrin â pherfformiad Aelodau Byrddau Annibynnol ac yn cynnig fframwaith dysgu a datblygu ar gyfer aelodau Byrddau.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn sicrhau bod yr wybodaeth sy'n deillio o adolygiadau perfformiad aelodau annibynnol yn cael ei bwydo i'r broses ailbenodi.

Byddwn yn gweithio gydag Academi Cymru a Chadeiryddion sefydliadau'r GIG i ddatblygu fframwaith ar gyfer gwerthusiadau a sefydlu cynllun mentora cymheiriaid ar gyfer aelodau annibynnol. Byddwn yn sicrhau bod Cadeiryddion yn cael eu galw i gyfrif am eu rhan yn sicrhau bod gwerthusiadau aelodau annibynnol yn drylwyr ac yn ystyried anghenion hyfforddi a datblygu.

Byddwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar y gwaith hwn ymhen 6 mis.

**Argymhelliad 6:**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod pob sefydliad GIG yn deall yn eglur pam mae arwahanrwydd ac atebolrwydd rôl Ysgrifennydd y Bwrdd yn bwysig.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Rheolau Sefydlog y BILlau eisoes yn pwysleisio rôl Ysgrifenyddion Byrddau fel ceidwaid llywodraeth da yn y BILlau, a hefyd eu hannibyniaeth ar y Byrddau. Mae'r Rheolau Sefydlog hefyd yn rhagnodi bod Ysgrifennydd y Bwrdd yn uniongyrchol atebol i'r Cadeirydd a phrif weithredwr y BILl.

Ar ben hyn, mae'r *Canllaw Llywodraethu Da ar gyfer Byrddau GIG Cymru* yn egluro natur allweddol eu rôl fel prif gynghorydd y Bwrdd a'r sefydliad cyfan ar bob agwedd ar lywodraethu.

Yn fwy cyffredinol, rydym wedi sicrhau bod holl gyrff y GIG yng Nghymru wedi ystyried holl ganfyddiadau adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru/AGIC. Ysgrifennodd Prif Weithredwr y GIG at holl Gadeiryddion a Phrif Weithredwyr y GIG yn gofyn iddynt ystyried canfyddiadau'r adroddiad a rhoi sicrwydd priodol iddo ynghylch eu trefniadau llywodraethu. Roedd eu hymatebion yn cynnwys unrhyw gamau yr oeddent yn eu cymryd yn sgil canfyddiadau'r adroddiad ac enghraifft o arfer da. Trafodwyd yr ymatebion unigol hyn yng nghyfarfod yr holl Brif Weithredwyr a'u rhannu ymysg holl gyrff y GIG.

**<u>Diweddariad mis Awst 2014</u>**

Mae cynllun mentora cymheiriaid yn cael ei dreialu yn awr ar gyfer rhai aelodau annibynnol. Mae’r adborth cychwynnol yn awgrymu bod hwn yn gam cadarnhaol ac mai’r bwriad yw adeiladu ar y gwaith yma, gan gynnwys edrych ledled Llywodraeth Cymru am gyfleoedd i ddefnyddio’r dull o weithredu perthnasol i benodiadau cyhoeddus i’r gwasanaeth cyhoeddus.

Mae Cadeiryddion yn cael eu dal yn atebol yn awr am sicrhau arfarniad o Aelodau Annibynnol fel rhan o’u hadolygiadau eu hunain.

**Argymhelliad 7:**
Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried darparu diogelwch statudol ar gyfer rôl Ysgrifennydd y Bwrdd.

**Ymateb: Derbyn**

Bydd diogelwch statudol ar gyfer rôl Ysgrifennydd y Bwrdd yn cael ei ystyried ochr yn ochr â'r argymhellion sy'n deillio o ganfyddiadau'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Argymhelliad 8:**
Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob Bwrdd Iechyd yn adolygu gweithdrefnau eu cyfarfodydd, i sicrhau bod aelodau'r Bwrdd yn cael pob papur yn amserol a bod papurau heb gyfyngiad arnynt yn cael eu cyhoeddi ar gyfer y cyhoedd o fewn yr un amserlenni.

**Ymateb: Derbyn**

Mae gweithdrefnau cyfarfodydd y BILlau eisoes wedi cael eu hadolygu yn dilyn canfyddiadau adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru/AGIC. Mae model rheolau sefydlog y mae'r BILlau wedi'i fabwysiadu yn ei gwneud ofynnol iddynt sicrhau bod agendâu a setiau cyflawn o bapurau yn cael eu dosbarthu 10 diwrnod cyn cyfarfodydd Bwrdd ffurfiol. O ran mynediad ar gyfer y cyhoedd, mae'r Rheolau Sefydlog hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyhoeddi'r agendâu a'r papurau cysylltiedig o leiaf 10 diwrnod cyn cyfarfodydd Bwrdd. Mae rhai BILlau wedi mabwysiadu amserlen 7 diwrnod ar gyfer rhoi agendâu a phapurau i aelodau'r Bwrdd a'r cyhoedd. Mae'r Rheolau Sefydlog yn rhagnodi, mewn achosion eithriadol, y gellir darparu papurau atodol ar ôl 10 diwrnod cyn belled â bod y cadeirydd yn fodlon nad yw hyn yn amharu ar allu'r Bwrdd i ystyried y materion yn y papurau. Ystyrir cadw at y Rheolau Sefydlog fel rhan o'r asesiad strwythurol blynyddol gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Yn fwy cyffredinol, mae'r Canllaw Llywodraethu Da ar gyfer Byrddau GIG Cymru hefyd yn disgrifio'r prosesau effeithiol sy'n angenrheidiol er mwyn i Fyrddau weithredu'n effeithiol.

**Diweddariad mis Awst 2014**

Mae rôl Ysgrifennydd y Bwrdd wedi'i datgan eisoes mewn rheolau sefydlog a gyhoeddwyd o dan bwerau cyfarwyddo yn adran 12 (3) Deddf y GIG 2006. Byddai'n rhaid wrth ddeddfwriaeth sylfaenol ar gyfer unrhyw indemniad pellach i rôl Ysgrifennydd y Bwrdd. Mae'r angen am newidiadau i'r ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol yn cael ei ystyried fel rhan o'r gwaith o baratoi'r Papur Gwyrdd ar Lywodraethu ac Ansawdd y GIG. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r papur hwn y flwyddyn nesaf.

**Argymhelliad 9:**
Ar ôl ystyried y dystiolaeth, mae'r Pwyllgor yn croesawu'r camau y mae Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru yn eu cymryd i fonitro cydymffurfiaeth â gweithdrefnau rheoli heintiau mewn ysbytai ar draws y Gogledd. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei phrosesau ar gyfer dilysu ansawdd a diogelwch, a data allweddol arall gan sefydliadau'r GIG. Mae'n hanfodol cofnodi data o'r fath yn gywir er mwyn gallu rhoi camau ystyrlon ar waith.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym eisoes wedi cryfhau'r systemau rheoli ansawdd a diogelwch yn Llywodraeth Cymru. Rydyn ni wedi sefydlu grŵp o dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Brif Swyddog Meddygol sy'n cwrdd yn rheolaidd i oruchwylio gwybodaeth am ansawdd a pherfformiad sefydliadau'r GIG sy'n cael ei diweddaru'n rheolaidd. Mae hyn yn caniatáu rhyngweithio, a chodi materion os oes angen, gydag Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd o fewn y fframwaith cyflawni cyffredinol.

Mae gwaith ar y gweill i gryfhau ansawdd data ac mae sicrhau data cyflawn eisoes yn Fesur Haen 1. Rydym hefyd yn sicrhau ein bod yn triongli'r wybodaeth o amryw setiau data, gan gynnwys achosion difrifol, a ffynonellau gwybodaeth rheolaidd. Un enghraifft yw'r gwaith sydd ar y gweill ynghylch data a chofnodi achosion o clostridiwm difficile a marwolaethau cysylltiedig.

**<u>Diweddariad mis Awst 2014</u>**

Gyda heintiau cysylltiedig â gofal iechyd, er enghraifft, rydym yn datgan yn awr ei bod yn ofynnol i Fyrddau Iechyd feincnodi eu cynnydd yn erbyn y targedau Haen 1 newydd ar gyfer *C.difficile* ac *MRSA* bacteraemias ac yn erbyn Byrddau Iechyd eraill. Mewn cyfarfodydd telegynadledda bob deufis, mae arbenigwyr rheoli heintiau, arbenigwyr diogelu iechyd, epidemiolegwyr a swyddogion gweithredol yn trafod eu data ochr yn ochr â'u cydweithwyr, er mwyn sicrhau bod pawb yn glir am gyd-destun eu sefyllfa hwy eu hunain. Cynhaliwyd y delegynhadledd gyntaf ym mis Gorffennaf a bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro cynnydd ac yn penderfynu a oes angen rhoi mwy o sylw i faterion sy'n peri pryder yn fewnol a gyda'r sefydliadau perthnasol.

**Argymhelliad 10:**
Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gwblhau, cyflwyno a gweithredu set gyffredin o ddangosyddion perfformiad allweddol ar ansawdd a diogelwch i'w defnyddio gan Fyrddau Iechyd. Byddai hyn yn cynorthwyo i wella perfformiad ac yn tynnu sylw at risgiau fel bod modd gweithredu'n gyflym i fynd i'r afael â hwy.

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r fframwaith cyflawni cyfredol eisoes yn cynnwys ystod o ddangosyddion ansawdd a diogelwch Haen 1 fel marwolaeth, heintiadau a briwiau gorwedd sy'n cael eu monitro'n genedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r rhain ar wefan Fy Ngwasanaeth Iechyd Lleol. Mae dangosyddion perfformiad ynghylch mynediad amserol hefyd yn fesur pwysig o ansawdd a diogelwch.

Yn ogystal, gan ddibynnu ar eu trefniant, mae sefydliadau'r GIG yn cytuno ar set o ddangosyddion i olrhain perfformiad ar draws eu holl wasanaethau fel rhan o'u fframwaith sicrwydd cyffredinol. I helpu gyda hyn, mae'r Fforwm Ansawdd a Diogelwch Cenedlaethol wedi cytuno ar set o gwestiynau trothwy ansawdd a dangosyddion cysylltiedig i'w defnyddio'n lleol. Mae'r rhaglen well 1000 o Fywydau yn Iechyd Cyhoeddus Cymru yn arwain ar waith yn ystod 2014 ar ran holl

sefydliadau'r GIG i ddatblygu fframwaith mesur ymhellach i helpu bwrdd i geisio sicrwydd ynghylch ansawdd. Mae'r gwaith gwella ansawdd yn mynd yn ei flaen.

**Diweddariad mis Awst 2014**

Mae'r casgliad o gynlluniau cyflawni penodol i wasanaeth sydd yn eu lle yn awr yn datgan hefyd ei bod yn ofynnol i Fyrddau Iechyd gyhoeddi adroddiadau cynnydd rheolaidd. Mae mesurau canlyniad ar gyfer y rhain, ac ar gyfer yr adroddiadau cenedlaethol gofynnol, wedi cael eu datblygu ar gyfer pob cynllun. Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd i sicrhau bod pob marwolaeth mewn ysbyty'n cael ei hadolygu'n gyson, drwy fesur y themâu sy'n codi. Un thema ddysgu sydd wedi'i datgan eisoes yw adnabod a gofalu am glaf sy'n dirywio. Mae gwaith yn y cyswllt hwn yn datblygu'n hynod gyflym, i greu mesurau cadarn ar gyfer cael diagnosis o sepsis a'i reoli.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro data ansawdd a pherfformiad pob BILl yn fisol ac yn trafod pryderon gyda'r BILl perthnasol mewn cyfarfodydd Cyflawni Ansawdd rheolaidd. Mae pryderon sydd heb gael sylw'n cael eu rhoi ger bron Bwrdd Cyflawni Integredig y GIG yn Llywodraeth Cymru, sy'n penderfynu ar lefel y dwysáu ar gyfer pob sefydliad.

**Argymhelliad 11:**
Rydym yn argymell y dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod canlyniadau ei ymchwiliadau i'r sgoriau RAMI uchel ar draws ysbytai'r Gogledd ar gael i'r cyhoedd eu gweld, ynghyd â gwybodaeth am y camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n codi mewn perthynas â gofal cleifion.

**Ymateb: Derbyn**

Argymhelliad ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw hwn. Fodd bynnag, byddem yn disgwyl iddynt wneud hyn, yn ddarostyngedig i unrhyw amodau gofynnol, i amddiffyn unrhyw wybodaeth a allai adnabod cleifion.

**Diweddariad mis Awst 2014**

Cafodd y gwaith sy'n cael ei wneud gan Brifysgol Betsi Cadwaladr er mwyn ymchwilio i ddata'r mynegai marwolaethau wedi'i addasu yn ôl risg (RAMI) mewn ysbytai ei adolygu'n ddiweddar gan yr Athro Stephen Palmer. Roedd hyn yn rhan o'i adolygiad Gweinidogol o RAMI ac ysbytai Cymru sydd â sgoriau uwch na'r cyfartaledd. Cafwyd adroddiad cadarnhaol ganddo ar ansawdd y gwaith sy'n cael ei wneud ym mhob ysbyty cyffredinol rhanbarthol fawr yng Ngogledd Cymru ac roedd yn hyderus bod ymchwiliadau priodol yn cael eu cynnal i faterion gofal cleifion.

**Argymhelliad 12:**
Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gwybodaeth am sgoriau RAMI ar draws pob safle ysbyty yng Nghymru ar gael yn fwy hygyrch i'r cyhoedd, yn

ddelfrydol drwy roi'r data i gyd ar un dudalen we, gydag esboniadau eglur o'r hyn y mae'r data yn ei olygu.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru bellach yn darparu'r data hwn, ynghyd â'r cyd-destun, ar wefan Fy Ngwasanaeth Iechyd Lleol.(*DN need to add in the link)* Bydd gwaith yn parhau i ddatblygu ystod o fesurau marwolaeth sy'n adlewyrchu GIG Cymru a sicrhau eu bod ar gael yn hygyrch i bobl Cymru. Bydd y cynigion yn cael eu nodi'n fuan mewn datganiad a ddisgwylir yn y gwanwyn gan y Tasglu Tryloywder a Marwolaethau. Bydd copi o'r datganiad yn cael ei anfon at aelodau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

**Diweddariad mis Awst 2014**

Mae mesurau marwolaethau'n cael eu diweddaru'n chwarterol. Mae gwaith yn parhau ar alluogi cyhoeddi ystod ehangach o fesurau marwolaethau, sy'n darparu tystiolaeth fwy ystyrlon o ganlyniadau gwasanaeth y GIG. Dylid nodi nad oes modd cymharu data RAMI rhwng ysbytai sydd â threfniant gwasanaeth gwahanol.

Mae'r Tasglu Marwolaethau a Thryloywder yn cael ei gynnull eto er mwyn cynghori ar yr argymhellion a wnaed yn adolygiad Palmer. Un prif gasgliad yn yr adolygiad hwn oedd nad yw data RAMI o unrhyw help, ac nad ydynt yn ystyrlon fel dull o fesur ansawdd, a bod eu cyhoeddi'n gamarweiniol.

**Argymhelliad 13:**
Mae'r methiant i lynu wrth brosesau cyllidebol derbyniol yn fater o bryder penodol. Ni chredwn y dylid cymeradwyo cyllidebau sy'n amodol ar gafeatau ac rydym yn argymell y dylem gael sicrwydd bod y Bwrdd Iechyd bellach wedi rhoi'r gorau i'r arfer hwn.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai deiliaid cyllidebau gymeradwyo a pherchenogi cyllidebau ar ddechrau'r flwyddyn, gan gynnwys cytuno a chymeradwyo unrhyw amrywiadau y gall y Bwrdd gytuno arnynt yn ystod y flwyddyn. Dylai pob Bwrdd Iechyd fod yn mabwysiadu'r arfer hwn sydd wedi'i nodi'n glir yng Nghyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y Byrddau Iechyd. Mae Llywodraeth Cymru yn atgyfnerthu'r neges hon drwy'r fforwm Cyfarwyddwyr Cyllid. Byddwn hefyd yn sicrhau bod tystiolaeth yn cael ei nodi, drwy gyflwyno cynlluniau 3 blynedd y Byrddau Iechyd, bod pob Is-adran unigol a deiliaid cyllidebau wedi cyfrannu'n llawn at gytuno ar gynlluniau arbedion a rhaglenni lleihau costau perthnasol.

**Argymhelliad 14:**
Rydym yn argymell hefyd y dylai Llywodraeth Cymru ofyn am wybodaeth gan gyfarwyddwyr cyllid pob bwrdd iechyd i sicrhau nad yw'r methiannau sy'n amlwg ym

mhrosesau cynllunio cyllidebau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cael eu hailadrodd mewn mannau eraill.

**Ymateb: Derbyn**

Bydd y cam gweithredu mewn perthynas ag argymhelliad 13 yn berthnasol i bob Bwrdd Iechyd. Rydyn ni hefyd wedi ystyried bod holl gyrff y GIG yn ystyried adroddiad AGIC/Swyddfa Archwilio Cymru yn ofalus ac yn cymryd unrhyw gamau angenrheidiol yn eu sefydliadau eu hunain (gweler yr ymateb i argymhelliad 6).

**Diweddariad mis Awst 2014**

Yn ychwanegol at y wybodaeth a gyflwynwyd yn y cynlluniau 3 blynedd, gofynnodd Llywodraeth Cymru am gadarnhad gan bob BILl ac Ymddiriedolaeth bod eu proses fewnol ar gyfer cyllideb 2014-15 yn cyd-fynd â'u cyfarwyddiadau ariannol safonol, a bod prosesau priodol yn eu lle i sicrhau bod deiliaid y cyllidebau'n cael eu dal yn briodol atebol am reoli eu cyllideb ddirprwyol. Mae cadarnhad wedi'i dderbyn gan holl gyrff y GIG erbyn hyn.

**Argymhelliad 15:**
Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru bwysleisio i'r byrddau iechyd y dylent osgoi defnyddio atebion anghynaliadwy yn wyneb pwysau ariannol lle bynnag y bo modd, er enghraifft canslo neu ohirio llawdriniaethau, sydd ond yn gohirio costau tan y cyfnod cyfrifyddu nesaf.

**Ymateb: Derbyn**

Mae BILlau eisoes yn cymryd camau i osgoi lleddfu pwysau ariannol mewn ffyrdd anghynaliadwy. Mae BILlau yn gwneud penderfyniadau i ohirio llawdriniaeth am amryw resymau nad ydynt yn gysylltiedig â phwysau ariannol. Mae hyn yn cynnwys camau priodol gan BILlau i ymdopi â chynnydd yn y galw am welyau llawfeddygol yn sgil derbyniadau brys, absenoldeb annisgwyl gan staff allweddol a'r angen i weithredu mesurau rheoli haint.

Yr hydref diwethaf, pennodd holl sefydliadau'r GIG gynlluniau gaeaf cynhwysfawr. Mae'r cynlluniau hyn yn helpu i sicrhau bod cyn lleied o darfu â phosibl ar wasanaethau yn sgil cynnydd yn y galw am ofal heb ei drefnu. Mae'r cynlluniau hyn yn rhai pellgyrhaeddol ac yn cynnwys:

- Capasiti – gyda hyd at 490 o welyau ychwanegol (neu gyfwerth) yn y cynlluniau
- Trefniadau staffio a gweithio gwell
- Llai o oedi wrth ryddhau – gyda mwy o waith partneriaeth rhwng y GIG ac Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol
- Trefniadau monitro ac ymyrryd gwell.

Byddwn yn ail-bwysleisio'r angen am gyfathrebu effeithio gyda'r cyhoedd am y rhesymau dros ohirio llawdriniaethau yng nghyfarfodydd nesaf y Prif Weithredwyr a'r Cadeiryddion.

**Diweddariad mis Awst 2014**

Arweiniodd y gwaith cynllunio a wnaed dros y gaeaf ar lefel genedlaethol a lleol at sicrhau bod yr holl ddangosyddion perfformiad ar gyfer y gaeaf diwethaf yn well na rhai 2012/13. Roedd llai o lawdriniaethau wedi'u canslo, o ganlyniad i well capasiti rheoli i bwyso a mesur yr anghenion gaeaf cynyddol o ran gofal heb ei drefnu.

Mae prosesau yn eu lle eisoes i ddysgu gwersi oddi wrth y gaeaf diwethaf, i rannu arferion gorau ac i helpu'r BILlau i adnewyddu eu cynlluniau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod drwy gyfrwng cyfres o Weithdai Cenedlaethol. Mae'r olaf wedi'i drefnu ar gyfer diwedd mis Medi.

Ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r dyfodol, mae proses y Cynlluniau Tymor Canolig Integredig yn sicrhau bod gan Gyrff y GIG broffiliau cyflawni clir a chytunedig yn ystod y flwyddyn hon ac y bydd modd eu dal i gyfrif mewn perthynas â hwy.

**Argymhelliad 16:**
Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob bwrdd iechyd yn lleihau'r anghyfleustra a'r gofid sy'n cael ei achosi i gleifion a'u teuluoedd drwy fynnu bod y Byrddau'n cyfathrebu â chleifion cyn gynted ag y bo modd yn dilyn penderfyniad i ganslo neu ohirio llawdriniaethau dewisol.

**Ymateb: Derbyn**

Byddwn yn ail-bwysleisio'r angen i BILlau achosi cyn lleied â phosibl o anghyfleustra a gofid i gleifion a'u teuluoedd drwy sicrhau eu bod yn cyfathrebu yn fwy effeithiol ac amserol am ganslo neu ohirio llawdriniaethau dewisol. Bydd y mater hwn yn cael ei gynnwys yn rhan o agenda cyfarfodydd nesaf y Prif Weithredwyr a'r Cadeiryddion.

**Argymhelliad 17:**
Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru fod yn fwy gofalus wrth gomisiynu cyngor allanol wedi'i dalu amdano ag arian y trethdalwr, ac y dylai adrannau Llywodraeth Cymru dderbyn, adolygu a chadw allbwn cyngor o'r fath yn ddieithriad.

**Ymateb: Derbyn**

Mae hyn yn rhywbeth arferol. Roedd amgylchiadau unigryw ynghylch comisiynu'r adroddiad ar gyfer Chris Hurst gan mai'r bwriadu oedd iddo roi cyngor yn arbennig i gefnogi Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Fodd bynnag, byddwn yn sicrhau bod yr Adran briodol yn derbyn, yn adolygu ac yn cadw'r holl gyngor y mae Llywodraeth Cymru yn ei gomisiynu'n uniongyrchol

**Diweddariad mis Awst 2014**

Rydym yn atgoffa sefydliadau'r GIG, drwy gyfrwng y Cyfarfod Ansawdd a Chyflawni rheolaidd, a thrwy gyfrwng y cyfarfodydd achlysurol gyda'r Prif Weithredwyr a'r Cadeiryddion, bod cyfathrebu effeithiol ac amserol ynghylch y mater hwn yn bwysig.

**Argymhelliad 18:**
Mewn perthynas â rhannu canfyddiadau adolygiadau allanol, cred y Pwyllgor ei bod hi'n hollbwysig gweithredu mesurau diogelwch i sicrhau bod canfyddiadau o'r fath yn cael eu defnyddio'n eang i ddysgu gwersi a gwella prosesau yn y byrddau iechyd. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried symud hyn yn ei flaen.

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r Prif Swyddog Meddygol eisoes wedi ysgrifennu at yr holl Gyfarwyddwyr Meddygol yn gofyn iddynt rannu'r canlyniadau o unrhyw adolygiadau clinigol a gomisiynir yn allanol.

Hefyd cytunodd y Fforwm Ansawdd a Diogelwch Cenedlaethol yn ei gyfarfod diwethaf mai un o flaenoriaethau allweddol ei waith a'i gylch gorchwyl ar gyfer 2014 fyddai datblygu trefniadau effeithiol i rannu a lledaenu dysgu ehangach ar draws GIG Cymru a chyda'i bartneriaid allweddol. Mewn digwyddiad diweddar Tîm Cymru, sy'n tynnu ynghyd swyddogion gweithredol o bob sefydliad a Llywodraeth Cymru, ystyriwyd y dysgu Cymru gyfan yn sgil adolygiad Duerden o'r trefniadau rheoli haint ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Fel rhan o'n gwaith gyda Swyddfa Archwilio Cymru ac AGIC (fel y nodir yn erbyn argymhelliad 20) byddwn hefyd yn rhannu ac yn trafod canfyddiadau o adroddiadau ac adolygiadau gyda Swyddfa Archwilio Cymru ac AGIC bob chwe mis.
(Gweler hefyd yr ymateb i argymhelliad 6 ynghylch rhannu adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr).

**Diweddariad mis Awst 2014**
Mae'r sylw a gafodd yr adolygiad Ymddiried mewn Gofal o'r gofal a ddarparwyd i gleifion hŷn yn Ysbytai Tywysoges Cymru a Chastell-nedd Port Talbot wedi dangos sut gellir defnyddio gwersi o un neu ddau o feysydd er lles Cymru gyfan. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn gan yr Athro June Andrews a Mark Butler ar 13eg Mai 2014. Mae'r Gweinidog a Phrif Weithredwr y GIG wedi datgan yn glir bod hwn yn adroddiad sy'n cynnwys gwersi i Gymru gyfan ac maent wedi sefydlu proses sicrwydd o archwiliadau dirybudd yn holl Ysbytai Cymru. Mae bwriad i'r adborth a'r canfyddiadau gael eu cyhoeddi ledled Cymru.

**Argymhelliad 19:**
Mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn hanfodol i uwch arweinwyr osod gweledigaeth eglur i'w sefydliadau allu ymateb i'r tair her o ddatblygu gwasanaethau, y gweithlu a

chynlluniau ariannol. O ystyried y materion sydd ynghlwm wrth drefniadau llywodraethu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, mae'n rhaid i uwch reolwyr newydd y Bwrdd adnewyddu ac ailuno'r tîm arweinyddiaeth gweithredol ac anweithredol, a chau'r bwlch rhwng y Bwrdd a'r Wardiau.

**Ymateb: Derbyn**

Mae holl sefydliadau'r GIG yng Nghymru yn symud ymlaen yn dda o ran datblygu cynlluniau 3 blynedd sy'n tynnu ynghyd yr elfennau darparu gwasanaethau, gweithlu a chyllid mewn un ddogfen. Mae'r gofyniad statudol ar gyfer y Cynlluniau Tymor Canolig Integredig hyn bellach wedi'i nodi yn Neddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014, ac mewn gofynion a disgwyliadau manwl a nodir ar gyfer Byrddau yn y Fframwaith Cynllunio a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2013. Y cynlluniau hyn fydd sylfaen gweledigaeth glir ar gyfer pob sefydliad.

Mae Cadeirydd ac Is-gadeirydd newydd eisoes wedi penodi i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'r broses recriwtio wedi cychwyn ar gyfer Prif Weithredwr newydd. Ar ôl penodi'r tîm cyfan, byddwn yn gosod amcanion penodol i'r Prif Weithredwr a'r Cadeiryddion sicrhau bod y Bwrdd a'r tîm arwain anweithredol yn gweithio'n effeithiol.

Caiff effeithiolrwydd y tîm newydd ei brofi hefyd fel rhan o:

- Y cyfarfodydd chwemisol rhwng yr uwch dîm gweithredol yn Llywodraeth Cymru a BILlau unigol (h.y. cyfarfodydd y Cyd-dîm Gweithredol)
- Y cyfarfod rheolaidd rhwng y Gweinidog a'r Cadeirydd.
- Asesiad Strwythurol blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru.

**<u>Diweddariad mis Awst 2014</u>**

Mae’r tîm gweithredol newydd yn ei le yn awr yn PBC ac mae’n rhoi ystod o gamau gweithredu ar waith er mwyn cau’r bwlch rhwng y Bwrdd a’r wardiau, gan gynnwys adolygu’r strwythur Grŵp Rhaglen Glinigol.

Bu gwaith datblygu da ar gyflwyno gwasanaeth, gweithlu a chynlluniau ariannol integredig ar gyfer cyrff y GIG. Mae pedwar Cynllun Tymor Canolig Integredig 3 blynedd wedi cael eu cymeradwyo gan y Gweinidog. Mae’r sefydliadau sy’n weddill yn llunio eu cynlluniau blwyddyn yn derfynol. Mae trafodaethau manwl yn cael eu cynnal gyda hwy wrth iddynt baratoi eu cynlluniau a symud tuag at Gynlluniau Tymor Canolig Integredig 3 blynedd. O ganlyniad i’r broses hon, bydd gan bob sefydliad gyfres glir o ddisgwyliadau cyflawni ar gyfer 2014/15, a byddant yn cael eu dal yn atebol am y rhain.

**Argymhelliad 20:**

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i ddatblygu graddfeydd mwy eglur ar gyfer codi pryderon. Dylai hyn gynnwys meini prawf manwl ar gyfer sbarduno ymyrraeth, y sail resymegol dros y math o ymyrraeth, ac eglurder ynglŷn â phwy ddylai gael gwybod pan fydd ymyrraeth yn cychwyn ac yn dod i ben. Credwn y dylai'r wybodaeth hon fod ar gael i'r cyhoedd.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a Swyddfa Archwilio Cymru wedi bod yn cydweithio i adolygu, a lle bo'n briodol, gwella'r cyd-drefniadau ar gyfer nodi ac ymdrin â pheryglon i ddarparu gwasanaethau neu effeithiolrwydd sefydliadol y GIG.

Mae gwaith wedi cael ei wneud i nodi'r ffynonellau gwybodaeth allweddol ynghylch cyrff y GIG sydd gan y gwahanol bartïon, a sut gellir rhannu'r rhain i sicrhau bod pryderon sy'n codi yn cael eu nodi ac yr ymdrinnir â nhw'n gyflym ac yn effeithiol. Mae trefniadau'n cael eu datblygu ar gyfer cyfnewid yr wybodaeth hon mewn ffordd amserol, a nodi'r trothwyon a'r sbardunau ar gyfer codi pryderon, a phwy ddylai gymryd y camau hynny. Mae tryloywder y broses a'r gofynion cyfathrebu sy'n codi ohoni yn cael eu hystyried fel rhan o hyn. Bydd Llywodraeth Cymru, AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithio gyda GIG Cymru a grwpiau buddiant eraill dros yr wythnosau nesaf wrth gwblhau'r trefniadau.

Caiff Trefniadau Codi Pryderon ac Ymyrraeth y GIG eu lansio mewn pryd ar gyfer y Flwyddyn Ariannol newydd a'u cyhoeddi.

**<u>Diweddariad mis Awst 2014</u>**

Cyhoeddwyd y Fframwaith newydd ar y cyd ym mis Mawrth 2014. Mae cyfarfodydd mewnol wedi cael eu cynnal yn rheolaidd yn Llywodraeth Cymru i rannu gwybodaeth am gyrff y GIG.

Fel rhan o’r trefniadau newydd, cynhaliwyd cyfarfod ffurfiol gydag AGIC a SAC fis Gorffennaf, i ddilyn y gyfres chwemisol o gyfarfodydd rhwng Llywodraeth Cymru a gweithgor y GIG.

**Argymhelliad 21:**
Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar fyrder i ystyried creu cronfa o arweinwyr ychwanegol yn y tymor byr ar gyfer y GIG yng Nghymru, y gellir eu defnyddio ar fyr rybudd heb effeithio ar sefydliadau iechyd eraill y GIG yng Nghymru.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym eisoes yn ystyried hyn ac wrthi'n edrych ar sut i oresgyn y cyfyngiadau ymarferol ynghylch sicrhau bod pobl ar gael gyda'r cefndir a'r sgiliau priodol pan fydd eu hangen. Mae hyn yn golygu ystyried defnyddio marchnad interim ehangach y DU a sefydlu trefniadau fframwaith sy'n caniatáu defnyddio hyn yn unol â rheolau caffael yr UE, a hynny mewn ffordd amserol yn ôl yr angen.

Fodd bynnag, nod y trefniadau codi pryderon newydd rydym yn eu sefydlu gyda Swyddfa Archwilio Cymru ac AGIC yw lleihau'r perygl y bydd angen i ni ddarparu cymorth ychwanegol ar fyr rybudd.

**Diweddariad mis Awst 2014**

Hyd yma, os oes angen, mae capasiti ychwanegol yn cael ei ddarparu drwy ddenu arbenigedd o’r Colegau Brenhinol a thrwy ddarparu cefnogaeth i gydweithwyr yn GIG Cymru.

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**
**Public Accounts Committee**

Prof Colin Riordan
Chair, Higher Education Wales
2 Caspian Point
Caspian Way
Cardiff CF10 4DQ

1 August 2014

Dear Professor Riordan,

At its meeting on 15 July, the Public Accounts Committee was updated on the National Fraud Initiative 2012-13. The Committee welcomes the contribution the Initiative makes to the reduction of overpayment and fraud, and is supportive of the Auditor General for Wales's efforts in encouraging more publically-funded organisations to participate in the NFI.

While I understand that Cardiff University and Glyndwr University already participate in the initiative voluntarily, the Committee would urge all universities to engage in the next NFI exercise, due to begin in October 2014. Participation in data-matching exercises run by the Auditor General will allow further fraud and overpayments to be detected and prevented.

I am copying this letter to all Vice Chancellors in Wales.

Yours sincerely,

**Darren Millar AM**
**Chair**

Mr Darren Millar AM
National Assembly for Wales
Cardiff
CF99 1NA

18 September 2014

Dear Mr Millar

I write in response to your letter of 1st August 2014.

I discussed this with colleagues and fellow Vice Chancellors at the last HEW Committee meeting. We recognise the importance of this initiative and I did, as you suggest, encourage all universities to be supportive.

You will be aware that HEW is a membership organisation so I can do no more than encourage, but I very much hope that all universities will indeed take part.

Yours sincerely

Professor Colin Riordan
President and Vice-Chancellor

**Higher Education Wales (HEW)**
2 Caspian Point, Caspian Way, Cardiff CF10 4DQ

Director: Amanda Wilkinson
+44 (0)29 2044 8020 www.hew.ac.uk

A National Council of Universities UK
Company limited by guarantee, registered in England and Wales No. 2517018
Charity No. 1001127

**Addysg Uwch Cymru (AUC)**
2 Pentir Caspian, Ffordd Caspian, Bae Caerdydd CF10 4DQ

Cyfarwyddwr: Amanda Wilkinson
+44 (0)29 2044 8020 www.hew.ac.uk

Un o Gynghorau Cenedlaethol Prifysgolion y DU
Cwmni cyfyngedig trwy warant, a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr Rhif 2517018
Rhif Elusen 1001127

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Darren Millar
Chair of Public Accounts Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

26 September 2014

Dear Darren

Following our appearance at your Committee on 23 September, I am writing with the additional information we discussed. The information is set out in the attached annexes.

As I mentioned at Tuesday's session, the Commission's approach is always to try to operate with openness, transparency and clarity. So if there is anything else that we can provide you with to help your Committee, please do not hesitate to let me know.

Yours sincerely

Claire Clancy

**Claire Clancy**
**Prif Weithredwr a Chlerc/Chief Executive and Clerk**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru/National Assembly for Wales**

cc Peter Black, Nicola Callow

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 2089 8233
E-bost/Email: Claire.Clancy@wales.gov.uk
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

**Assembly Commission: Additional information following 23 September 2014 appearance at Public Accounts Committee**

1. <u>Provide an outline of the action taken following the fraud incident</u>

Our actions were determined by the need to provide assurance on three points, that:

1. we responded appropriately to the incident;
2. the incident was an isolated one for the Commission; and
3. we changed processes to further mitigate the risk of such incidents in the future.

At the June and July 2014 meetings of the Commission's Audit and Risk Assurance Committee, our approach and evidence in support of the additional assurance work undertaken were confirmed by Committee members and the Wales Audit Office to be satisfactory.

In responding to the incident, we followed our fraud response plan, ensuring that key individuals were immediately alerted to the situation. This included Claire Clancy as Accounting Officer and Chief Executive for the Assembly, the Head of Internal Audit, Director of Finance, Head of Security and South Wales Police. In the days immediately following the incident coming to light, we also contacted the bank, filed the Action Fraud report, provided statements to the Police and informed the Wales Audit Office.

To provide appropriate assurance that this incident was an isolated occurrence within the Commission, we sought third party confirmation for all changes where this type of fraud could have occurred. This involved 2800 active records and 546 actual changes needing verification. Through this verification, we covered 96% of the value of all payments made during the year. WAO reviewed this work and confirmed their view that this was an isolated incident at the July 2014 Audit Committee meeting.

Additional checks have been put into place which provide third party evidence to support changes to standing data and the whole process has been reviewed with additional controls identified and implemented. We have balanced our approach with the need to deliver a timely payment service so we are implementing a tiered approach depending on the type of standing data being changed and the level of payments anticipated over a 12 month period. We also shared information with other bodies – principally WAO and WG to help ensure others do not become victims of the fraud; we alerted our

staff through intranet messages; we changed documents and handling processes; and we updated the fraud response plan to make it easier to use.

2. Provide further details of the HR Payroll project slippage

The HR payroll project is split into 2 phases. Phase 1 replaced the functionality provided by the two existing separate systems for payroll and HR. Phase 1 had two key delivery milestones - August 2013 and March 2014. The first milestone was delivered in November 2013 following a 3 month delay arising from protracted legal negotiations and other issues relating to data migration, project management concerns and the impact of connectivity and licensing issues. The second milestone, albeit with some back office workarounds and excluding bilingual functionality, was delivered by 31 March 2014.

Due to the issues raised during Phase 1, Phase 2 will not progress until the Investment and Resourcing Board is satisfied that the Phase 1 issues have been satisfactorily addressed. As I mentioned at the Committee, I have met with the Directors of Northgate, the contractor supplying the new system, and I am satisfied that they have acknowledged of the issues, and accepted that responsibility lies with them as the contractor. They understand that the release of the bilingual capability in future system patches and upgrades is of paramount importance to us. Our latest project plan reflects these negotiations and we are now expecting bilingual capabilities to be available next summer.

During this whole period, the Investment Resourcing Board and the project's own board have been kept regularly appraised of project progress. In addition, the Commission's Audit and Assurance Committee has also had updates at the majority of its meetings from November 2012 to the most recent meeting in July 2014. Additional external assurance has also been obtained to: ensure all the issues have been identified; validate the actions in place to resolve these issues; and to ensure lessons learned are explicitly stated, transparent and shared across the organisation.

3. Agreed to send an extract depicting the gender balance by grade from the Annual Equality Report 2013-14

The 2013- 14 Annual Equality Report can be found at:

http://www.assemblywales.org/en/abthome/about_us-commission_assembly_administration/equalities/Pages/equalities.aspx

The following extract gives the data on gender balance:

**Table 10: Sex Profile of Workforce Disclosure Rate; 100%**

| Grade | Total staff | Women | | Men | | % Split 2013-14 | % Split 2012-2013 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | number | number | % | number | % | women / men | women / men |
| Apprentices | 6 | 4 | 66.7 | 2 | 33.3 | 67/33 | --- |
| TS | 127 | 47 | 37.0 | 80 | 63.0 | 37/63 | 32/68 |
| M3 | 68 | 35 | 51.5 | 33 | 48.5 | 52/48 | 46/54 |
| M2 | 96 | 70 | 72.9 | 26 | 27.1 | 73/27 | 68/32 |
| M1 | 50 | 27 | 54.0 | 23 | 46.0 | 54/46 | 67/33 |
| E2 | 44 | 21 | 47.7 | 23 | 52.3 | 48/52 | 47/53 |
| E1 | 12 | 7 | 58.3 | 5 | 41.7 | 58/42 | 64/36 |
| Senior | 4 | 2 | 50.0 | 2 | 50.0 | 50/50 | 50/50 |
| Total | 407 | 213 | 52.3 | 194 | 47.7 | 52/48 | 51/49 |

**Source: HR/Payroll IT System**

**Note: comparative data for 2012-2013 did not include Apprentices**

The Assembly Commission has always been committed to being an employer of choice and offering a range of supportive staff policies. We strive to be a top employer for women through the benefits and opportunities that we offer our staff. We are proud to have been recognised by Working Families as one the Top Employers for Working Families in the UK and we have been listed in The Times Top 50 Employers for Women.

Where we have identified a gender imbalance, such as the lower number of women in the Security Team, we have explicitly stated in job adverts that we welcome and invite applications from women. The advert stated "We encourage applications from all sections of the community, in particular women as women are currently under represented within the existing Security team." From this we have three new female security officers starting shortly. Although we have increased the number of women in the Security

Team, progress is gradual. I have attached more information in Annex A, outlining the range of support we offer to all employees.

4. Provide detailed information on ICT costs for 2013-14 including normal running costs and expenditure incurred with the project to bring ICT provision in-house

In December 2012, the Commission took the decision to exit from the shared arrangements with Welsh Government, which had seen Atos delivering ICT services to both organisations.

The transition project started in the last quarter 2012-13 with an 18 month time period and £1.9m budget to deliver an improved ICT service under the direct control of the Commission and a service designed around the needs of the Assembly. The commitment to deliver a flexible and prompt response to new or changing requirements for the same operational budget has been achieved. The transition has also released circa 10% of the costs for an ICT development and investment fund ensuring the future ICT strategy has vital funds available.

Specifically the transition project delivered 3 months early, utilised 58% of its budget and is successfully delivering the Commission's ICT service. The project involved significant legal and commercial issues, contract negotiations, addressed TUPE transfer arrangements and established a new in-house ICT team. Of particular note is the role of project management throughout the project which enabled the close monitoring of the budget and released funds in stages back to the Commission for reallocation as early as possible.

From the 2013-14 total operational costs of £4.2m, (split between staff £590k and operational costs £3.6m), a new staff structure has been established with 5 distinct teams looking after Infrastructure; Applications Development; Service Management; Projects and Broadcasting. This has changed the cost structure of the service.

Whilst our staff numbers have increased by 41 with a corresponding increase in staff costs of £900k to deliver the ICT expertise, the operational costs have significantly reduced by £1.3m (36%) not only to meet this staff cost but also to release sufficient funding from previously fixed contract costs to invest in the future service.

Licence and maintenance costs increased in 2013-14 as we took ownership from Atos and put new arrangements in place to fill gaps and renew lapses we discovered in handover.  This also includes new field engineer support which was previously contracted out to Atos.

The majority of the revenue and consumable costs in 2013-14 are associated with additional improvements to the infrastructure we inherited from Atos and includes expenditure on repairs and replacement for IT kit such as

monitors, laptops, desktops, network cabling, printers, mobile devices and associated accessories.  This essentially accelerated some of the development plans we had for 2014-15 and enabled us to deliver ahead of the schedule.

The move to bring ICT service in-house is a good example of how the Commission uses its resources wisely.  As a result, 2014-15 will see over 10% of the operational budget (£440k) available for investment in the ICT strategy with a further increase in investment expected in 2015-16.

| £000s | 2012-13 Operating | 2013-14 Operating | 2014-15 Operating |
|---|---|---|---|
| ICT contracted out services | 2,191 | 2,225 | 550 |
| Broadcasting | 475 | 450 | 536 |
| Telephony | 385 | 265 | 300 |
| Licenses and maintenance costs | 360 | 520 | 680 |
| Website | 122 | 100 | 88 |
| Revenue and Consumables | 90 | 40 | 146 |
| **Total** | **3,623** | **3,600** | **2,300** |
| Staff | 570 | 590 | 1,450 |
| **Grand total** | **4,193** | **4,190** | **3,720** |
| % change from previous year | | 0% | 11% |
| | | | |
| ICT Investment fund | | | 440* |
| ICT Transition Project | 100 | 753 | 230 |
| | | | |

*Funded from 11% savings in operational costs.  This is expected to increase by a further £350k in 2015-16.

5. Provide an outline of the energy efficiency ratings of Ty Hywel and the Senedd

Energy ratings tell you how efficiently energy has been used in the building. The numbers represent comparative energy efficiency. The ratings range from A to G with G being the least efficient. Our building ratings will be measured again in December 2014. The last rating information is:

a) Ty Hywel – E or 117 (100 would be typical for the building)
b) Senedd – C or 56 (100 would be typical for the building)

In response to the other queries raised by Jenny Rathbone AM, we have previously investigated the feasibility of linking Ty Hywel to the Senedd's rainwater collection systems. With the need for extensive pipework and the

need to pump any harvested rainwater to 5$^{th}$ floor plant room, this is currently not feasible. We will obviously keep this under review.

The varying levels of usage of woodchip fuel for the biomass boiler in 2013-14 compared with 2012 -13 is explained by the recent milder winter. We would also be very happy to share the available data for efficiency of the biomass boilers as well as the ground source heat pumps with academics in these fields. We will provide contact information to facilitate this.

**Annex A**

## Gender profile of our workforce

### Flexible working options

One of our greatest successes and continuing priorities is the range of flexible working options that we provide to our staff to enable them to balance work-life commitments. We always strive for best practice and consider our policies to be an exemplar to other organisations. We have increased opportunities for women to work flexibly (including working from home) through an investment in IT support. Options available:

- flexible working hours
- term-time working
- part-time working
- annualised hours
- compressed hours
- reduced hours and
- working from home

We have an incredibly family-friendly working culture with 18.8% of our female staff formally working part-time and many more working reduced hours, working from home on occasion and taking advantage of our flexible working arrangements.

### Family / carer policies

We also provide excellent support for women who have parent and carer responsibilities, including:

- generous maternity leave (26 weeks full pay, plus 13 weeks statutory) we offer paid Keep in Touch days for women on maternity leave;
- co-parental / paternity leave (3 weeks full pay including paid leave to attend ante-natal classes);
- paid special leave for domestic or caring emergencies;
- childcare vouchers;
- reserved spaces at local nurseries; and
- parental leave.

**Staff networks**

We have active staff networks (including a women's network and parent and carer network) to provide additional pastoral support to staff, to promote equality and an inclusive working environment and to influence the strategic and operational direction of the organisation.

**Learning and Development**

- we offer and promote a Women into Leadership course to staff;
- all staff have access to our Management Development Programme;
- a well-resourced secondment strategy is in place for all staff to facilitate internal and external secondment opportunities. Many women have undertaken secondments as part of their personal development;
- we have a coaching strategy which supports women looking for career development. New members of management board have had the advantage of external coaches to support their development; and
- in addition, we have a number of senior managers who act as mentors and role-models for women in the organisation.

# Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

# Cyfrifon Blynyddol

---

# 2013-14

## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| SYLWADAU RHEOLI | 3 |
| ADRODDIAD TALIADAU | 18 |
| DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG CYFRIFYDDU | 30 |
| DATGANIAD LLYWODRAETHU | 31 |
| DATGANIAD GWARIANT NET CYNHWYSFAWR | 42 |
| DATGANIAD SEFYLLFA ARIANNOL | 43 |
| DATGANIAD LLIF ARIAN | 45 |
| DATGANIAD NEWID YN ECWITI TRETHDALWYR | 46 |
| NODIADAU I'R CYFRIFON | 47 |
| TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD YR ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU | 61 |

# SYLWADAU RHEOLI

Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â'r Cyfarwyddyd a roddwyd gan Weinidogion Cymru yn unol â Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, (y Ddeddf), Atodlen 1 Paragraff 10 (1) (b).

## Hanes a chefndir statudol

Sefydlwyd swydd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru dan Adran 1 o'r Ddeddf. Dechreuais innau yn fy swydd fel Comisiynydd ar 4 Mehefin 2012.

Dyma swyddogaethau' Comisiynydd:

- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.
- Hyrwyddo darparu cyfleoedd ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru, gan ddileu gwahaniaethu yn eu herbyn.
- Annog arfer da wrth ymdrin â phobl hŷn yng Nghymru.
- Cadw golwg ar ddigonolrwydd ac effeithlonrwydd y gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

Caf fy ariannu gan Weinidogion Cymru ond rwyf yn gweithredu'n annibynnol arnynt. Rwyf yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) am y ffordd rwyf yn defnyddio'r adnoddau sy'n cael eu rhoi i mi. Yn 2013-14 rhoddwyd cyllid o £1.730 miliwn (2012-13; £1.732 miliwn) imi.

## Cenhadaeth fy sefydliad

Mae fy ngwaith yn cael ei sbarduno gan yr hyn y bydd pobl hŷn yn dweud wrthyf mai dyna sydd bwysicaf iddynt hwy ac mae eu lleisiau hwy wrth galon popeth a wnaf.

Fy swyddogaeth i yw sicrhau bod gan bobl hŷn lais sy'n cael ei glywed, bod ganddynt ddewis a rheolaeth, nad ydynt yn teimlo'n ynysig na bod pobl yn gwahaniaethu yn eu herbyn, a'u bod yn cael y gefnogaeth a'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt. Rwyf am i Gymru fod yn lle da i heneiddio, nid dim ond i ambell un, ond i bawb.

## Adolygiad o weithgareddau 2013-4

Ym Mis Ebrill 2013 cyhoeddais fy Fframwaith Gweithredu sy'n amlinellu'n glir fy mlaenoriaethau ar gyfer y pedair blynedd nesaf. Roedd yn cynnwys y newidiadau hynny yr wyf yn disgwyl eu gweld yng Nghymru a sut y byddaf yn sbarduno gwelliannau ym mywydau pobl hŷn i wneud Cymru'n lle da i dyfu'n hŷn. Defnyddiais leisiau pobl hŷn yr wyf wedi cyfarfod â hwy i ddatblygu pum blaenoriaeth glir yn fy Fframwaith.

Mae uchafbwyntiau fy ngwaith yn ystod 2013-14 wedi'u crynhoi isod ac wedi'u nodi yn erbyn y blaenoriaethau hyn.

**Gwreiddio llesiant pobl hŷn wrth galon gwasanaethau cyhoeddus**
Rwyf wedi parhau i sicrhau bod lleisiau pobl hŷn a'r materion sydd bwysicaf iddynt yn cael eu hadlewyrchu ar draws rhychwant polisïau, strategaethau a deddfwriaeth y Llywodraeth drwy ymateb i ymgynghoriadau allweddol ar gynigion ar gyfer newid.

Cyfarfûm â chabinet llawn Llywodraeth Cymru i gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth am bobl hŷn a'r materion sydd o bwys iddynt er mwyn sicrhau bod effaith bosibl polisïau a phenderfyniadau ar fywydau pobl hŷn yn cael ystyriaeth lawn a phriodol ar draws pob portffolio a bod y materion sydd o bwys i bobl hŷn yn cael eu gweld fel rhan allweddol o friff pob Gweinidog. Cyfarfûm hefyd â Gweinidogion Llywodraeth Cymru a'u swyddogion i sicrhau bod polisïau a strategaethau yn diwallu anghenion pobl hŷn, nawr ac yn y dyfodol.

Yn ychwanegol at fy nhystiolaeth ysgrifenedig a llafar a roddwyd i Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad Cenedlaethol fel rhan o waith craffu Cyfnod 1 ar Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), cynhaliais weithdy i'r rhanddeiliaid ym mis Medi 2013, gan ddwyn ynghyd ystod eang o arbenigwyr gofal cymdeithasol a darparwyr gwasanaethau rheng flaen, yn ogystal â chynrychiolwyr o'r trydydd sector. Ystyriodd y gweithdy realiti'r Bil i fywydau pobl hŷn, gan ddefnyddio profiadau pobl a oedd wedi cysylltu â'm swyddfa, i weld p'un a fyddai'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn gwneud y gwahaniaeth arfaethedig ai peidio.

Bu'r dystiolaeth a gasglwyd oddi wrth y grŵp arbenigol yn sail i adroddiad a ddosbarthwyd i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i hysbysu'r aelodau am y ffyrdd y byddai'r Bil yn effeithio ar bobl hŷn sy'n canfod bod arnynt angen gofal cymdeithasol ac a fyddai'n arwain at welliant o ran eu llesiant ac o ran y llais a rheolaeth sydd ganddynt dros eu bywydau neu beidio. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys enghreifftiau o fywyd go iawn sydd wedi'u cymryd yn uniongyrchol o'r ehangder o brofiadau'r bobl hŷn sy'n cysylltu â'm swyddfa ar sail ddyddiol

Yn dilyn fy ngwaith helaeth ar y Bil yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'n dda gen i ddweud bod yr hawl i gael eiriolaeth bellach wedi'i chynnwys a bod egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer pobl hŷn hefyd o fewn y Bil, a ddylai gryfhau'n sylweddol ar hawliau pobl hŷn yng Nghymru.

Rhoddais dystiolaeth i'r Comisiwn ar Lywodraethu a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus, gan ei gwneud yn glir bod gwasanaethau cyhoeddus yn dal i fethu gwneud yr hanfodion yn iawn, bod rhaid cynyddu cyflymder newid a bod rhaid canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau er mwyn cyflawni'r gwelliannau hanfodol y mae eu hangen yng Nghymru

Hefyd rhoddais dystiolaeth i Gomisiwn Silk, gan drafod sut y gallai mwy o bwerau i Gymru alluogi gwell canlyniadau i bobl hŷn, yn enwedig o amgylch cyfraith cydraddoldeb a'r system gyfiawnder.

Rwyf yn dal i gadeirio a chynnal Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru; sef partneriaeth gydweithredol am bum mlynedd â Llywodraeth Leol, y GIG yng Nghymru, Iechyd Cyhoeddus, y Trydydd Sector, Llywodraeth Cymru ac eraill. Mae'r rhaglen wedi sicrhau un o ddyfarniadau pwysicaf yr Undeb Ewropeaidd gan Bartneriaeth Arloesi Ewrop ar Heneiddio'n Weithredol ac yn Iach ym Mrwsel. Cafodd Heneiddio'n Dda yng Nghymru Wobr Tair Seren i gydnabod ymagwedd arloesol Cymru at heneiddio'n iach, sy'n helpu pobl i aros yn iach, yn hapus ac yn annibynnol wrth dyfu'n hŷn.

Rwyf hefyd wedi cefnogi gwobrau a roddir i'r rhai sy'n dangos dealltwriaeth glir bod ansawdd bywyd pobl hŷn yng Nghymru yn mynd y tu hwnt i anghenion corfforol yn unig. Yn ystod 2013-14 mae hyn wedi cynnwys gwobr Fforwm Gofal Cymru i Ymarferydd Gofal Preswyl y flwyddyn a gwobr Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru i Nyrs Pobl Hŷn y flwyddyn.

### Gwella ansawdd iechyd a gofal cymdeithasol – a'u hargaeledd a mynediad atynt

Cyhoeddais a lansiais fy Adolygiad o ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn mewn cartrefi gofal preswyl yng Nghymru. Mae fy Adolygiad wedi casglu tystiolaeth gan bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal preswyl ledled Cymru, yn ogystal â'u teuluoedd a'u gofalwyr. Rwyf hefyd wedi cynnal cyfres o sesiynau tystiolaeth ffurfiol gyda'r cyrff sy'n destun yr Adolygiad er mwyn trafod ac ystyried eu tystiolaeth ysgrifenedig yn fanylach. Mae cyfres o ymweliadau dirybudd â chartrefi gofal ledled Cymru wedi'i chynnal hefyd gan fy nhîm o *rapporteurs* gofal cymdeithasol.

Byddaf yn defnyddio'r dystiolaeth i dynnu sylw at y gofal gorau sydd gennym yng Nghymru ac i wneud argymhellion ar gyfer y gwelliannau y mae'n rhaid eu rhoi ar waith i sicrhau bod hawliau pobl hŷn yn holl

gartrefi gofal Cymru yn cael eu parchu a bod ganddynt yr ansawdd bywyd gorau.

Yr wyf wedi cyhoeddi ‘Gofal gydag Urddas: Dwy flynedd yn ddiweddarach’, sy’n adroddiad ar gynnydd fy Adolygiad Gofal gydag Urddas a thriniaeth pobl hŷn mewn ysbytai yng Nghymru. Er bod cynnydd yn cael ei wneud yn erbyn y deuddeg o argymhellion yn ‘Gofal gydag Urddas?’, dangoswyd bod rhaid gwneud cynnydd pellach sylweddol o hyd mewn amryw o feysydd allweddol i sicrhau bod yr holl bobl hŷn mewn ysbytai yng Nghymru yn cael eu trin ag urddas a pharch. Rwyf wedi’i gwneud yn glir bod rhaid i aelodau o Fyrddau fod yn fwy atebol am y penderfyniadau a wnânt a’r effaith y mae’r rhain ei chael ar y modd y mae cleifion yn derbyn gofal.

Mae gennyf ddisgwyliadau clir ynglŷn â’r ffordd y dylid trin pobl hŷn, neu glaf o unrhyw oedran o ran hynny. Dylai pawb sy’n defnyddio’r GIG yng Nghymru gael gofal effeithiol, a hwnnw’n cael ei roi â charedigrwydd a thosturi. Rhaid cael polisi dim goddefgarwch tuag at fethiannau mewn gofal a rhaid i’r GIG yng Nghymru weithredu ar brofiadau cleifion yn llawer mwy effeithiol.

## Amddiffyn a gwella gwasanaethau, cyfleusterau a seilwaith cymunedol

Mae pobl hŷn ledled Cymru wedi siarad â mi hefyd ynglŷn â’r rhwystrau yn y gymuned sy’n eu hwynebu ar draws llawer o rannau o’u bywydau ac sy’n golygu bod tyfu hŷn yn galetach heb angen, hyd yn oed i’r bobl hŷn fwyaf gweithgar a dyfeisgar.

Disgrifiwyd y profiadau hyn yn f’adroddiad i, ‘Mil o Fân Rwystrau’, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2013 i roi eu llais yn ôl i bobl hŷn ac i danlinellu mor bwysig yw’r gwasanaethau a’r cymorth beunyddiol y maent yn dibynnu arnynt i aros yn iach, yn ddiogel ac yn annibynnol.

Yn yr adroddiad, rhoddais ymrwymiad i weithio gyda phobl hŷn i edrych yn fanylach ar y materion o ran mynediad i doiledau cyhoeddus, argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus a chasglu sbwriel. Fe wnes i hyn drwy sefydlu fy Nhasglu Toiledau, Trafnidiaeth a Biniau, sef pobl hŷn yn gweithio’n uniongyrchol gyda mi i ehangu’r ddealltwriaeth o bwysigrwydd ac effaith y gwasanaethau hyn.

Gan adeiladu ar waith rhagorol fy Nhasglu Toiledau, Trafnidiaeth a Biniau, ym mis Chwefror 2014 cyhoeddais fy adroddiad ‘Pwysigrwydd ac Effaith Gwasanaethau Cymunedol yng Nghymru’. Mae’r adroddiad yn

gwneud achos clir a chadarn dros ddiogelu gwasanaethau cymunedol, sydd nid yn unig yn hanfodol i iechyd, cyfoeth a lles ein pentrefi, ein trefi, ein dinasoedd a'n cymunedau, ond hefyd yn rhan annatod o flaenoriaethau'r gwasanaethau cyhoeddus ac iechyd cyhoeddus yng Nghymru ac i iechyd cyffredinol ein heconomi.

I gasglu gwybodaeth ac i glywed yn uniongyrchol gan bobl hŷn pa mor bwysig yw gwasanaethau cymunedol yn eu bywydau o ddydd i ddydd, cynhaliais gyfres o grwpiau ffocws ledled Cymru (yn Aberystwyth, Caerdydd, Caerfyrddin, Bae Colwyn a Llandrindod) i alluogi pobl hŷn i rannu eu profiadau. Un pryder penodol oedd diffyg darpariaeth toiledau cyhoeddus, sydd, meddai pobl hŷn wrthyf, yn cael effaith sylweddol ar eu hiechyd a'u lles. Heb fynediad i doiledau cyhoeddus, mae llawer o bobl hŷn i bob pwrpas yn gaeth i'r tŷ, mewn perygl o golli eu hannibyniaeth a'u cysylltiadau â'u cymunedau. Felly roeddwn i'n falch iawn bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynigion ym mis Mawrth 2014 i osod dyletswydd ar awdurdodau lleol ledled Cymru i wella mynediad i doiledau cyhoeddus.

Mae Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru wedi lansio pedwar rhwydwaith i helpu i rannu gwybodaeth ac arloesi ar draws Cymru. Mae'r rhwydweithiau yn canolbwyntio ar ddinasoedd a chymunedau sy'n gydnaws ag oedran, cymunedau sy'n cefnogi pobl â dementia, atal cwympo a chyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a sgiliau newydd i bobl hŷn 50 oed a throsodd.

Fe ddilynes i'r argymhellion a wnes i i'r awdurdodau lleol yn 2012 ynghylch eu perfformiad o ran darparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl i bobl hŷn ar gyfer cymhorthion ac addasiadau i gartrefi. Cafwyd cynnydd sylweddol a dim ond tri awdurdod lleol oedd yn methu bodloni eu hamserlenni statudol, o'i gymharu â saith o'r blaen. Er hynny, mae amrywiad sylweddol yn parhau yn y ffordd y caiff y grantiau hyn eu cyrchu a'u darparu ac rwyf wedi parhau i godi'r mater hwn gyda Llywodraeth Cymru. Felly, rwy'n croesawu'r cadarnhad gan y Gweinidog Tai y ceir adolygiad bellach o'r system addasu cartrefi yng Nghymru.

**Sefyll cornel pobl hŷn sydd mewn perygl o gael eu niweidio a sicrhau eu bod yn cael eu diogelu a'u hamddiffyn.**

Mae gormod o bobl hŷn yn profi camdriniaeth ddomestig sy'n gallu cynnwys camdriniaeth gorfforol, seicolegol, ariannol, rhywiol ac esgeulustod. Yn fy Fframwaith Gweithredu, rwyf yn glir iawn bod rhaid inni wella o ran cydnabod y gamdriniaeth y mae pobl hŷn yn ei hwynebu; rhaid i'r holl bobl hŷn sydd mewn perygl gael mynediad i gymorth diogelu

effeithiol a rhaid i'r rhai sydd wedi'u cam-drin gael cymorth cyflym a phriodol er mwyn adennill eu diogelwch.

Rwyf hefyd yn glir bod rhaid cydnabod bod cam-drin pobl hŷn yn weithred droseddol a, lle maent yn ffitio'r diffiniad, bod rhaid i bobl hŷn gael eu cydnabod fel dioddefwyr camdriniaeth ddomestig a chael y gefnogaeth ehangaf posibl sydd ar gael o dan y ddeddfwriaeth ynghylch cam-drin domestig a gwasanaethau cymorth ar gyfer cam-drin domestig.

Trefnais a chadeiriais seminar gyda staff uwch o'r gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Swyddogion Heddlu, uwch-arweinwyr POVA a swyddogion o Lywodraeth Cymru, i drafod fy mhryderon ehangach o ran mynediad i gymorth ar gyfer cam-drin domestig, trosglwyddo unigolion o wasanaethau amddiffyn i wasanaethau cyfiawnder troseddol a chyfiawnder adferol a nodi sut y gallwn ymdrin â'r materion hyn yng Nghymru.

Rwyf hefyd wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cam-drin domestig pobl hŷn yn cael ei ddeall yn llawn a'i adlewyrchu yn y Bil Cam-drin Domestig (Cymru) newydd a bod y cysylltiadau rhwng cam-drin domestig a'r darpariaethau diogelu ym Mil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cael eu deall yn llawn.

Rhoddais gymorth i deuluoedd dioddefwyr camdriniaeth ac esgeulustod honedig mewn nifer o gartrefi gofal yn y De, yr ymchwiliwyd iddynt gan Heddlu Gwent ac a adnabuwyd fel Ymgyrch Jasmine. Gelwais ar Lywodraeth Cymru, ar ran y teuluoedd, i gynnal Ymchwiliad gan fod llawer o gwestiynau heb eu hateb o hyd ynghylch pwy oedd yn gyfrifol a sut y gallai esgeulustod a cham-drin ar y raddfa honedig fod wedi digwydd. Gan hynny, rwy'n croesawu'r cyhoeddiad a wnaed gan Brif Weinidog Cymru i gynnal Adolygiad Annibynnol.

Trefnais sesiwn briffio hefyd gydag Aelodau Seneddol yn San Steffan i drafod fy mhryderon ynglŷn â'r bylchau presennol yn y gyfraith ar amddiffyn oedolion, sydd yn aml yn atal cyfle pobl hŷn i gael cyfiawnder, a'r angen i'r rhain gael sylw drwy ddiweddaru'r ddeddfwriaeth.

Cefais gyllid ychwanegol o £15k gan Lywodraeth Cymru i gyfrannu at sefydlu Bwrdd Datblygu Cenedlaethol a Chyfarwyddwr Rhaglen i nodi a sbarduno camau i gyflawni newid yn niwylliant y gweithle mewn iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru er mwyn i bobl hŷn gael gwell cymorth ac amddiffyniad rhag niwed

## Mynd i'r afael â rhagfarn, anghydraddoldeb a gwahaniaethu

I helpu gweithwyr proffesiynol i ddeall yn well natur ac effaith gwahaniaethu ar sail oed a sut mae'n bwydo gwahaniaethu ehangach, bûm yn gweithio gyda byrddau iechyd lleol, awdurdodau lleol, cartrefi gofal, yr heddlu a Llywodraeth Cymru i ddarparu cyfres o seminarau hyfforddi a oedd yn cynnwys gweithgareddau ymarferol ac amrywiaeth o adnoddau ysgrifenedig manwl i helpu i ddatblygu arferion gwell ymhellach.

Bu'r seminarau hyfforddi'n ystyried heneiddio a'i effaith ar unigolion, teuluoedd a chymunedau yng Nghymru, yn ogystal â sut mae agweddau negyddol at heneiddio yn effeithio ar ddarparu gwasanaeth da. Bu'r hyfforddiant yn fodd hefyd i'r cynrychiolwyr feddwl, mewn termau ymarferol, am sut i ddatblygu gwasanaethau cyhoeddus sy'n gydnaws ag oedran a chymunedau sy'n gydnaws ag oedran, ar sail Fframwaith Sefydliad Iechyd y Byd a fydd yn bodloni anghenion poblogaeth sy'n heneiddio.

Mae 147 o weithwyr proffesiynol wedi cwblhau'r hyfforddiant hyd yn hyn a chynhelir rhagor o seminarau hyfforddi drwy gydol 2014, a fydd ar gael i grŵp ehangach o gyfranogwyr. Yn ychwanegol, darparwyd pecynnau hyfforddi a phecynnau adnoddau 'hyfforddi'r hyfforddwyr' i weithwyr proffesiynol ar draws cyrff cyhoeddus i'w galluogi i ddarparu'r hyfforddiant hwn ar fy rhan i.

Roeddwn yn falch bod yna gefnogaeth drawsbleidiol i'm galwad i wella hawliau pobl hŷn a bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn imi gadeirio Grŵp Cynghori Annibynnol i ystyried ac archwilio rhagoriaethau Datganiad o Hawliau Pobl Hŷn i Gymru, a fyddai'r cyntaf o'i fath yn y DU.

Dyfarnodd y Grŵp Cynghori Annibynnol y byddai Datganiad yn cynnig fframwaith a safon glir a allai gael eu deall a'u defnyddio gan bobl hŷn er mwyn sicrhau bod eu hawliau'n cael eu parchu wrth dderbyn y cymorth a'r gwasanaethau y mae arnynt eu hangen i fyw bywydau annibynnol a bodlon. O'i ddrafftio'n gywir, byddai datganiad yn fwy hwylus na'r ddeddfwriaeth bresennol ar hawliau dynol.

## Ymgysylltu a chyfathrebu

Rwyf wedi parhau i deithio ar hyd a lled Cymru fel rhan o'm Sioe Deithiol Ymgysylltu, i gyfarfod a siarad â phobl hŷn am y pethau sydd o'r pwys mwyaf iddynt.

Eleni mae fy nhîm a minnau wedi cyfarfod â mwy o bobl hŷn nag erioed o'r blaen, dros 200 o grwpiau o bobl hŷn mewn cymunedau ledled Cymru, i estyn allan at fwy na 5,300 o bobl. Rydym wedi cyfarfod ac wedi siarad â phobl hŷn ym mhob etholaeth yng Nghymru, gydag o leiaf 30 o ddigwyddiadau ym mhob un o bum rhanbarth etholiadol y Cynulliad Cenedlaethol.

Eleni, bu fy Sioe Deithiol Ymgysylltu'n canolbwyntio'n fwy byth ar estyn allan i'r amrywiaeth llawn o bobl hŷn yng Nghymru. Mae hyn yn sicrhau fy mod yn bencampwr ar ran yr holl bobl hŷn a bod lleisiau'r bobl hŷn hynny nad ydynt yn cael eu clywed yn aml wrth wraidd fy ngwaith ac yn sbarduno fy mlaenoriaethau

Rwyf yn falch bod fy Sioe Deithiol Ymgysylltu wedi cyrraedd cynifer o bobl, gan gynrychioli amrywiaeth Cymru, ac roeddwn yn hynod falch o ennill Gwobr Rhagoriaeth mewn Cydraddoldeb yn y Sector Cyhoeddus gan Diverse Cymru yn 2013.

Mae defnyddio'r cyfryngau yn ffordd bwysig i ymgysylltu â nifer fawr o bobl hŷn, yn enwedig y rhai sy'n anodd eu cyrraedd. Rwyf wedi gweithio gyda'r cyfryngau darlledu yng Nghymru i sicrhau bod gennyf bresenoldeb rheolaidd ar draws y teledu a'r radio fel bod pobl hŷn yn gwybod am y gwaith yr wyf yn ei wneud i greu gwahaniaeth yn eu bywydau.

Yn ogystal â sicrhau sylw rheolaidd yn y wasg genedlaethol, rwyf hefyd wedi gweithio'n helaeth gyda newyddiadurwyr ledled Cymru i sicrhau bod papurau newydd a chylchgronau, gan gynnwys cyhoeddiadau Cymraeg, yn adrodd ar y gwaith yr wyf yn ei wneud a'i effaith yng nghymunedau Cymru

## Cymorth i Unigolion

Drwy fy Nhîm Ymholiadau a Chymorth, rhoddais gymorth, cefnogaeth a chyngor i 795 o bobl hŷn. Dyma'r pynciau mwyaf cyffredin y cysylltwyd â'm tîm yn eu cylch:

| Testun | Nifer yr ymholiadau a ddaeth i law | Y ganran o'r cyfanswm (%) |
|---|---|---|
| Gofal Preswyl | 127 | 15.97 |
| Byrddau Iechyd Lleol | 110 | 13.84 |

| | | |
|---|---|---|
| Cymuned | 41 | 5.16 |
| Arian | 41 | 5.16 |
| Tai | 39 | 4.91 |

Rwyf yn darparu gwasanaeth dwyieithog a gallaf roi cymorth i’r rhai sydd â nam ar eu synhwyrau. Gall fy staff helpu pobl hŷn unigol, eu teuluoedd a’u gofalwyr yn y ffyrdd canlynol:

- gallaf ymyrryd yn uniongyrchol os bydd rhywun hŷn yn cael trafferthion gyda darparwr gwasanaeth.
- gallaf roi gwybodaeth am wasanaethau mewn cymunedau lleol.
- gallaf gefnogi rhywun hŷn i wneud cwyn a monitro sut yr ymdrinnir â’r gŵyn honno.
- gallaf roi pobl hŷn mewn cysylltiad â’r sefydliadau sydd yn y sefyllfa orau i ddatrys eu pryderon.
- gallaf ymyrryd yn uniongyrchol os bydd rhywun hŷn mewn perygl o gael niwed.

Mewn llawer o achosion, roedd fy nhîm yn gallu cyfeirio pobl hŷn at asiantaethau eraill sydd yn y sefyllfa orau i roi cymorth a chefnogaeth, gan sicrhau nad oeddwn yn dyblygu gwaith pobl eraill. Mae hyn wedi fy ngalluogi i gynyddu’r cymorth yr wyf yn ei roi i unigolion y mae arnynt angen cymorth cymhleth sydd mewn trallod ac mewn sefyllfaoedd agored iawn i niwed uchel, a dim ond ymyriad gen i a all gynorthwyo

Mae’r enghreifftiau o achosion cymhleth y bu fy nhîm yn ymdrin â hwy yn ystod 2013-14, lle gwelwyd materion amddiffyn a/neu ddiogelu, yn cynnwys:

- Cynnal adolygiad Adran 5 ar drefniadau chwythu’r chwiban mewn awdurdod lleol, yn sgil pryderon a godwyd gyda mi o ran gofal unigolyn hŷn a honiad ei fod wedi’i gam-drin.
- Cynnal adolygiad Adran 3 ar gau cartref gofal yn sgil sylwadau sylweddol a gyflwynwyd imi gan nifer o unigolion a phryderon a godwyd ynghylch ansawdd gofal y trigolion.
- Rhoi cymorth o dan Adran 8 drwy gynrychioli perthnasau unigolyn hŷn yn Llys y Crwner.

Mae’r materion eraill a gododd drwy fy nghymorth i achosion cymhleth yn cynnwys:

- Amgylchiadau marwolaeth

- Safonau gofal gwael iawn a cham-drin trigolion
- Asesiadau gofal iechyd parhaus yn y GIG
- Codi pryderon
- Cau cartrefi gofal, gan gynnwys EMI

## Rhagolwg

Mae'n bwysig bod y gwaith yr wyf yn ei wneud fel Comisiynydd nid yn unig yn adlewyrchu'r materion y mae pobl hŷn wedi dweud wrthyf eu bod eisiau i mi ganolbwyntio arnynt, ond hefyd yn adlewyrchu realiti'r heriau a wynebir gan ein gwasanaethau cyhoeddus

Mae gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru yn mynd drwy gyfnod o newid sylweddol, a ysgogir gan gydnabyddiaeth nad yw'r modelau gwasanaeth a gofal presennol yn gynaliadwy mwyach ac nad ydynt yn bodloni anghenion pobl, yn ogystal â realiti ac effaith lleihau gwariant cyhoeddus. Nid yw'r heriau presennol sy'n wynebu'r gwasanaethau cyhoeddus wedi'u gweld ers cenhedlaeth, ond maen nhw'n cynnig cyfleoedd sylweddol i ailgynllunio, ailddatblygu ac adennill gwasanaethau cyhoeddus ar ran y bobl sy'n eu defnyddio

Gan gydnabod y newid sylweddol sy'n digwydd ar hyn o bryd yng Nghymru a'r effaith bosibl a gaiff hyn ar bobl hŷn, dros y flwyddyn sydd i ddod byddaf yn gwneud y canlynol:

- Cynyddu fy nghymorth uniongyrchol i bobl hŷn sy'n eu canfod eu hunain mewn sefyllfaoedd cymhleth iawn ac annerbyniol, a hynny drwy gymorth uniongyrchol i achosion.
- Cyhoeddi canfyddiadau fy Adolygu Gofal Preswyl a chyhoeddi gofynion ynglŷn â gweithredu er mwyn sicrhau bod ansawdd bywyd wrth wraidd gofal preswyl yng Nghymru.
- Cryfhau gallu pobl hŷn i sicrhau eu hawliau a'u grymuso i fod yn rhan o benderfyniadau a newidiadau sy'n digwydd yng Nghymru, a lle bo'n briodol i herio'r penderfyniadau a'r newidiadau hynny.
- Gweithio gyda phartneriaid i gryfhau mynediad pobl hŷn i gymorth ar gyfer camdriniaeth ddomestig ac i'r system cyfiawnder troseddol a chyfiawnder adferol.
- Herio rhagfarn ar sail oed, gwahaniaethu a'r stereoteipiau o bobl hŷn, eu heffaith ar unigolion, a'u heffaith ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon ac effeithiol.
- Ymgymryd ag adolygiadau ffurfiol o'r cymorth sydd ar gael i ofalwyr ac i bobl sy'n byw gyda dementia.

- Cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth cyrff cyhoeddus allweddol a darparwyr gwasanaethau o sut i gynllunio a darparu gwell deddfwriaeth, polisïau a gwasanaethau cyhoeddus.
- Lansio rhaglen waith Heneiddio'n Dda yng Nghymru yn ffurfiol, ynghyd â'i rhwydweithiau ategol a'i chynllun gweithredu.

## Adolygiad o Flwyddyn Ariannol 2013-14

Mae'r Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr yn dangos gwariant net ar gyfer 2013-14 o £1.766 miliwn (2012-13: £1.964 miliwn ar ôl incwm o yswiriant).

Roedd £0.279 miliwn yn y cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn (2012-13: £0.315 miliwn). Rwyf yn bwriadu defnyddio elfen arian parod y cronfeydd wrth gefn hyn mewn modd effeithiol i gefnogi rhaglenni gwaith untro yn 2014-15 ac mewn blynyddoedd i ddod. Nodwyd hyn yn fy Amcangyfrif i'r Gweinidogion a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 9 Chwefror 2014.

## Gweithio yn y Comisiwn

Yn ystod 2013-14, roeddwn yn cyflogi 26.41 o staff cyfartal ag amser-llawn ar gyfartaledd (27.11 yn 2012-13). Aelodau'r Tîm Rheoli Strategol a fu'n gweithio gyda mi yn ystod 2013-14 oedd:

| | |
|---|---|
| Alison Phillips | Dirprwy Gomisiynydd |
| | Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad |
| Anna Buchanan | Cyfarwyddwr Amddiffyn, Craffu a Hawliau Dynol |
| Kelly Davies | Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu |
| Daisy Cole | Cyfarwyddwr Llesiant a Grymuso |

4.2 diwrnod (9 diwrnod yn 2012-13) oedd y gyfradd absenoldeb ar gyfartaledd fesul aelod staff.  Yr wyf wedi ymrwymo i iechyd a lles fy staff ac mae gennyf bolisi cynhwysfawr ar absenoldeb oherwydd salwch. Yr wyf hefyd yn helpu'r gweithwyr i gadw cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith drwy weithredu system amser hyblyg a darparu cyfleoedd ar gyfer patrymau gweithio hyblyg. Yr wyf wedi gweithredu Rhaglen Cymorth Gweithwyr ddi-dâl a chyfrinachol sydd ar gael i'r holl staff

Mae'r sefydliad wedi ennill statws Buddsoddwyr mewn Pobl ac ym mis Tachwedd 2013 cyflwynwyd Gwobr Arian Iechyd yn y Gweithle Bach inni. Dywedodd yr aseswyr ei bod yn amlwg bod y sefydliad yn lle rhagorol i weithio a bod ystod eang o ddarpariaethau ar gael i'r staff i hybu eu llesiant ynghyd â thystiolaeth bod proses gynhwysfawr ar gael ynglŷn ag adolygu perfformiad.

Yn ystod y flwyddyn mae'r staff wedi ymgymryd ag ystod o weithgareddau dysgu a datblygu sy'n berthnasol i'w rolau ac mae'r holl staff sydd wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant a oedd yn canolbwyntio ar ddiogelu oedolion, y Ddeddf Cydraddoldeb a'r Ddeddf Hawliau Dynol yn ogystal â diweddariad ar ddeddfwriaeth Diogelu Gwybodaeth a Data gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae pob aelod o'r staff yn cwblhau gwerthusiad perfformiad blynyddol.

Yr wyf yn gwbl ymrwymedig i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal, ac yn cymryd pob cam posibl i hyrwyddo'r Gymraeg; mae hyn yn cynnwys hyrwyddo'r cynllun iaith Gymraeg, cyflogi nifer o staff dwyieithog, annog gweithwyr i ddysgu Cymraeg a rhedeg amgylchedd gweithio dwyieithog.

## Trefniadau Pensiwn

Rwyf fi a'r staff a gyflogir yn uniongyrchol gennyf yn gymwys i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ceir manylion pellach yn yr Adroddiad Taliadau a'r Cyfrifon.

## Cyfle Cyfartal

Rwyf wedi ymroi i gydraddoldeb cyfle ac yn ceisio cyflogi gweithlu amrywiol. Caiff pob cais ei ystyried ar y sail y dylai pob ymgeisydd am swydd gael cyfle cyfartal i gael swydd a dyrchafiad ar sail ei allu, ei gymwysterau a'i addasrwydd ar gyfer y gwaith.

Ni fydd unrhyw ymgeisydd am swydd na gweithiwr yn derbyn triniaeth lai ffafriol ar sail oedran, hil, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, crefydd, cyfrifoldebau teuluol/domestig neu batrymau gwaith, ac ni fydd unrhyw unigolyn yn cael ei roi dan anfantais oherwydd amodau neu ofynion na ellir dangos eu bod yn gyfiawn. Hyrwyddir cyfleoedd dysgu a datblygu i'r holl staff, ac mae Cynlluniau Talebau Gofal Plant a Beicio i'r Gwaith hefyd ar gael iddynt..

## Cynaliadwyedd

Rwyf wedi ymrwymo i arferion amgylcheddol da. Dyma enghreifftiau o'r ffordd yr wyf yn gweithredu stiwardiaeth amgylcheddol da:

- Defnyddio ynni – fel un o nifer o denantiaid mewn bloc swyddfeydd bach modern, nid yw'n bosibl bod â rheolaeth lwyr dros y cyfleusterau dŵr, gwres a goleuo. Fodd bynnag, ceir falfiau rheoli thermostatig ar bob gwresogydd, bylbiau arbed ynni, a goleuadau sensitif i symudiad mewn rhai mannau yn amgylchedd y swyddfa.

- Defnyddio cerbydau – nid yw'r swyddfa'n rhedeg unrhyw gerbydau ond y mae'n annog defnyddio cerbydau wedi eu llogi ar gyfer teithiau hwy er mwyn sicrhau'r effeithiolrwydd mwyaf. Anogir y staff i rannu cludiant ar gyfer teithiau swyddogol lle bo hynny ymarferol. Lle bynnag y bo'n briodol, anogir staff i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

- Rheoli papur - mae'r holl staff yn cael defnyddio'r e-bost a'r rhyngrwyd ac mae defnyddio mewnrwyd yn y swyddfa yn golygu bod modd gweld gwybodaeth heb fod angen systemau dosbarthu papur.

- Cynnyrch – anogir cyflenwyr i ddefnyddio nwyddau ecogyfeillgar lle bynnag y bo modd. Rwyf yn defnyddio nwyddau papur amgylcheddol-gadarn megis papur ac amlenni wedi eu hailgylchu.

- Gwaredu Gwastraff – mae gweithdrefnau ar waith i ailgylchu deunyddiau, gan gynnwys papur, cardbord a rhai mathau o blastig. Mae trefniadau hefyd ar waith ar gyfer gwaredu gwastraff bwyd.

Ceir gwared â phapurau sy'n cynnwys gwybodaeth sensitif drwy gyfleusterau ailgylchu gwastraff cyfrinachol oherwydd y ddyletswydd i gynnal cyfrinachedd yn ein deddfwriaeth alluogi. Mae gan y swyddfa dystysgrif cyflawniad amgylcheddol sy'n tystio i'n rhaglen rwygo ac ailgylchu arbed 38.5 o goed rhag cael eu dinistrio yn 2013 (37.1 yn 2012).

Wrth edrych tua'r dyfodol, rwyf yn cefnogi'r egwyddorion sy'n sail i'r Bil Datblygu Cynaliadwy. Mae'n rhoi pwyslais ehangach o lawer ar gynaliadwyedd, gan gynnwys lles amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol pobl a chymunedau, gan sicrhau ansawdd bywyd gwell ar gyfer ein cenhedlaeth ni, ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol; rwyf eisoes wedi ymgorffori'r egwyddorion allweddol hyn yn fy Fframwaith Gweithredu 2013-2017.

### Polisi Taliadau

Rwyf yn anelu at gydymffurfio â Chod Talu'n Well Llywodraeth y DU. Y targed yw gwneud taliadau o fewn telerau talu a gytunwyd neu cyn pen 30 diwrnod ar ôl derbyn anfonebau nad oes dadl amdanynt am nwyddau a gwasanaethau a dderbyniwyd.

Roedd perfformiad talu'r flwyddyn ar gyfartaledd yn 99.81% wedi'u talu'n brydlon (99.67% yn 2012-13). Ni thalwyd llog yng nghyswllt taliadau hwyr.

## Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol rhwng diwedd y flwyddyn a chymeradwyo'r cyfrifon hyn.

## Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Mae gennyf Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i'm cefnogi fel Swyddog Cyfrifyddu wrth fonitro ac adolygu llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a systemau rheolaeth fewnol.

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys pedwar aelod annibynnol, a benodwyd yn 2009. Ar ddiwedd y flwyddyn, daeth tymor dau yn eu swydd i ben. Mae arferion da yn gofyn imi adolygu'n rheolaidd a chylchdroi'r amrywiaeth, y sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad sydd gan aelodau'r Pwyllgor ar y cyd. Gan hynny, rwyf wedi ymestyn tymor un yn ei swydd am ddwy flynedd ac wedi recriwtio un aelod newydd i'm Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg am dymor o bedair blynedd.

| | |
|---|---|
| Gordon Lishman | Wedi'i benodi tan 31 Mawrth 2014<br>Cadeirydd tan 31 Mawrth 2014 |
| Kenneth Jones | Wedi'i ymestyn tan 31 Mawrth 2016 |
| Eifion Pritchard | Wedi'i benodi tan 31 Mawrth 2015 |
| Ian Summers | Wedi'i benodi tan 31 Mawrth 2015<br>Wedi'i benodi'n Gadeirydd o 1 Ebrill 2014 |
| Mutale Merril | Wedi'i phenodi o 1 Mehefin 2014 tan 31 Mai 2018 |

## Trefniadau archwilio

Mae'r Cyfrifon hyn wedi'u harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â pharagraff 12 Atodlen 1 i Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Y gost y cytunwyd arni am archwilio cyfrifon 2013-14 yw £14.6k (£14k yn 2012-13).

Darparodd Deloitte wasanaethau archwilio mewnol i mi yn 2013-14. Maent wedi cael eu penodi tan 31 Mawrth 2016 gyda'r opsiwn o ymestyn am flwyddyn arall.

**Datgelu Gwybodaeth Archwilio Briodol**
Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr archwilwyr hefyd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

**Sarah Rochira**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru** **30 Gorffennaf 2014**

# ADRODDIAD TALIADAU

## Polisi Taliadau

Gweinidogion Cymru sy'n pennu fy nghyflog, yn unol ag Atodlen 1(3) o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Dan delerau'r penodiad hwn byddai unrhyw godiadau blynyddol yn dilyn y dyfarniad canran a wneir gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion. Rwyf hefyd yn gymwys ar gyfer Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac wedi ymuno ag ef. Cafodd dyfarniad cyflog cyfnerthedig o 2% ei gadarnhau gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2014; cafodd hwn ei roi ar waith a'i dalu ym mis Mawrth 2014.

Pennir cyflogau staff a gyflogir yn uniongyrchol gennyf fi yn dilyn cynnal adolygiad cyflogau blynyddol sy'n asesu unrhyw newid sylweddol i'r rôl, eu cyfraniad at f'amcanion strategol, ac effaith y newid ar swyddi eraill yn y sefydliad ac asesiad o gyfraddau ehangach y farchnad ar gyfer swyddi tebyg mewn sefydliadau cymharol eraill.



## Contractau Gwasanaeth

Penodir aelodau parhaol o staff, ar delerau ac amodau a bennir gennyf fi, ar eu haeddiant ac ar sail cystadleuaeth deg ac agored, ond cynhwysir hefyd ddarpariaethau ar gyfer amgylchiadau pryd y gellir gwneud penodiadau fel arall. Mae'r egwyddorion hyn yn cyd-fynd â threfniadau'r gwasanaeth sifil. Nid yw'r staff yn aelodau o'r Gwasanaeth Sifil ond mae hawl ganddynt i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS).

Oni nodir yn wahanol isod, mae'r staff a gwmpasir gan yr adroddiad hwn yn dal penodiadau agored. Nid oes oedran ymddeol gorfodol, er y bydd rheolau'r PCSPS ar oed pensiwn cynharaf yn berthnasol.
Rwyf wedi sefydlu mecanweithiau i werthuso perfformiad i sicrhau y caiff cyfraniad gweithwyr unigol ei fesur ar lefel briodol ar bob cam o'u cyflogaeth gyda'r Comisiwn. Rwyf wedi dechrau gweithredu rhaglen datblygu ar gyfer y sefydliad er mwyn cryfhau gallu a gwella perfformiad yn gyffredinol drwy gynhyrchiant uwch.

Byddai terfynu swydd, ac eithrio am gamymddwyn, yn golygu y byddai'r unigolyn yn derbyn iawndal fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

## Taliadau (gan gynnwys cyflog) a Hawliau Pensiwn

Mae’r adran hon yn amodol ar archwiliad gan Swyddfa Archwilio Cymru.
Mae’r adrannau canlynol yn darparu manylion cyflogau a buddiannau pensiwn y Comisiynydd a staff uwch

## Taliadau (cyflog, buddion mewn da a phensiynau)

Mae ‘cyflog’ yn cynnwys y cyflog gros; goramser ac unrhyw lwfans arall i’r graddau y mae’n dod o dan drefn trethiant y DU. Mae’r adroddiad hwn wedi’i seilio ar daliadau cronedig a wnaed gan y Comisiynydd ac sydd felly wedi’u cofnodi yn y cyfrifon hyn. Ni chefais i nac unrhyw aelod o’m staff fuddion mewn da nac unrhyw fonws.

| **Enw a theitl** | **Cyflog** | **Cyflog** | **Buddion Pensiwn** (1) | **Buddion Pensiwn** (1) | **Cyfanswm** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2013-14** | **2012-13** | **2013-14** | **2012-13** | **2013-14** | **2012-13** |
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Sarah Rochira (2)<br>Comisiynydd<br>Dechreuodd ei chyfnod yn y swydd 4/6/12 | 93 | 75 | 35 | 30 | 128 | 105 |
| Alison Phillips (3)<br>Pennaeth Cyllid, Adnoddau Dynol a Llywodraethiant Corfforaethol tan 31 Mawrth 2013<br>Fe’i dyrchafwyd yn Gyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad a Dirprwy Gomisiynydd o 1 Ebrill 2013 | 64 | 53 | 24 | 22 | 88 | 75 |

| **Enw a theitl** | **Cyflog** | **Cyflog** | **Buddion Pensiwn** (1) | **Buddion Pensiwn** (1) | **Cyfanswm** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2013-14** | **2012-13** | **2013-14** | **2012-13** | **2013-14** | **2012-13** |
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Anna Buchanan(4)<br>Cyfarwyddwr Amddiffyn, Craffu a Hawliau Dynol<br>Fe'i penodwyd o 1 Ebrill 2013 | 43 | d/g | 0 | d/g | 43 | d/g |
| Kelly Davies(4)<br>Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu<br>Fe'i penodwyd o 1 Ebrill 2013 | 43 | d/g | 18 | d/g | 61 | d/g |
| Daisy Cole (5)<br>Cyfarwyddwr Llesiant a Grymuso<br>Fe'i penodwyd o 7 Mai 2013 | 46 | d/g | 18 | d/g | 64 | d/g |
| Ruth Marks<br>Comisiynydd<br>Daeth ei chyfnod yn y swydd i ben 20/4/12 | 0 | 10 | 0 | 5 | 0 | 15 |
| Sarah Stone<br>Dirprwy Gomisiynydd<br>Comisiynydd Dros Dro (21/4/12-3/6/12)<br>Ymadawodd 31/3/2013 | 0 | 120 | 0 | 30 | 0 | 150 |

| **Enw a theitl** | **Cyflog** | **Cyflog** | **Buddion Pensiwn** (1) | **Buddion Pensiwn** (1) | **Cyfanswm** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2013-14** | **2012-13** | **2013-14** | **2012-13** | **2013-14** | **2012-13** |
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Julia Lewis<br>Pennaeth Gwybodaeth ac Adnoddau<br>Ymadawodd 31/3/2013 | 0 | 67 | 0 | 19 | 0 | 86 |
| Alun Thomas<br>Pennaeth Adolygu, Archwilio a Pholisi<br>Ymadawodd 31/3/2013 | 0 | 62 | 0 | 15 | 0 | 77 |

(1) Mae gwerth y buddion pensiwn a gronnir yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyfrifo fel (y gwir gynnydd yn y pensiwn wedi'i luosi ag 20) plws (y gwir gynnydd mewn unrhyw gyfandaliad) llai (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r gwir gynnydd yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiad am fod hawliau pensiwn wedi'u trosglwyddo.

(2) Cafodd dyfarniad cyflog cyfnerthedig o 2% ei gadarnhau gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2014; cafodd hwn ei roi ar waith a'i dalu ym mis Mawrth 2014. £91k oedd cyflog y flwyddyn gyflawn ar gyfer 2012-13.

(3) Cafodd Alison Phillips ei dyrchafu i swydd Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad ac ymgymerodd â swydd y Dirprwy Gomisiynydd o 1 Ebrill 2013.

(4) Roedd Kelly Davies ac Anna Buchanan yn cael eu cyflogi gan y Comisiynydd yn aelodau o'r staff yn ystod 2012-13 ond nid oeddent yn cael eu dosbarthu'n 'staff uwch' ac felly nid yw eu cyflogau yn y cyfnod hwnnw wedi'u datgelu fel gwybodaeth gymaradwy.

(5) Penodwyd Daisy Cole o 7 Mai 2013; £51k oedd cyflog y flwyddyn gyflawn ar gyfer 2013-14.

## Lluosrifau tal

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng cyflog y cyfarwyddwr uchaf ei gyflog yn eu sefydliad a thâl canolrifol gweithlu'r sefydliad.

| | **2013-14 £000** | | **2012-13 £000** |
|---|---|---|---|
| Y Cyfarwyddwr Uchaf ei Gyflog (y Comisiynydd) | 93 | *Y Cyfarwyddwr Uchaf ei Gyflog (y Comisiynydd)* | 91 |
| | **£** | | **£** |
| **Cyfanswm Tâl Canolrifol** | **28,568** | **Cyfanswm Tâl Canolrifol** | **31,184** |
| **Cymhareb** | **3.25** | **Cymhareb** | **2.92** |

Roedd tâl y cyfarwyddwr uchaf ei gyflog (y Comisiynydd) yn £92,869 yn 2013-14 (2012-13: £91,048). Roedd hynny 3.25 gwaith (2012-13: 2.92) tâl canolrifol y gweithlu, sef £28,568 (2012-13: £31,184). Mae'r newid yn gyfartal i ddau bwynt cynnydd ym Mand C (£25,192- £31,496 gan gynnwys codiad o 1% ar gyfer chwyddiant yng nghostau byw) ac yn adlewyrchu newidiadau ymysg y staff yn y band hwnnw.

Mae'r taliad yn cynnwys cyflog yn unig ac nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian pensiynau. Nid yw'r ffigurau ar gyfer y cyfrifiad hwn yn cynnwys unrhyw symiau iawndal am golli swydd na thaliadau a wnaed yn lle rhybudd.  Yn 2013-14, ni chafodd unrhyw gyflogai (un yn 2012-13) daliad a oedd yn fwy na rôl y Comisiynydd. Yn 2013-14, cafodd y taliadau ei seilio ar y cyfraddau cyflog, gan amrywio o £15,908 i £71,988 (2012-13: £15,750 i £71,275).

Dyfarnwyd codiadau cynyddrannol i gyflogau staff eraill yn unol â thelerau ac amodau contractau. Dyfarnwyd cynnydd yn unol â chostau byw o 1% yn 2013-14.

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

| | Pensiwn cronedig wrth gyrraedd oedran pensiwn fel yr oedd ar 31/3/14 a'r cyfandaliad cysylltiedig | Gwir gynnydd mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig wrth gyrraedd oedran pensiwn | CETV ar 31/3/14 | CETV ar 31/3/13 | Gwir gynnydd mewn CETV |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Sarah Rochira<br>Comisiynydd<br>Dechreuodd ei chyfnod yn y swydd 4/6/12 | 4 | 2 | 45 | 19 | 17 |
| Alison Phillips<br>Pennaeth Cyllid, Adnoddau Dynol a Llywodraethiant Corfforaethol tan 31 Mawrth 2013<br>Fe'i dyrchafwyd yn Gyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad a Dirprwy Gomisiynydd o 1 Ebrill 2013 | 6 | 1 | 49 | 34 | 8 |
| Anna Buchanan<br>Cyfarwyddwr Amddiffyn, Craffu a Hawliau Dynol<br>Fe'i penodwyd o 1 Ebrill 2013 | 2 | 0 | 18 | 17 | 0 |

| | Pensiwn cronedig wrth gyrraedd oedran pensiwn fel yr oedd ar 31/3/14 a'r cyfandaliad cysylltiedig | Gwir gynnydd mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig wrth gyrraedd oedran pensiwn | CETV ar 31/3/14 | CETV ar 31/3/13 | Gwir gynnydd mewn CETV |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Kelly Davies<br>Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu<br>Fe'i penodwyd o 1 Ebrill 2013 | 2 | 1 | 17 | 9 | 5 |
| Daisy Cole<br>Cyfarwyddwr Llesiant a Grymuso<br>Fe'i penodwyd o 7 Mai 2013 | 1 | 1 | 11 | d/g | 7 |
| Ruth Marks<br>Comisiynydd<br>Daeth ei chyfnod yn y swydd i ben 20/4/12 | d/g | d/g | d/g | 129 | d/g |
| Sarah Stone<br>Dirprwy Gomisiynydd<br>Comisiynydd Dros Dro (21/4/12-3/6/12)<br>Ymadawodd 31/3/2013 | d/g | d/g | d/g | 86 | d/g |
| Julia Lewis | d/g | d/g | d/g | 124 | d/g |

| | Pensiwn cronedig wrth gyrraedd oedran pensiwn fel yr oedd ar 31/3/14 a'r cyfandaliad cysylltiedig | Gwir gynnydd mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig wrth gyrraedd oedran pensiwn | CETV ar 31/3/14 | CETV ar 31/3/13 | Gwir gynnydd mewn CETV |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Pennaeth Gwybodaeth ac Adnoddau<br>Ymadawodd 31/3/2013 | | | | | |
| Alun Thomas<br>Pennaeth Adolygu, Archwilio a Pholisi<br>Ymadawodd 31/3/2013 | d/g | d/g | d/g | 160 | d/g |

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 30 Gorffennaf 2007, gall y cyflogeion fod mewn un o bedwar cynllun buddion diffiniedig: naill ai cynllun cyflog terfynol (clasurol, premiwm neu clasurol a mwy): neu gynllun gyrfa gyfan (Nuvos). Nid yw'r trefniadau statudol wedi'u cyllido ac mae cost y buddion yn cael ei thalu gan swm a benderfynir drwy bleidlais yn y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy dan y cynlluniau clasurol, premiwm, clasurol a mwy a Nuvos yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth cynyddu Pensiynau. Gall aelodau sy'n ymuno o Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn cyfranddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau'r gweithiwr yn gysylltiedig â'i gyflog ac yn amrywio o 1.5% i 6.25% o enillion pensiynadwy ar gyfer y cynllun clasurol, a 3.5% i 8.25% ar gyfer y premiwm, y clasurol a mwy a Nuvos. Mae'r cynnydd i

gyfraniad y gweithiwr yn gymwys o 1 Ebrill 2014. Mae'r budd-daliadau o dan y cynllun clasurol yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, telir cyfandaliad sydd gyfwerth â thair blynedd o bensiwn pan fydd gweithiwr yn ymddeol. Ar gyfer y cynllun premiwm, mae buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun clasurol, nid oes cyfandaliad awtomatig. Mae clasurol a mwy yn ei hanfod yn gynllun hybrid gyda buddion yng nghyswllt gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel y cynllun Clasurol, a buddion am wasanaeth ar ôl Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel yn y cynllun Premiwm. Yn Nuvos mae aelod yn cronni pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy yn ystod ei gyfnod fel aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) bydd cyfrif pensiwn a enillwyd yr aelod yn cael ei gredydu gyda 2.3% o'i enillion pensiynadwy ym mlwyddyn honno'r cynllun ac mae'r pensiwn cronedig yn cael ei gynyddu yn unol â deddfwriaeth cynyddu Pensiynau. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis rhoi rhan o'u pensiwn heibio i gael cyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn cyfranddeiliaid. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 3% a 12.5% (gan ddibynnu ar oed yr aelod) i bensiwn cyfranddeiliaid a ddewisir gan y gweithiwr o banel o dri darparwr. Nid oes raid i'r gweithiwr gyfrannu ond os bydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn talu swm cyfatebol hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Bydd cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% ychwanegol o gyflog pensiynadwy i dalu costau yswiriant risg buddion a ddarperir yn ganolog (marw tra'n dal i weithio ac ymddeol oherwydd salwch).
Y pensiwn cronedig a nodir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn pan fydd yn cyrraedd oed pensiwn, neu'n syth pan fydd yn peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os ydyw eisoes wedi cyrraedd neu dros oed pensiwn. Oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau cynlluniau clasurol, premiwm a chlasurol a mwy, a 65 ar gyfer aelodau Nuvos.

Gellir cael manylion pellach am y trefniadau PCSPS ar y wefan http://www.civilservice.gov.uk/pensions

## Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo sy’n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol, wedi ei asesu gan actiwari. Y buddion y pennir eu gwerth yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol sydd i’w dalu o’r cynllun i ŵr neu wraig. CETV yw taliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddiannau pensiwn mewn cynllun pensiwn neu drefniant arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo’r buddiannau y maent wedi eu cronni yn eu cynllun blaenorol. Mae’r ffigurau pensiwn a nodir yn ymwneud â buddion y mae’r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i gyfanswm eu haelodaeth yn y cynllun pensiwn, nid yn unig eu gwasanaeth mewn swydd uwch y mae’r datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae’r ffigurau’n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae’r aelod wedi ei drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn a gronnwyd i’r aelod o ganlyniad iddynt brynu buddion pensiwn ychwanegol ar eu cost eu hunain. Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau’r Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fuddion o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes a allai fod yn daladwy pan gymerir buddion pensiwn.

## Gwir gynnydd yn y CETV

Mae hyn yn adlewyrchu’r cynnydd yn y CETV sy’n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw’n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn neu drefniant arall) ac mae’n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Iawndal am golli swydd

Yn 2012-13, lluniais achos busnes oedd yn pennu’r newidiadau oedd angen eu gwneud i strwythurau ar lefel uwch yn y sefydliad. O ganlyniad, newidiodd swyddogaeth ac aelodaeth y tîm rheoli uwch. Daeth y newidiadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2013 a chafwyd rhagor o newid yn rolau a chyfrifoldebau staff eraill ar ôl i’r Cyfarwyddwyr newydd ddechrau yn eu swyddi yn ystod 2013-14.

Yn sgil rhoi fy nghynigion ar waith, gwnaed y taliadau iawndal canlynol ar sail colli swydd yn 2013-14:

| **Band cost y pecyn ymadael** | **Nifer y diswyddiadau gorfodol** | **Nifer y Pecynnau Diswyddo Gwirfoddol y cytunwyd arnynt** | **Nifer y Pecynnau Ymadael Gwirfoddol y cytunwyd arnynt** | **Nifer y taliadau ex gratia y cytunwyd arnynt** | **Cyfanswm y pecynnau** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| **<10k** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **£10k-£25k** | 0 | 0 | 3 | 0 | 3 |
| **£25k-£50k** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm cost 2013-14 mewn £000oedd** | **0** | **0** | **£37k** | **0** | **£37k** |
| £25k-£50k | 0 | 1 | 2 | 1 | 3 |
| Cyfanswm cost 2012-13 mewn £000oedd | 0 | £26k | £86k | £27k | £139k |

Talwyd costau dileu swydd a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, sy'n gynllun statudol a luniwyd dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Cyfrifir y costau ymadael yn llawn yn y flwyddyn ymadael berthnasol. Lle y cytunais i becynnau ymadael yn gynnar, talais y costau o'm cyllid fy hun, nid o'r Cynllun. Nid oedd y tri aelod staff a dderbyniodd becynnau ymadael yn gynnar yn 2013-14 yn aelodau o'r staff uwch.

Dyma’r pecynnau ymadael yn gynnar y cytunwyd arnynt gyda staff uwch yn 2012-13:

- Ymadawodd Sarah Stone yn ôl telerau Diswyddo Gwirfoddol ar 31 Mawrth 2013. Cafodd daliad iawndal statudol o £26k dan amodau’r PCPCS a thaliad ex gratia ychwanegol o £27k.

- Ymadawodd Julia Lewis dan delerau Ymadael yn Wirfoddol ar 31 Mawrth 2013. Cafodd daliad iawndal statudol o £37k.

- Ymadawodd Alun Thomas dan delerau Ymadael yn Wirfoddol ar 31 Mawrth 2013. Cafodd daliad iawndal statudol o £49k.



**Sarah Rochira**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**
**30 Gorffennaf 2014**

# DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG CYFRIFYDDU

Fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, rwyf fi, fel y Swyddog Cyfrifyddu, wedi paratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn y ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi a Gweinidogion Cymru.

Paratowyd y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, y gwariant net, y sefyllfa ariannol, newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol imi gydymffurfio â gofynion *Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth* ac yn benodol:

- Glynu wrth y Cyfarwyddyd Cyfrifon, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- Nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol fel y nodir hwy yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau o bwys yn y cyfrifon, a
- Pharatoi'r cyfrifon ar sail busnes byw.

Fel y Comisiynydd, yr wyf, yn rhinwedd paragraff 11 atodlen 1 i Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, yn Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer fy swyddfa. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys y cyfrifoldeb dros briodoldeb a chysondeb y cyllid y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, a thros gadw cofnodion priodol, a diogelu asedau'r Comisiwn, yn cael eu nodi mewn memorandwm a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi.

# DATGANIAD LLYWODRAETHU

Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn yn nodi ar ba sail y sefydlwyd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru; y ffordd y caiff ei lywodraethu a'i reoli; a sut yr wyf yn atebol am yr hyn a wnaf.

## Rôl y Comisiynydd

Sefydlwyd swydd statudol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru fel Corfforaeth Undyn dan Adran 1 o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Dyma swyddogaethau'r swydd:

- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.
- Hyrwyddo darparu cyfleoedd ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru a chael gwared â gwahaniaethu yn eu herbyn.
- Annog arfer da wrth ymdrin â phobl hŷn yng Nghymru.
- Cadw golwg ar ddigonolrwydd ac effeithlonrwydd y ddeddf sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

Wrth gyflawni'r swyddogaethau hyn rwyf fi, fel Swyddog Cyfrifyddu, yn gyfrifol am sefydlu trefniadau priodol i reoli adnoddau, gan gynnwys trefniadau llywodraethu cadarn a chanfod a rheoli risgiau a chyfleoedd.

## Pwrpas y fframwaith llywodraethu

Mae'r fframwaith llywodraethu'n nodi'r ffordd y mae'r sefydliad yn cael ei lywodraethu a'i reoli. Mae'n cynnwys y systemau a'r prosesau sydd yn eu lle, y mae'r sefydliad yn cael ei gyfarwyddo a'i reoli drwyddynt. Mae hefyd yn cynnwys gwerthoedd a diwylliant y sefydliad.

Mae'r fframwaith llywodraethu yn golygu fy mod yn gallu monitro perfformiad y sefydliad yn erbyn y blaenoriaethau yn fy Fframwaith Gweithredu, yn benodol pwyso a mesur a yw'r perfformiad hwnnw wedi arwain at ganlyniadau gwell i bobl hyn yng Nghymru ac a yw'r canlyniadau hynny wedi'u cyflawni yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan arwyddocaol o'r fframwaith hwnnw ac fe'i lluniwyd i reoli risg ar lefel resymol yn hytrach nag i gael gwared â phob risg o fethu â chyflawni nodau ac amcanion; felly dim ond sicrwydd rhesymol, ac nid sicrwydd llwyr o effeithiolrwydd y gall ei gynnig.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a ddyfeisiwyd i wneud y canlynol:

- nodi a blaenoriaethu rheoli risgiau a chyfleoedd wrth geisio cyflawni fy nodau a'm hamcanion,

- pwyso a mesur pa mor debygol yw’r risgiau a’r cyfleoedd hynny o ddigwydd a’u heffaith pe baent yn digwydd, a hefyd
- eu rheoli’n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

## Fframwaith llywodraethu

Mae’r Comisiynydd yn Gorfforaeth Undyn; felly nid oes Bwrdd fel y byddai rhywun yn ei weld gyda chyrff cyhoeddus eraill. Fel Corfforaeth Undyn a Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb personol dros gyfarwyddo a rheoli’r sefydliad ond gallaf awdurdodi unrhyw aelod o’m staff i weithredu fy swyddogaethau.

Gall dirprwy a enwebwyd gyflawni swyddogaethau statudol y Comisiynydd os yw’r swydd yn wag, neu os na all y Comisiynydd weithredu ar unrhyw adeg am unrhyw reswm. Alison Phillips, y Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad, sy’n cyflawni’r rôl hon.

Roedd tair prif ffynhonnell sicrwydd yn fy fframwaith llywodraethu yn 2013-14, sef:

- Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.
- Darparwr Archwiliad Mewnol.
- Tîm rheoli strategol

Mae gennyf **Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg** i’m cefnogi fel Swyddog Cyfrifyddu wrth fonitro ac adolygu llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a systemau rheolaeth fewnol.

Oherwydd statws y Comisiynydd fel Corfforaeth Undyn, mae’r Pwyllgor o’r farn bod absenoldeb bwrdd gweithredol (y byddai’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg fel arfer wedi’i ddewis ohono) wedi creu ‘bwlch gwybodaeth’ i’r aelodau gan nad oes ganddynt gyfrifoldebau a goruchwyliaeth ehangach. Mae’r Pwyllgor wedi goresgyn y bwlch hwn yn rhannol oherwydd eu gwaith cynghori ychwanegol a hefyd drwy drafodaethau ychwanegol gyda mi a chyflwyniadau gan fy staff a minnau ar ben cyfarfodydd y Pwyllgor.

Yn ystod 2013-14 cynhaliais ddau ddiwrnod datblygu gyda’r Cyfarwyddwyr, y gwasanaeth archwilio mewnol ac aelodau’r Pwyllgor. Cafodd y diwrnodau eu defnyddio i wneud y canlynol:

- adolygu a thrafod blaenoriaethau busnes y flwyddyn;
- nodi a rheoli'r risgiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r blaenoriaethau hynny;
- ystyried effaith gronnol unrhyw rai o'r peryglon a'r cyfleoedd hynny a fyddai'n digwydd;
- adolygu fformat a chynnwys yr wybodaeth a ddarperir i'r Pwyllgor, yn benodol adroddiadau chwarterol mwy cryno ar gynnydd y rhaglen waith weithredol;
- cytuno ar broses ar gyfer asesu perfformiad y gwasanaethau archwilio mewnol ac allanol; a
- chytuno ar broses ar gyfer asesu effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ei hun.

Mae gan y Pwyllgor bedwar aelod annibynnol sydd â phrofiad sylweddol o sefydliadau cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru a'r DU. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod bob chwarter ac mae presenoldeb yn y cyfarfodydd wedi'i grynhoi isod:

| | Ebrill 2013 | Gorffennaf 2013 | Hydref 2013 | Ionawr 2014 |
|---|---|---|---|---|
| Gordon Lishman | ✓ | ✓ | ✓ | x |
| Ian Summers | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Ken Jones | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Eifion Pritchard | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Mutale Merril | Wedi'i phenodi o 1 Mehefin 2014 | | | |

Mae'r aelodau hyn yn gweithio gyda mi a'm rhagflaenydd ers 2009 ac ar 31 Mawrth 2014, daeth tymor dau yn eu swydd i ben. Mae arferion da yn gofyn imi adolygu'n rheolaidd a chylchdroi'r amrywiaeth, y sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad sydd gan aelodau'r Pwyllgor ar y cyd. Gan hynny, rwyf wedi ymestyn tymor Ken Jones yn ei swydd am ddwy flynedd ac wedi recriwtio Mutale Merril fel aelod newydd i'm Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg am dymor o bedair blynedd. Hoffwn ddiolch i Gordon Lishman am ei gyfraniad fel Cadeirydd ac rwyf wedi penodi Ian Summers yn Gadeirydd o 1 Ebrill 2014 ymlaen.

Mae'r Pwyllgor yn rhoi adroddiad blynyddol imi sy'n crynhoi gwaith y Pwyllgor. Yn ystod 2013-14, gofynnais i'm harchwilwyr mewnol adolygu cynnwys yr adroddiad hwn o'i gymharu ag adroddiadau cyrff cyhoeddus eraill. Yr argymhellion oedd y dylid sicrhau mwy o berchenogaeth ar yr adroddiad i aelodau'r Pwyllgor ac y dylai'r Pwyllgor wneud asesiad

blynyddol o berfformiad yr archwilwyr mewnol ac allanol. Derbyniwyd yr argymhellion hyn gan y Pwyllgor.

Rwyf hefyd wedi penderfynu cyhoeddi'r adroddiad hwn ar fy ngwefan yn ogystal â chyhoeddi cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor i roi mwy o dryloywder i'm trefniadau llywodraethu.

Mae'r Pwyllgor yn gweithredu o fewn ei gylch gorchwyl sy'n seiliedig ar ganllawiau ynglŷn â'r arferion gorau a gyhoeddir gan y Trysorlys. Mae'r Pwyllgor wedi adolygu ei weithrediadau ar gyfer 2013-14 ac wedi dod i'r casgliad ei fod yn gweithredu'n effeithiol, yn derbyn gwybodaeth ddigonol, ond wedi cytuno ar rai mân newidiadau gweinyddol.

O ganlyniad i'w waith yn 2013-14, mae'r Pwyllgor yn fodlon ar lefel gyffredinol yr archwilio mewnol ac allanol. O ran fy nhrefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol a'r prosesau ehangach ar gyfer llywodraethu corfforaethol, canfod risg a rheolaeth, mae'r Pwyllgor o'r farn, ar sail canfyddiadau'r archwilwyr a'i arsylwadau ei hun, y gall ddarparu sicrwydd da iawn imi fod y trefniadau sydd yn eu lle yn rhai priodol a'u bod wedi bod yn gweithredu'n effeithiol.

Dolen i'r wefan: **Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.**

Rwyf wedi penodi Deloitte i ddarparu **gwasanaethau archwilio mewnol**. Yn ystod 2013-14 cynhaliodd Deloitte adolygiadau ar lywodraethu, rheoli risg, systemau ariannol, rheoli perfformiad a chyfathrebu ac ymgysylltu; gan ddarparu lefelau llawn neu sylweddol o sicrwydd ym mhob maes. Bu i'r cwmni hefyd fynd ar drywydd y cynnydd a fu yng nghyswllt gweithredu argymhellion a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol ac nid oedd argymhellion a oedd heb eu rhoi ar waith.

Yn ystod 2013-14, bûm yn cydweithio â **Thîm Rheoli Strategol** (SMT) fel y nodwyd yn yr Adroddiad Taliadau. Roedd y tîm yn cyfarfod yn fisol ac yn fy helpu i gyflawni fy swyddogaethau mewn modd sy'n gyson â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU a'r Cod Llywodraethu Da ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus h.y. yn gyson â'r safonau uchel a ddisgwylir gan gorff sy'n cael ei gyllido'n gyhoeddus.

Rôl yr SMT fel grŵp yw rhoi cyngor i mi, arweinyddiaeth gorfforaethol i'r sefydliad yn ei gyfanrwydd, gwella gwaith cydweithredol a sicrhau ymagwedd holistig at reoli risg, monitro perfformiad a nodi camau adferol. Fel grŵp, nid corff gwneud penderfyniadau yw'r SMT; nid Bwrdd

mohono. Mater i minnau yn rhinwedd fy swydd fel Comisiynydd yw gwneud penderfyniadau, ond fe all penderfyniadau gael eu dirprwyo i Gyfarwyddwyr unigol fel y cytunwyd gennyf, ond fe fydd yr SMT yn cyfrannu at y canlynol:

- datblygu nodau strategol y Comisiynydd a'i chynllun busnes blynyddol;
- dyrannu ei hadnoddau ariannol, dynol ac eraill mewn ffordd effeithlon ac effeithiol er mwyn cyflawni'r nodau a'r amcanion hynny;
- asesu a rheoli risgiau a chyfleoedd; ac
- asesu perfformiad y sefydliad yn gyffredinol o'i gymharu â'r amcanion a nodir yn y Cynllun Gweithredol Blynyddol ac â chyflawni'r Cynllun Strategol.

Dolen gwefan: **Y Tîm Rheoli Strategol**

## Perfformiad y Comisiynydd

2013-14 oedd blwyddyn gyntaf fy Fframwaith Gweithredu. Prif amcanion y cynllun hwnnw yw:

1. Gwreiddio llesiant pobl hŷn wrth galon gwasanaethau cyhoeddus.
2. Gwella ansawdd iechyd a gofal cymdeithasol – a'u hargaeledd a mynediad atynt
3. Amddiffyn a gwella gwasanaethau, cyfleusterau a seilwaith cymunedol.
4. Sefyll cornel pobl hŷn sydd mewn perygl o gael eu niweidio a sicrhau eu bod yn cael eu diogelu a'u hamddiffyn.
5. Mynd i'r afael â rhagfarn, anghydraddoldeb a gwahaniaethu.

Hoffwn dynnu sylw at y cerrig milltir a ganlyn fel tystiolaeth o gynnydd tuag at fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a'r nodau hyn at y dyfodol:

- wedi dechrau fy adolygiad o ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn mewn cartrefi gofal preswyl yng Nghymru;
- wedi cyhoeddi gwaith dilynol pellach ar ofal gydag urddas a thriniaeth pobl hŷn mewn ysbytai yng Nghymru;
- wedi parhau i gadeirio a chynnal Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru;
- wedi rhedeg sesiynau 'hyfforddi'r hyfforddwyr' ynghylch Gwahaniaethau ar Sail Oed sydd wedi'u cynllunio i archwilio sut mae heneiddio yn effeithio ar fywydau pobl hŷn, eu teuluoedd a'u cymunedau yng Nghymru

- wedi comisiynu ymchwil a fu'n ystyried sut y gallai gwahanol ddulliau atgyfeirio ar draws gwasanaethau amddiffyn oedolion a'r gwasanaeth heddlu ddylanwadu ar gyfleoedd pobl hŷn yng Nghymru i sicrhau cyfiawnder;
- wedi cynnal seminar a fynychwyd gan arweinwyr allweddol o'r gwasanaeth cyfiawnder troseddol a'r gwasanaethau cymdeithasol ar draws Cymru i ddeall y rhwystrau sy'n atal pobl hŷn rhag ymgysylltu â'r broses gyfiawnder ac wedi cytuno ar gynllun gweithredu.
- wedi cyhoeddi adroddiad dan yr enw 'Pwysigrwydd ac Effaith Gwasanaethau Cymunedol yng Nghymru' a amlygodd yr effaith ar bobl hŷn os tynnir gwasanaethau cymunedol yn ôl.
- Cysylltwyd â'm Tîm Ymholiadau a Chymorth gan 795 o bobl hŷn, eu teuluoedd a gofalwyr ac mae'r Tîm wedi'u helpu drwy roi cymorth neu gyngor unigol; yn aml pan na allai neb arall helpu.

Adroddir ar y perfformiad yn erbyn yr amcanion yn fy Adroddiad ar Effaith a Chyrhaeddiad sy'n cael ei ystyried fel arfer gan Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad. Ceir crynodeb o'r perfformiad ariannol yn y cyfrifon blynyddol ar dudalen 13.

Dolen gwefan: **Cynlluniau Strategol**
Dolen gwefan: **Adroddiadau Blynyddol**

## Ymagwedd at risg

Rwyf wedi parhau i adolygu ac atgyfnerthu fy Fframwaith Risg yn ystod y flwyddyn, sydd â'r nod o gyflawni'r canlynol:

- Hyrwyddo diwylliant mwy arloesol, llai awyddus i osgoi risg lle yr anogir ac y rheolir cymryd risgiau wedi'u mesur a'u rheoli wrth chwilio am gyfleoedd fydd o fudd i'r Comisiynydd;

- Gwella perfformiad y sefydliad drwy lywio a chryfhau'r broses o wneud penderfyniadau a chynllunio;

- Darparu sail gadarn ar gyfer rheoli risg integredig a rheolaeth fewnol fel rhan o lywodraethu corfforaethol da; a

- Sicrhau amgylchedd diogel i staff weithio ynddo.

Mae gan holl staff y sefydliad beth cyfrifoldeb dros reoli risg a rheolaeth fewnol er mwyn cyflawni eu hamcanion unigol a fy nodau a'm hamcanion cyffredinol innau.

Mae ymagwedd gadarnhaol at reoli risg yn golygu y byddaf nid yn unig yn ystyried y risg o bethau'n mynd o chwith, ond effaith peidio â chymryd cyfleoedd neu beidio ag elwa ar gryfderau corfforaethol yn ogystal. Rwyf yn cydnabod bod y sefydliad yn wynebu risgiau rydym yn gwybod amdanynt a fyddai, pe byddent yn cael eu hanwybyddu, yn effeithio'n ddifrifol ar fy ngallu i fodloni f'amcanion strategol. Mae nifer o risgiau corfforaethol allweddol wedi'u trafod gyda'r Cyfarwyddwyr, yr archwilwyr mewnol a'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn:

- **Risg i Enw Da** – bydd rheoli'r risg hon yn pennu llwyddiant neu fethiant y Comisiynydd – yn bersonol i ddeiliad y swydd ac i frand y sefydliad. Methu â chyflawni fyddai'r brif elfen yn hyn o beth. Mae'r materion a nodwyd ynglŷn â'r risg hon yn cynnwys:
    - Disgwyliadau pobl eraill ynglŷn â chyflawni newid megis yr Adolygiad o Ansawdd Bywyd mewn Cartrefi Gofal, methu cyflawni'r Fframwaith Gweithredu.
    - Argraff pobl eraill bod y berthynas â Llywodraeth Cymru yn rhy agos a/neu yn rhy bell.
    - Gallai 'llwyddiant' wrth gynyddu ymwybyddiaeth o rôl a gwaith y Comisiynydd arwain at ddisgwyliadau afrealistig sy'n deillio o'r proffil uwch a fyddai'n arwain at ganlyniadau llai na'r gorau (o ran argraff).
    - Pe bai'r ailstrwythuro diweddar ymysg y staff yn methu dod yn sefydlog, pe na bai sgiliau a gwybodaeth ar gael i'r Comisiynydd a phe bai terfynau amser yn cael eu colli.
    - Mae angen rhoi prawf yn gyson ar gynlluniau Parhad Busnes.
- **Risg Wleidyddol** – gallai'r Comisiynydd ymbellhau oddi wrth Lywodraeth Cymru a'r rhanddeiliaid allweddol eraill a dechrau cael ei 'defnyddio' fel pêl-droed wleidyddol. Mae'r materion sy'n perthyn i'r risg hon yn cynnwys:
    - Gallai negeseuon y Comisiynydd fynd yn ddiflas – drwy geisio bodloni disgwyliadau pawb.

- Mae'r Comisiynydd yn gweithio mewn amgylchedd gwleidyddol sy'n newid yn gyflym ar y lefel ddatganoledig a'r lefel ganolog.

- **Risg Ariannol** – mae hyn bob amser yn debyg o fod yn risg ond yn fwy felly yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni.

Mae rheoli risgiau o'r fath yn ystyriaeth allweddol wrth gyflawni fy ngweithgareddau ac yn cynnwys yr elfennau allweddol a ganlyn:

- Polisi rheoli risg sydd ar waith ac sydd wedi cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn ystod 2013-14. Mae'r polisi hwn yn nodi ar gyfer yr holl staff sut y bydd y risgiau a'r cyfleoedd a wynebir gan y sefydliad yn cael eu canfod, eu gwerthuso, eu monitro a'u rheoli.

- Mae'r polisi rheoli risgiau yn galw am gynnal cofrestr risg, sydd wedi'i adolygu a'i ddiweddaru gennyf fi. Adolygwyd ac atgyfnerthwyd fformat adrodd y gofrestr risg yn ystod y flwyddyn.

- I fod yn effeithiol, rhaid i reoli risg fod wedi'i wreiddio yn y broses o reoli a chynllunio fy ngwaith o ddydd i ddydd. Mae pob risg a ganfyddir yn eiddo i aelod o'r tîm rheoli strategol.

- Dull gweithredu cadarn o ran llywodraethu a rheolaeth fewnol; gweithio gydag archwilio mewnol i adolygu a chryfhau trefniadau presennol.

- Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ystyried y broses o ganfod a rheoli risgiau. Mae'n cael ac yn ystyried holl adroddiadau ac argymhellion yr archwilwyr allanol a mewnol gan gynnwys adolygiad blynyddol yr archwilwyr mewnol o'r trefniadau rheoli risg.

- Polisïau a gweithdrefnau ariannol, sy'n nodi cyfrifoldebau dros faterion ariannol gan gynnwys caffael, systemau ar gyfer rheolaeth ariannol ar wariant yn ogystal ag adrodd yn rheolaidd ar wir wariant yn erbyn cyllidebau.

- Rwyf fi a fy staff yn llofnodi ac yn ymrwymo i God Ymddygiad bob blwyddyn sy'n cynnwys saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus ac rwyf wedi ymgorffori'r egwyddorion hyn yn y ffordd rwyf yn cyflawni fy ngwaith.

Os digwydd i fy staff i neu bobl eraill fynegi pryderon ynghylch y sefydliad na ellir eu datrys yn rhwydd, rwyf wedi sefydlu trefniadau llywodraethu priodol i ymdrin â hyn sy’n cynnwys Polisi Cwynion a Pholisi Codi Pryderon. Mae’r dogfennau hyn wedi’u cyhoeddi ar fy ngwefan. Yn ystod 2013-14, derbyniais un gŵyn dan y Polisi Cwynion a gafodd ei chadarnhau’n rhannol gan fod oedi annerbyniol wedi bod wrth ymateb i ymholiad (2012-13: 2 gŵyn).

Yn ystod 2013-14, daeth 4 cais am wybodaeth dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 i law (2013/14: 8 cais) ac 1 cais dan Ddeddf Diogelu Data 1998 (2012/13: 1 cais).

Rhoddwyd trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch yr wybodaeth yr wyf yn ei chadw. Mae hyn yn cynnwys data personol a gedwir sy’n ymwneud ag ymholiadau a wnaed ar ran pobl hŷn unigol yng Nghymru, a’r dystiolaeth a gasglwyd gennyf wrth gyflawni fy swyddogaethau. Cafwyd un achos o dorri diogelwch data yn 2013-14 y rhoddwyd gwybod amdano i’r Comisiynydd Gwybodaeth. Cafodd argymhelliad i atgyfnerthu rheolaethau dros gyfeiriadau e-bost awtomatig ei wneud a’i roi ar waith ac aeth yr holl staff i sesiwn hyfforddi a gafodd ei redeg gan staff o Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth.

Cafodd fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg adroddiad am yr holl wybodaeth hon.

Yr wyf wedi mabwysiadu’r egwyddor y bydd y sefydliad yn trin y Gymraeg a’r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru. Mae gennyf Gynllun Iaith Gymraeg sy’n cael ei adolygu’n flynyddol gan Gomisiynydd y Gymraeg. Yr wyf yn cynhyrchu adroddiad blynyddol sydd ar fy ngwefan.

Dolen gwefan: **Y Cynllun Iaith Gymraeg**

Yn ystod 2013/14 manteisiais ar y cyfle i adnewyddu fy Nghynllun Cydraddoldeb cychwynnol. Mae’r Cynllun diwygiedig hwn a’m hadroddiad blynyddol diweddaraf ar gydraddoldeb ar gael ar fy ngwefan. Rwyf hefyd wedi cynhyrchu nifer o daflenni gwybodaeth sy’n darparu gwybodaeth i eraill ynglŷn â nodweddion gwarchodedig a’r goblygiadau ar gyfer pobl hŷn. Fy mwriad yw y bydd cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru yn defnyddio’r taflenni ffeithiau i lywio’u hasesiadau eu hunain o’r effaith bosibl ar bobl hŷn wrth ddarparu eu gwasanaethau

Dolen gwefan: **Y Cynllun Cydraddoldeb**

## Y Cynllun Cydraddoldeb

### Adolygiad o effeithiolrwydd

Yn rhinwedd fy swydd fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn adolygu effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, a chaiff hwn ei lywio gan waith yr archwiliad mewnol, y tîm rheoli strategol, a sylwadau a wnaed gan archwilwyr allanol (Swyddfa Archwilio Cymru) fel y'u cynhwysir yn y llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

Cynghorir fi hefyd ar oblygiadau canlyniadau f'adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Yn ystod y flwyddyn gwnaed cynnydd o ran cryfhau'r systemau rheoli mewnol, symudwyd ymlaen a gweithredwyd ar argymhellion a wnaed gan archwilwyr mewnol. Mae cynlluniau yn eu lle hefyd i roi sylw i argymhellion newydd a sicrhau gwelliant parhaus yn y systemau.

Mae barn yr archwilwyr mewnol yn nodi, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014, fod gennyf system rheolaeth fewnol gadarn yn y bôn, a ddylai roi sicrwydd sylweddol o ran cyflawni f'amcanion.

Rwyf wedi ystyried y dystiolaeth sydd wedi'i rhoi yn y datganiad llywodraethu hwn. Casgliad f'adolygiad yw bod y gweithdrefnau a'r strwythurau rheolaeth fewnol a llywodraethau cyffredinol wedi bod yn briodol o ran cefnogi fy swyddogaethau a f'amcanion a'u bod wedi gweithio'n effeithiol drwy 2013-14.

Mae'r fframwaith llywodraethu uchod wedi bod yn ei le am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014 a hyd at ddyddiad llofnodi'r cyfrifon hyn, ac fe'i paratowyd yn unol â chanllawiau'r Trysorlys.

### Rhagolwg

Mae'r broses o adolygu a rheoli risg yn un barhaus ac mae'r cwestiynau y mae angen i minnau a'r Cyfarwyddwyr weithio drwyddyn nhw o hyd yn cynnwys:

- Ydyn ni'n gwybod ble mae'r pwyntiau pwysau ac a ydyn ni wedi alinio'n hadnoddau?
- Ydyn ni'n gallu blaenoriaethu'n effeithiol gyda'r adnoddau sydd ar gael a bodloni disgwyliadau pobl eraill?

- Sut mae cydbwyso cymorth i unigolion â manteision ehangach?

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a minnau wedi cytuno ar raglen o waith archwilio mewnol a fydd yn rhoi sicrwydd imi o ran effeithiolrwydd y rheolaethau sydd ar waith.

Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn gweithredu proses i ystyried perfformiad fy archwilwyr mewnol ac allanol.

Byddaf finnau'n parhau i gyflawni yn erbyn y blaenoriaethau yn fy Fframwaith Gweithredu.

**Sarah Rochira**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**
**30 Gorffennaf 2014**

# DATGANIAD GWARIANT NET CYNHWYSFAWR

**Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014**

| | Nodyn | **2013/14**<br>**£ 000** | **2012/13**<br>**£ 000** |
|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | |
| Costau staff | 2 | 1,178 | 1,382 |
| Dibrisiant / Amorteiddiad | 3 | 5 | 140 |
| Gwariant arall | 3 | 583 | 525 |
| | | 1,766 | 2,047 |
| **Incwm** | | | |
| Derbyniadau yswiriant | | - | 83 |
| **Cyfanswm y Gwariant Net Cynhwysfawr** | | 1,766 | 1,964 |

Nid oes unrhyw enillion na cholledion cydnabyddedig ar gyfer 2012-13 na 2013-14.

* Ym mis Ebrill 2012, digwyddodd cryn ddifrod i ran o'r adeiladau swyddfa sydd ar brydles gan y Comisiynydd. Roedd hyn oherwydd bod dŵr wedi gollwng mewn rhan arall o'r bloc swyddfeydd a rennir. Roedd y gwaith atgyweirio'n destun hawliad yswiriant. £83k yw cyfanswm y costau adnewyddu a ad-dalwyd gan y cwmni yswiriant; mae £75k o hwn yn gysylltiedig â gwariant cyfalaf ac mae £8k yn wariant refeniw.

# DATGANIAD SEFYLLFA ARIANNOL

## Fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2014

| | Nodyn | £ 000 | 31 Mawrth 2014 £ 000 | £ 000 | 31 Mawrth 2013 £ 000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol:** | | | | | |
| Gwelliannau prydles | **4** | 3 | | 0 | |
| Offer swyddfa / TGCh | **4** | 7 | | 7 | |
| Asedau anniriaethol | **5** | 8 | | 6 | |
| **Cyfanswm yr asedau anghyfredol** | | | 18 | | 13 |
| **Asedau Cyfredol:** | | | | | |
| Symiau masnach derbyniadwy | **7** | 32 | | 39 | |
| Arian a chyfwerth ag arian | **8** | 430 | | 546 | |
| **Cyfanswm yr asedau cyfredol** | | | 462 | | 585 |
| **Cyfanswm yr asedau** | | | 480 | | 598 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol:** | | | | | |
| Symiau masnach taladwy | **9** | 60 | | 77 | |
| Rhwymedigaethau eraill | **9** | 77 | | 146 | |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | | | 137 | | 223 |
| **Asedau anghyfredol a/llai yr asedau/rhwymedigaethau cyfredol net** | | | 343 | | 375 |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | | | |
| Darpariaethau | **10** | 60 | | 60 | |
| Credydwr gohiriedig | **11** | 4 | | - | |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol** | | | 64 | | 60 |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | | **279** | | **315** |
| **Ecwiti trethdalwyr** | | | | | |
| Arian wrth gefn cyffredinol | | | 279 | | 315 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 47 i 60 yn rhan o'r cyfrifon hyn

| | | |
|---|---|---|
| | **279** | **315** |

**Sarah Rochira**
**Comisiynydd a Swyddog Cyfrifyddu**

**30 Gorffennaf 2014**

# DATGANIAD LLIF ARIAN

## Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014

| | Nodyn | 1 Ebrill 2013 - 1 Mawrth 2014<br>£ 000 | 1 Ebrill 2012 - 31 Mawrth 2013<br>£ 000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwariant net ar ôl llog a derbyniadau yswiriant | | (1,766) | (1,964) |
| Addasiadau ar gyfer eitemau anariannol | **3** | 5 | 140 |
| (Cynnydd)/Gostyngiad – symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | **7** | 7 | - |
| Cynnydd/(gostyngiad) – symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | **9** | (86) | 153 |
| Colled ar Waredu Offer | **3** | - | 16 |
| Darpariaethau | **10** | - | - |
| Cynnydd o ran credydwr gohiriedig | **11** | 4 | - |
| **All-lif arian o weithgareddau gweithredu** | | **(1,836)** | **(1,655)** |
| | | | |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | **4** | (5) | (76) |
| Prynu asedau anniriaethol | **5** | (5) | (8) |
| Elw o werthu eiddo, peiriannau a chyfarpar | | | - |
| **All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(10)** | **(84)** |
| | | | |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Cyllid gan Lywodraeth Cymru | | 1,730 | 1,732 |
| **Cyllid net** | | **1,730** | **1,732** |
| | | | |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net – symiau cyfwerth ag arian am y cyfnod** | | **(116)** | **(7)** |
| **Arian a symiau cyfwerth ag arian ar ddechrau'r cyfnod** | **8** | **546** | **553** |
| **Arian a symiau cyfwerth ag arian ar derfyn y cyfnod** | **8** | **430** | **546** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 47 i 60 yn rhan o'r cyfrifon hyn

# DATGANIAD NEWID YN ECWITI TRETHDALWYR

## Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014

| | Cronfa Wrth gefn Gyffredinol | |
|---|---|---|
| | **1 Ebrill 2013-31 Mawrth 2014** | **1 Ebrill 2012-31 Mawrth 2013** |
| | **£ 000** | **£ 000** |
| **Balans ar 1 Ebrill** | **315** | **547** |
| Gwariant net | (1,766) | (1,964) |
| **Cyfanswm incwm a chostau cydnabyddedig** | **(1,451)** | **(1,417)** |
| Cyllid gan Lywodraeth Cymru | 1,730 | 1,732 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **279** | **315** |

# NODIADAU I'R CYFRIFON

1. Datganiad polisïau cyfrifo

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth 2013-14 (FReM). Mae'r polisïau cyfrifo a gynhwysir yn FReM yn defnyddio Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

Lle y mae FReM yn caniatáu dewis o ran polisi cyfrifo, dewiswyd y polisi cyfrifo a farnwyd yn fwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru i ddibenion rhoi darlun cywir a theg. Nodir isod y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan y Comisiynydd. Defnyddiwyd hwy'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

1.1 Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn dan y confensiwn cost hanesyddol wedi'i addasu i ystyried ailbrisio asedau anghyfredol..

1.2 Asedau anghyfredol

Cynhwysir asedau anghyfredol ar eu cost, oherwydd, ym marn y Comisiynydd, byddai unrhyw addasiad yn codi o ailbrisio yn amherthnasol. Mae pob ased anghyfredol yn eiddo i'r Comisiynydd.

1.3 Asedau Anghyfredol Diriaethol

Isafswm lefel cyfalafu ased anghyfredol diriaethol yw £1,000 gan gynnwys TAW anadenilladwy. Delir teitl pob eiddo gan y Comisiynydd. Mae'r holl eiddo a ddefnyddir gan y Comisiynydd ar brydles. Nid yw asedau anghyfredol diriaethol eraill wedi'u hailbrisio oherwydd, ym marn y Comisiynydd, ni fyddai'r symiau dan sylw'n berthnasol..

1.4 Asedau Anghyfredol Anniriaethol

Caiff trwyddedau meddalwedd a meddalwedd technoleg gwybodaeth eu cyfalafu fel asedau anghyfredol anniriaethol a'u hamorteiddio ar sail llinell syth dros gyfnod disgwyliedig eu hoes ddefnyddiol (4 blynedd fel arfer).

1.5 Dibrisiant / Amorteiddiad

Darperir Dibrisiant/Amorteiddiad ar gyfradd a gyfrifwyd i ddileu'r asedau anghyfredol diriaethol drwy randaliadau cyfartal dros eu hoes ddefnyddiol yn ôl amcangyfrif..

Maes cyfnodau oes asedau fel arfer fel a ganlyn::

| | |
|---|---|
| Gwelliannau prydles | Tymor y brydles neu hyd at y cymal torri hyd uchafswm o 5 mlynedd |
| Offer swyddfa | 5 mlynedd |
| Offer TGCh | 4 blynedd |

1.6 Incwm, cyllid a gwariant

Prif ffynhonnell gyllid y Comisiynydd yw Llywodraeth Cymru ar ffurf grant blynyddol.

Ym mis Ebrill 2012, cafwyd cryn ddifrod i swyddfa'r Comisiynydd ac roedd y gwaith atgyweirio yn destun hawliad yswiriant. Ad-dalwyd y costau adnewyddu gan y cwmni yswiriant ac mae'r rhain wedi'u dangos fel incwm.

Dangosir arian a ddaeth i law o gostau secondiad i'r tu allan fel costau cysylltiedig â staff.

Mae gwariant yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Mae swyddfa'r Comisiynydd ar waith yng Nghymru ac yn delio â materion sy'n effeithio ar bobl hŷn yng Nghymru. Dim ond un segment gweithredol sydd gan y Comisiynydd fel y gwelir yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr a'r nodiadau cysylltiedig.

Nid yw'r Comisiynydd wedi'i gofrestru ar gyfer TAW. Adroddir ar yr holl wariant gyda TAW wedi'i chynnwys lle bo hynny'n berthnasol, gan fod TAW yn anadenilladwy.

1.7 Cyfnewid Arian Tramor

Caiff trafodion mewn arian tramor eu trosi i arian sterling ar y gyfradd gyfnewid sy'n gyfredol ar ddyddiad y trafodion unigol. Caiff imprestau arian tramor eu trosi i arian sterling ar y gyfradd gyfnewid sy'n gyfredol adeg cyllido..

1.8 Pensiynau
Mae'r Comisiynydd a staff a gyflogir yn uniongyrchol yn gymwys i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae'n gynllun buddion diffiniedig nas cyllidir ar gyfer sawl cyflogwr. Cofnodir cyfraniadau i'r cynllun ar y cyfrif gwariant net pan fyddant i'w talu yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-dal Sifil (www.civilservice.gov.uk/ pensions).

1.9 Tâl Prydlesau Gweithredol
Mae rhenti sy'n daladwy dan brydlesau gweithredol yn cael eu cynnwys yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr yn y cyfnod perthnasol.

1.10 Darpariaethau
Mae'r Comisiynydd yn darparu ar gyfer ymrwymiadau cyfreithiol neu gontractiol o amseriad neu swm ansicr ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol, ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r ymrwymiad.

1.11 Arian a chyfwerth ag arian
Tynnodd y Comisiynydd arian yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn, sy'n cael ei adneuo yng nghyfrif Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth ar ôl iddo ddod i law. Caiff arian ei dynnu i lawr i gyfrif banc masnachol er mwyn talu rhwymedigaethau fel y maent yn dod yn ddyledus. Mae arian mân hefyd yn cael ei gadw yn swyddfa'r Comisiynydd.

## 2. Nifer y staff a'r costau cysylltiedig

Mae costau staff yn cynnwys:

| | 2013/14 £ 000 | 2012/13 £000 |
|---|---|---|
| **Staff a Gyflogir yn Barhaol** | | |
| Cyflogau | 922 | 1,098 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 62 | 68 |
| Costau Pensiwn Eraill | 145 | 161 |
| **Is-gyfanswm** | **1,129** | **1,327** |
| Costau secondiadau i mewn a chostau asiantaeth | 63 | 59 |
| Llai arian a gafwyd yn sgil secondiad allan | (14) | (4) |
| **Cyfanswm y costau net** | **1,178** | **1,382** |

Mae £14,603 (2012/13: £16,158) wedi'i gynnwys yn y Cyflogau sy'n ymwneud â thaliadau i bedwar aelod y Pwyllgor Archwilio. Yn 2013/14 rhoddwyd taliadau ychwanegol i Ken Jones am waith pellach yng nghyswllt agweddau ar Raglen Waith 2013-14. Mae'r gwariant hwn wedi'i gynnwys yn Nodyn 3 Rhaglenni Penodol.

Mae Cyflogau yn cynnwys taliadau a wnaed i 3 aelod o staff (2012/13: 3 aelod o'r staff uwch) fel rhan o waith ailstrwythuro'r Comisiynydd; gan gynnwys iawndal am golli swydd. Dangosir yr iawndal am golli swydd yn llawn yn yr Adroddiad Taliadau.

Roedd cyfartaledd nifer yr unigolion cyfwerth â llawn-amser a gyflogwyd gan y Comisiynydd yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys uwch reolwyr) fel a ganlyn:

| | 2013/14 | 2012/13 |
|---|---|---|
| Staff Parhaol | 21.20 | 21.39 |
| Staff ar Secondiad | 0.60 | 0.66 |
| Staff Dros Dro/Achlysurol | 0.38 | 0.49 |
| Penodiadau Cyfnod Penodol | 4.23 | 4.57 |
| **Cyfanswm** | **26.41** | **27.11** |

**Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil**
Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yn gynllun buddion diffiniedig sawl-cyflogwr nas cyllidir ond ni all y Comisiynydd nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sy'n sail iddo. Prisiwyd y cynllun gan actiwari'r cynllun ar 31 Mawrth 2007. Gellir canfod y manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-dal Sifil (www.civilservice.gov.uk/ pensions).

Ar gyfer 2013/14, roedd cyfraniadau cyflogwr gwerth £146k (2012-13: £160) yn daladwy i'r PCSPS ar un o bedair cyfradd yn yr amrediad 16.7% i 24.3% o gyflog pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Bydd Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr, fel arfer bob pedair blynedd yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Pennir cyfraddau'r cyfraniadau i gwrdd â chost buddiannau sy'n cronni yn ystod 2013-14 i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol ac nid y buddion a delir yn ystod y cyfnod hwn i rai sydd eisoes yn bensiynwyr.

Gall gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, pensiwn rhanddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Cafodd cyfraniadau cyflogwr o £2k eu talu i un o'r panel o dri darparwr pensiynau rhanddeiliaid sydd wedi'u penodi.

Mae Cyfraniadau'r Cyflogwr yn gysylltiedig ag oedran, ac maent yn amrywio o 3% i 12.5% o gyflog pensiynadwy. Mae cyflogwyr hefyd yn rhoi cyfraniad sy'n cyfateb i gyfraniadau'r gweithwyr hyd at 3% o gyflog pensiynadwy. Yn ychwanegol, roedd cyfraniadau gan y cyflogwr o £1k, 0.8% o gyflog pensiynadwy yn daladwy i'r PCSPS ar gyfer talu cost buddion cyfandaliad yn y dyfodol yn sgil marwolaeth mewn gwaith neu ymddeoliad oherwydd iechyd gwael yng nghyswllt y gweithwyr hyn.

Nid oedd unrhyw gyfraniadau'n daladwy nac wedi'u talu ymlaen llaw i ddarparwyr y pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y fantolen.

Ni fu i neb ymddeol yn gynnar oherwydd salwch yn ystod y flwyddyn, ac nid oedd rhwymedigaethau pensiwn cronedig ychwanegol yn ystod y flwyddyn. Mae'r Comisiynydd wedi gwneud taliadau diswyddo yn ystod y flwyddyn fel y datgelwyd yn yr Adroddiad Taliadau.

## 3. Gwariant Arall

Mae gwariant arall yn cynnwys:

| | 2013/14 £000 | 2012/13 £000 |
|---|---|---|
| Rhenti dan brydlesau gweithredol | 58 | 59 |
| Costau llety eraill | 65 | 68 |
| Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu | 5 | 9 |
| Ffioedd proffesiynol | 48 | 55 |
| Hyfforddi a datblygu | 11 | 35 |
| Teithio a chynhaliaeth | 27 | 21 |
| Ffioedd archwilio – Archwilio Mewnol | 9 | 11 |
| Ffioedd archwilio – Archwilio Allanol | 15 | 14 |
| Darpariaeth ar gyfer ailaddurno eiddo | - | - |
| Rhaglenni Penodol | 180 | 114 |
| Costau gweinyddol eraill | 165 | 123 |
| | **583** | **509** |
| Eitemau anariannol: | | |
| Colled wrth waredu | - | 16 |
| Dibrisiant | 2 | 127 |
| Amorteiddiad | 3 | 13 |
| **Cyfanswm** | **588** | **665** |

**Rhaglenni Penodol**

Yn ystod 2013/14 ysgwyddodd y Comisiynydd y costau uniongyrchol ychwanegol a ganlyn yn erbyn y blaenoriaethau a nodwyd yn Fframwaith Gweithredu 2013-2017. Nid yw'r gwariant a ddatgelir yn cynnwys unrhyw ddosrannu ar gostau cyflogau staff y Comisiynydd, gan gynnwys staff ar secondiad, ac mae'n adlewyrchu costau ychwanegol uniongyrchol yn unig.

Nid oes ffigurau cymaradwy gan fod gwariant y blynyddoedd blaenorol wedi ei ddosbarthu yn erbyn amcanion y Comisiynydd fel y'u nodwyd yng Nghynllun Strategol 2010-13, ond mae hyn wedi'i nodi isod er mwyn bod yn gyflawn.

| **Rhaglenni – Fframwaith Gweithredu 2013-2016** | **2013/14**<br>**£000** |
|---|---|
| Gwreiddio llesiant pobl hŷn wrth galon gwasanaethau cyhoeddus. | 28 |
| Gwella ansawdd iechyd a gofal cymdeithasol – a'u hargaeledd a mynediad atynt. | 75 |
| Amddiffyn a gwella gwasanaethau, cyfleusterau a seilwaith cymunedol. | 9 |
| Sefyll cornel pobl hŷn sydd mewn perygl o gael eu niweidio a sicrhau eu bod yn cael eu diogelu a'u hamddiffyn. | 30 |
| Mynd i'r afael â rhagfarn, anghydraddoldeb a gwahaniaethu. | 38 |
| **Cyfanswm** | **180** |

| **Rhaglenni – Cynllun 2010-13** | **2012/13**<br>**£000** |
|---|---|
| Hyrwyddo ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru. | 53 |
| Hyrwyddo darparu cyfleoedd i bobl hŷn yng Nghymru, a chael gwared â gwahaniaethu yn eu herbyn. | 5 |
| Annog ymarfer gorau wrth ymdrin â phobl hŷn yng Nghymru. | 29 |
| Cadw golwg ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y ddeddf sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru. | 9 |
| Galluogi gweithredu swyddogaethau mewn ffyrdd sy'n briodol a rheolaidd, gwneud defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau a chanfod a rheoli risgiau. | 18 |
| **Cyfanswm** | **114** |

## 4. Asedau Anghyfredol Diriaethol

| | Technoleg Gwybodaeth £000 | Gwelliannau Prydles £000 | Offer Swyddfa £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2013 | 38 | 269 | 41 | 348 |
| Ychwanegiadau | 2 | 3 | - | 5 |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2014 | 40 | 272 | 41 | 353 |
| | | | | |
| **Dibrisiant** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2013 | 37 | 269 | 35 | 341 |
| Tâl a godwyd yn y flwyddyn | 0 | 0 | 2 | 2 |
| Gwarediadau | - | - | | |
| Ar 31 Mawrth 2014 | 37 | 269 | 37 | 343 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2014** | **3** | **3** | **4** | **10** |
| Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2013 | 1 | 0 | 6 | 7 |

Nid amharwyd ar unrhyw asedau ac fe'u dangosir ar gost a ystyrir yn 'werth teg'.

## 5. Asedau anghyfredol anniriaethol

| | **Trwyddedau Meddalwedd** | **Technoleg Gwybodaeth** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Cost neu brisiad** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2013 | 46 | 53 | 99 |
| Ychwanegiadau | - | 5 | 5 |
| Gwarediadau | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2014 | 46 | 58 | 104 |
| **Amorteiddiad** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2013 | 46 | 47 | 93 |
| Tâl a godwyd yn y flwyddyn | - | 3 | 3 |
| Gwarediadau | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2014 | 46 | 50 | 96 |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2014** | **0** | **8** | **8** |
| Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2013 | **0** | **6** | **6** |

## 6. Offerynnau ariannol

Gan y cwrddir â gofynion arian y Comisiynydd drwy gyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, mae offerynnau ariannol (buddsoddiadau, deilliannau ac offerynnau ariannol eraill) yn chwarae rôl fwy cyfyngedig o ran creu risg nag a fyddai’n berthnasol i gorff heb fod yn y sector cyhoeddus.

Mae’r rhan fwyaf o offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau i brynu eitemau anariannol yn unol â gofynion disgwyliedig y Comisiynydd o ran prynu a defnyddio, ac felly nid yw’r Comisiynydd yn agored i fawr ddim risg o ran credyd, hylifedd na’r farchnad.

## 7. Symiau masnach derbyniadwy

| | 2013/14 | 2012/13 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Symiau masnach derbyniadwy | 0 | 7 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 32 | 32 |
| | 32 | 39 |

Nid oedd unrhyw symiau masnach derbyniadwy yn ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn.

## 8. Arian a chyfwerth ag arian

| | 2013/14 | 2012/13 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill | 546 | 553 |
| Newid net mewn balansau arian a chyfwerth ag arian | (116) | (7) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **430** | **546** |
| Roedd y balansau canlynol ar 31 Mawrth yn cael eu dal mewn: | | |
| Gwasanaeth Bancio | 345 | 493 |
| Banciau masnachol ac arian mewn llaw | 85 | 53 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **430** | **546** |

## 9. Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 2013/14 £000 | 2012/13 £000 |
|---|---|---|
| **Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Treth a nawdd cymdeithasol arall | 40 | 59 |
| Symiau masnach taladwy | 20 | 18 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 77 | 146 |
| | **137** | **223** |

## 10. Darpariaeth ar gyfer Rhwymedigaethau a Thaliadau

| | 2013/14 £000 | 2012/13 £000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 60 | 60 |
| Darparwyd yn y flwyddyn | - | - |
| Darpariaeth a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | - | - |
| Balans ar 31 Mawrth | **60** | **60** |

Gwneir darpariaeth ar gyfer ailaddurno/dadfeiliadau yn ein swyddfeydd yn ystod tymor y brydles ac ar derfyn y brydles. Adolygwyd y ddarpariaeth hon yn ystod 2013-14 fel sy'n ofynnol dan IAS 37 ac nid ystyrir bod angen gwneud unrhyw newid.

## 11. Credydwr gohiriedig

| | 2013/14<br>£000 | 2012/13<br>£000 |
|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill | - | - |
| Gwariant cronedig yn ystod y flwyddyn | 4 | - |
| Wedi'i ryddhau i Gyfrif y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn | - | - |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **4** | **-** |

Mae gan y Comisiynydd brydles weithredu am bum mlynedd o ran llety swyddfa, sy'n cynnwys rhent amrywiol dros fywyd y brydles, a chyfle i dorri'r brydles heb ragfarn ym mlwyddyn 3. Codir costau gweithredu ar sail llinell syth dros dymor y brydles yn unol ag IAS 17. Bydd y credydwr gohiriedig yn rhyddhau yn llawn ym Mlwyddyn 3 o'r brydles.

## 12. Ymrwymiadau cyfalaf

| | 2013/14<br>£000 | 2012/13<br>£000 |
|---|---|---|
| Ymrwymiadau cyfalaf ar gontract ar 31 Mawrth 2014 na wnaed darpariaeth ar eu cyfer | 12 | - |

Mae gan y Comisiynydd Ymrwymiad Cyfalaf ar ddiwedd y flwyddyn mewn perthynas â gosod gwasanaethau rhwydwaith band eang yn y swyddfa.

## 13. Ymrwymiadau dan brydlesi

(a) Prydlesi gweithredol

Nodir cyfanswm taliadau prydles sylfaenol i'r dyfodol yn y tabl isod wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod pryd y daw'r brydles i ben.

| | 2013/14<br>£000 | 2012/13<br>£000 |
|---|---|---|
| **Mae'r rhwymedigaethau dan brydlesi gweithredol yn cynnwys:** | | |
| Tir ac adeiladau: | | |
| Yn dod i ben o fewn blwyddyn | 50 | 21 |
| Yn dod i ben ar ôl blwyddyn ond ddim mwy na 5 mlynedd* | 75 | 125 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | - | - |
| | **125** | **146** |

*Mae'r Comisiynydd wedi cytuno ar gytundeb prydles newydd am gyfnod o 5 mlynedd o 5 Awst 2013 ymlaen.

| | 2013/14<br>£000 | 2012/13<br>£000 |
|---|---|---|
| **Mae'r rhwymedigaethau dan brydlesi gweithredol yn cynnwys:** | | |
| Arall: Offer Swyddfa | | |
| Yn dod i ben o fewn blwyddyn | 1 | - |
| Yn dod i ben ar ôl blwyddyn ond ddim mwy na 5 mlynedd* | - | 1 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | - | - |
| | **1** | **1** |

(b) Prydlesi cyllid a chontractau PFI

Nid oes unrhyw rwymedigaethau dan brydlesi cyllid na chontractau PFI (2012/13; dim).

Nid yw'r Comisiynydd wedi ymrwymo i gontractau na ellir eu canslo nad ydynt yn brydlesi neu'n gontractau PFI (2012/13; dim).

## 14. Rhwymedigaethau amodol a ddatgelir dan IAS 37

Nid oes gan y Comisiynydd unrhyw rwymedigaethau amodol nad ydynt yn cael eu datgelu mewn mannau eraill yn y cyfrifon hyn (2012/13: dim).

## 15. Trafodion partïon cysylltiedig

Yn 2013/14 derbyniodd y Comisiynydd gyllid o £1.730M gan Lywodraeth Cymru (2012/13: £1.732M). Ystyrir Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig.

Yn ystod 2013/14 ni fu'r Comisiynydd, nac unrhyw aelod arall o'r Tîm Rheoli Strategol, nac unrhyw aelod o'u teulu'n ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ag unrhyw drafodion gyda'r Comisiynydd yn ystod y flwyddyn, ac eithrio'r hawliadau treuliau a'r taliadau cyflog arferol..

## 16. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol rhwng diwedd y flwyddyn a chymeradwyo'r cyfrifon hyn.

## TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD YR ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad ar y Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llif Arian Parod a'r Datganiad o Newidiadau o ran Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth y nodir ei bod wedi'i harchwilio yn yr adroddiad hwnnw.

### Priod gyfrifoldebau'r Comisiynydd a'r archwilydd

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am baratoi'r Cyfrifon Blynyddol, sy'n cynnwys Sylwadaeth y Rheolwyr, yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2006 a chyfarwyddiadau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf honno, ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol.
Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth i'w harchwilio yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

### Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Cynhelir archwiliad er mwyn cael tystiolaeth o'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a pha un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb unrhyw amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan y Comisiynydd Pobl Hŷn; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Mae hefyd yn ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn Sylwadaeth y Rheolwyr er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

### Barn ar y Datganiadau Ariannol

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar 31 Mawrth 2014 a'i wariant net cynhwysfawr, enillion a cholledion cydnabyddedig a llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

### Barn ar Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ymhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a Gweinidogion Cymru a wnaed o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006; ac
- mae'r wybodaeth sy'n cynnwys gwybodaeth ariannol, sydd wedi'i chynnwys yn Sylwadaeth y Rheolwyr a'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth nas archwiliwyd, yn gyson â'r datganiadau ariannol.

### Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;

- ni ddatgelwyd gwybodaeth a ddynodwyd gan Drysorlys EM o ran cydnabyddiaeth a thrafodion eraill; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

**31 Gorffennaf 2014**

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 4

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

# Datganiadau Ariannol

## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben

## 31 Mawrth 2014

# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Adroddiad yr Ombwdsmon | 1 |
| Datganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu | 10 |
| Adroddiad Taliadau | 11 |
| Datganiad Llywodraethu Blynyddol | 15 |
| Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru | 26 |
| Crynodeb o'r Alldro Adnoddau | 29 |
| Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr | 30 |
| Datganiad Sefyllfa Ariannol | 31 |
| Datganiad Llif Arian | 32 |
| Datganiad Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr | 33 |
| Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol | 34 |
| Atodiad Pensiynau | 50 |

# CYFRIFON BLYNYDDOL AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2014

## Adroddiad yr Ombwdsmon

### Hanes a Chefndir Statudol

Dyma wythfed cyfrifon blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ers i'r swyddfa ddod i fodolaeth yn ffurfiol ar 1 Ebrill 2006 yn dilyn gweithredu Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Cefais fy mhenodi yn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Dros Dro o 1 Rhagfyr 2013 ymlaen ar ôl i'r Ombwdsmon blaenorol adael i fynd i swydd arall. Yn unol â pharagraff 18 o Atodlen 1 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, mae gennyf gyfrifoldeb personol dros drefniadaeth, rheolaeth a staffio cyffredinol y swyddfa ac am ei gweithdrefnau yng nghyswllt materion ariannol a materion eraill.

Oherwydd y diwygiadau i'r Ddeddf yn sgil Deddf Llywodraeth Cymru 2006, mae cyflog a chostau cyflogaeth cysylltiedig yr Ombwdsmon yn gost uniongyrchol i Gronfa Gyfunol Cymru. Ar ben hynny mae'n rhaid cyflwyno costau rhedeg y swyddfa i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'w hystyried erbyn 1 Tachwedd fan bellaf bob blwyddyn. Erbyn 22 Tachwedd, mae'n rhaid i'r Pwyllgor Cyllid ystyried a gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yr Amcangyfrifon, gydag unrhyw addasiadau y mae'r Pwyllgor hwnnw, ar ôl ymgynghori ac ystyried unrhyw sylwadau a wnaed gennyf i, yn ei ystyried yn briodol. Mae'r broses hon yn debyg i'r un sy'n berthnasol i'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru a'i bwriad yw sicrhau annibyniaeth fy rôl.

Cafodd yr Amcangyfrifon a gyflwynwyd ar gyfer 2013-14 eu hystyried gan y Pwyllgor Cyllid ar 3 Hydref 2012 ac fe'u gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 27 Tachwedd 2012.

## Nodau Strategol

Diben Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yw ymchwilio’n annibynnol ac yn ddiduedd i gwynion gan y cyhoedd am y ffordd y cawsant eu trin gan gorff cyhoeddus. Rwyf yn disgwyl i gyrff cyhoeddus drin pobl yn deg, yn ystyriol ac yn effeithlon. Os byddaf yn dyfarnu bod cwyn wedi’i chyfiawnhau, byddaf yn argymell modd priodol o wneud iawn. Rwyf hefyd yn ymchwilio i gwynion bod aelodau o awdurdodau lleol wedi torri’r Cod Ymddygiad sy’n berthnasol iddynt.

Y weledigaeth ar gyfer y swyddfa yw:

> Unioni unrhyw gam y mae defnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus wedi’i gael ac ysgogi gwelliannau yn y gwasanaethau hynny, ac yn safonau bywyd cyhoeddus, gan ddefnyddio'r hyn rydym yn ei ddysgu o'r cwynion rydym yn eu hystyried.

Ein nodau strategol yw:

**Nod 1:** Cynnig gwasanaeth sy'n rhoi lle blaenllaw i ofal cwsmeriaid ardderchog ym mhopeth a wnawn, lle rydym yn ymdrechu i godi ymwybyddiaeth o’n gwasanaeth a lle rydym yn gwneud ein gorau i sicrhau ei fod ar gael i bawb a'i fod yn hawdd ei ddefnyddio.

**Nod 2:** Darparu gwasanaeth o safon uchel ar gyfer ymdrin â chwynion, sy'n ystyried ac yn dod i benderfyniad ynghylch cwynion mewn modd trylwyr ond cymesur, ac yn cyfleu penderfyniadau'n glir.

**Nod 3:** Defnyddio’r wybodaeth a gawsom o'n hymchwiliadau i gyfrannu at ddarparu gwasanaeth cyhoeddus gwell ac i weithredu fel sail ar gyfer polisi cyhoeddus.

**Nod 4:** Parhau i ddadansoddi a gwella ein heffeithlonrwydd a'n heffeithiolrwydd o ran llywodraethu, prosesau busnes a swyddogaethau cymorth, er mwyn bod yn fwy tryloyw a sicrhau y defnyddir yr arian cyhoeddus sydd yn ein gofal yn y ffordd orau bosibl.

## Prif Weithgareddau

Dyma brif weithgareddau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yr oedd y cyfrifon hyn yn rhoi sylw iddynt:

(a) ystyried cwynion gan y cyhoedd yn erbyn awdurdodau lleol (gan gynnwys cynghorau tref a chymuned) yng Nghymru;

(b) ystyried cwynion gan aelodau'r cyhoedd yn erbyn cyrff y GIG, ymarferwyr gwasanaethau iechyd teulu a darparwyr gwasanaethau annibynnol i'r GIG yng Nghymru;

(c) ystyried cwynion am Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth Cymru;

(d) ystyried cwynion yn erbyn landlordiaid cymdeithasol cofrestredig;

(e) ystyried cwynion bod aelodau awdurdodau lleol (gan gynnwys cynghorau tref a chymuned) wedi torri cod ymddygiad eu hawdurdod; a

(f) helpu aelodau o'r cyhoedd sy'n cysylltu â'r swyddfa i gyfeirio eu cwynion at y darparwr gwasanaeth cyhoeddus priodol lle nad yw'r corff hwnnw wedi cael cyfle eto i unioni'r sefyllfa, neu os ydynt wedi cwyno wrth y corff priodol ac yn dal yn anfodlon, at ombwdsmon priodol neu at driniwr cwynion os nad yw'r mater sy'n destun y gŵyn o fewn awdurdodaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

**Sylwadau Rheoli**

Dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, cyllidir y swyddfa drwy Gronfa Gyfunol Cymru. Rhaid ad-dalu unrhyw falansau arian na chawsant eu gwario i'r Gronfa hon bedair wythnos fan bellaf ar ôl i gopi ardystiedig o’r cyfrifon gael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae hyn yn creu mwy o reolaeth gan fod angen mynd ati’n effeithiol i reoli’r gyllideb ar sail arian ac ar sail adnoddau. Mae cyflog deiliad swydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a’r costau cysylltiedig, yn gost uniongyrchol i Gronfa Gyfunol Cymru ac yn cael eu gweinyddu drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Costau cyflogaeth o £2.5 miliwn yw’r eitem fwyaf o wariant o hyd. Cost cael cyngor proffesiynol (a chyngor arbenigol ar achosion yn ymwneud ag iechyd yn benodol) oedd £400k sy'n cynrychioli cynnydd o £64k ers 2012-13 yn bennaf oherwydd y costau cyfreithiol sy’n gysylltiedig ag achos proffil uchel.

Roedd y diffyg yn y Gronfa Pensiwn Llywodraeth Leol wedi cynyddu o £640k yn 31 Mawrth 2013 i £720k ar 31 Mawrth 2014 yn dilyn prisiad newydd yr actwari.

Roedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi darparu adnoddau gwerth £4.1 miliwn tuag at gyllido'r swyddfa er bod £20k o'r arian hwn i fod i gael ei roi yn ôl i Gronfa Gyfunol Cymru gan mai balansau arian na ddefnyddiwyd erbyn diwedd y flwyddyn ydyw. Mae £20k o fewn y meini prawf derbyniol ar gyfer balansau diwedd blwyddyn yng nghyswllt cyllid o 3%. Mae’r swyddfa wedi llwyddo i gyrraedd lefel gwariant sy'n cyd-fynd â lefel gyffredinol bloc Cymru, sy’n arbennig o drawiadol a chofio'r galw cynyddol sydd wedi bod am wasanaethau’r swyddfa.

Cymerwyd camau breision dros y blynyddoedd diwethaf i wella effeithlonrwydd o ran sut rydym yn ystyried cwynion. Mae hyn wedi bod yn hanfodol wrth ystyried y baich achosion sy’n cynyddu drwy’r amser. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae cynnydd o 117% yn nifer yr holl gysylltiadau â’r swyddfa (hynny yw, ymholiadau, cwynion cyrff cyhoeddus a chwynion am ymddygiad aelodau awdurdodau lleol).

Dros y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd cynnydd arall eto o 11% yn nifer y cwynion am gyrff iechyd a chynnydd hefyd o 19% yn nifer y cwynion gwasanaethau cymdeithasol. Y mathau hyn o gwynion yw'r rhai trymaf ar adnoddau wrth ymchwilio iddynt a'u hystyried. Er gwaethaf hyn, rydym wedi llwyddo o hyd i ragori ar y mwyafrif o'n targedau perfformio. Bu i ni barhau â'n rhaglen diweddaru technoleg gwybodaeth gyda'r bwriad o gael technoleg newydd i gymryd rhywfaint o faich y tasgau gweinyddol sy'n gysylltiedig ag ymdrin â chwynion.

Sefydlwyd y Panel Ymgynghorol yn ystod 2011-12 ac mae wedi parhau i gwrdd yn rheolaidd dros y flwyddyn a fu. Mewn adolygiad o'i effeithiolrwydd a gynhaliwyd yn ystod 2013-14, daethpwyd i'r casgliad fod y Panel yn cynnig yr elfen graffu a chymorth ychwanegol a geisir gan Ombwdsmon.

Dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, disgwylir i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru lunio adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb. Rwyf yn gwneud hynny yn fy Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2013-14, ac mae hwn i'w weld yn Adran 8. Yn ogystal, mae'r swyddfa wedi gwneud trefniadau i gydymffurfio â gofynion y Ddeddf Llwgrwobrwyo a ddaeth i rym ar 1 Gorffennaf 2011.

Disgrifir cyflawniadau'r flwyddyn a fu yn fanylach yn Adroddiad Blynyddol statudol 2013-14. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn [www.ombudsman-wales.org.uk](http://www.ombudsman-wales.org.uk)

**Taliadau**

Ceir manylion costau cyflog a chostau cysylltiedig yr Ombwdsmon a'r swyddfa yn yr Adroddiad Taliadau.

## Rhwymedigaethau Pensiwn

Cyflawnir rhwymedigaethau pensiwn i weithwyr o'r gorffennol a'r presennol trwy:

(a) Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil;

(b) y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir trwy Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y Gronfa); a

(c) y pensiynau sy'n cael eu talu'n uniongyrchol i gyn Gomisiynwyr neu eu dibynyddion.

Mae manylion llawnach i'w gweld yn yr Atodiad Pensiynau ar dudalen 51.

## Polisi Cyflogaeth

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn recriwtio ar sail yr egwyddor o ddethol ar sail teilyngdod trwy gystadleuaeth deg ac agored ac mae'n ymroddedig i sicrhau cyfle cyfartal i bob aelod o staff. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cydymffurfio â darpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010, yn ogystal â bodloni'r holl ofynion statudol eraill.

## Salwch

Yn ystod y flwyddyn collwyd 10.6 diwrnod y gweithiwr ar gyfartaledd (o'i gymharu â 6.8 diwrnod yn 2012-13). Mae hyn gyfwerth â 4.1% (2.6% yn 2012-13) o gyfanswm y diwrnodau gwaith posibl. Gan fod y swyddfa'n fach, nid yw manylion y mathau o salwch yn cael eu datgelu, gan y byddai modd adnabod yr unigolion o'r wybodaeth a ddarperir.

## Cynaliadwyedd

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi ymrwymo i arferion amgylcheddol da. Isod ceir enghreifftiau o'r ffordd y mae'n hybu stiwardiaeth amgylcheddol da.

(a) **Defnyddio ynni.** Fel un o nifer o denantiaid mewn bloc bychan modern o swyddfeydd, nid oes modd cael rheolaeth lawn dros y cyfleusterau gwres a golau. Ond mae gennym gyfnewidyddion gwres effeithlon iawn a reolir â thermostat ac o ran amser.

(b) **Defnyddio cerbydau.** Nid oes gan y swyddfa unrhyw gerbydau ei hun ond mae'n gorfod hurio cerbydau ar gyfer siwrneiau hwy er mwyn sicrhau'r effeithlonrwydd gorau.

(c) **Cludiant Cyhoeddus.** Lle bynnag y bo'n briodol, anogir staff i ddefnyddio cludiant cyhoeddus.

(d) **Rheoli papur.** Caiff staff eu hannog i asesu a oes angen copi papur ac i argraffu ar ddwy ochr y papur os oes modd. Mae'r staff yn gallu cael gafael ar wybodaeth drwy ddefnyddio mewnrwyd y swyddfa sy'n golygu nad oes angen systemau dosbarthu papur.

(e) **Gwaredu Gwastraff.** Mae gweithdrefnau ar waith ar gyfer ailgylchu gwydr, caniau, poteli plastig, batris a phapur. Ceir gwared â phapur drwy gyfleusterau ailgylchu gwastraff cyfrinachol oherwydd y rheidrwydd i gadw cyfrinachedd yn y ddeddfwriaeth alluogi.

## Llywodraethu Corfforaethol

Mae deiliad swydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn Gorfforaeth Unigol. Yn ogystal â hynny, wrth gymryd rôl Ombwdsmon Dros Dro, fe'm penodwyd gan y Trysorlys yn Swyddog Cyfrifyddu'r cronfeydd cyhoeddus ac yn y cyswllt hwn y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ymddiried ynof i gyflawni fy swyddogaethau. Mae manylion pellach wedi'u nodi yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

## Cyfarwyddyd Cyfrifon

Dan y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, dyddiedig 21 Rhagfyr 2006, roedd yn ofynnol i mi ddarparu cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014 yn unol ag egwyddorion cyfrifyddu a gofynion datgelu'r argraffiad o Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (y FReM) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM a oedd mewn grym yn 2013-14.

Paratowyd y cyfrifon hyn er mwyn:

(a) rhoi darlun teg a chywir o’r sefyllfa ar 31 Mawrth 2014, ac o'r alldro adnoddau net, yr adnoddau a ddefnyddiwyd i gyflawni amcanion, enillion a cholledion cydnabyddedig a’r llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben bryd hynny; a

(b) datgelu gwybodaeth am unrhyw wariant neu incwm o bwys na chafodd ei ddefnyddio i’r dibenion y'u bwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu drafodion o bwys nad oeddynt yn cydymffurfio â’r awdurdodau sy'n eu rheoli.

## Archwilwyr

Archwilydd Cyffredinol Cymru yw Archwilydd Allanol cyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel y nodwyd ym mharagraff 7 o Atodlen 1 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Ar ôl trafod â'r swyddfa hon, penododd Swyddfa Archwilio Cymru Grant Thornton UK LLP i wneud y gwaith ar eu rhan, ond yr Archwilydd Cyffredinol sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol o hyd. Cost archwiliad 2013-14 oedd £20k, o’i gymharu â £19k yn 2012-13.

Hyd y gwn i, rwyf wedi cymryd pob cam y dylwn i fod wedi'i gymryd i dynnu sylw'r archwilwyr at unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae gennyf gytundeb lefel gwasanaeth ar wahân gyda Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer darparu cyngor sy'n ymwneud ag adnoddau dynol. Yn 2013-14 talwyd llai na £1k i Swyddfa Archwilio Cymru o dan y cytundeb hwnnw.

**Y Dyfodol**

Gan nad oes dim arwydd y bydd lefel yr ymholiadau a'r cwynion i'r swyddfa hon yn gostwng, bydd y dyfodol, heb os, yn cyflwyno heriau o ran ymdrin â'r baich achosion. Disgwylir y bydd Nick Bennett, sef Ombwdsmon newydd Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn dechrau yn ei rôl ym mis Awst 2014. Mr Bennett fydd yn penderfynu cyfeiriad y swyddfa yn y dyfodol a dymunaf yn dda iddo yn y dasg honno.

**Yr Athro Margaret Griffiths**
**Swyddog Cyfrifyddu** **23 Gorffennaf 2014**

## Datganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, mae'n rhaid i mi baratoi cyfrifon adnoddau ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn nodi'r adnoddau a brynwyd, a oedd yn cael eu dal neu y cafwyd gwared arnynt yn ystod y flwyddyn a'r defnydd o adnoddau gan y swyddfa yn ystod y flwyddyn ar y ffurf a'r sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Paratoir y cyfrifon adnoddau ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'i alldro adnoddau net, yr adnoddau a wariwyd ar amcanion, newidiadau yn ecwiti trethdalwr, a'r llifoedd arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, fel y Swyddog Cyfrifyddu, rhaid i mi gydymffurfio â gofynion *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol* y Llywodraeth ac yn enwedig:

- glynu wrth y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- dweud a yw'r safonau cyfrifo perthnasol fel y'u nodwyd yn *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol* y Llywodraeth wedi cael eu dilyn, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau o bwys yn y datganiadau ariannol; a
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes byw.

Mae fy nghyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu yn cynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra arian cyhoeddus Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, dros gadw cofnodion priodol a diogelu asedau'r swyddfa fel y nodir ym memorandwm y Swyddogion Cyfrifyddu a lunnir gan Drysorlys EM a'i gyhoeddi yn "Rheoli Arian Cyhoeddus", a'u bod yn unol â Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005.

## Adroddiad Taliadau

### Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu y caf fy nhalu gan Gronfa Gyfunol Cymru, ynghyd â'r costau cysylltiedig sy'n ymwneud ag yswiriant gwladol a chostau fy mhensiwn. Telir yr Ombwdsmon ar lefel gyfwerth â Grŵp 5 y Strwythur Cyflog Barnwrol. Mae'r costau hyn wedi'u cynnwys yn Nodyn 4 dan Costau Gweinyddol Eraill fel Gwasanaethau Sefydlog y Gronfa Gyfunol.

### Taliadau

Mae'r adrannau canlynol yn nodi tâl a buddiannau pensiwn uwch reolwyr y Swyddfa:

**Un Cyfanswm Tâl**

| **Swyddogion** | Cyflog (£000'oedd) | | Taliadau bonws £000'oedd | | Buddion o fath arall £000'oedd | | Buddion pensiwn I'r £1,000 agosaf | | Cyfanswm £000'oedd | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2013-14 | 2012-13 | 2013-14 | 2012-13 | 2013-14 | 2012-13 | 2013-14 | 2012-13 | 2013-14 | 2012-13 |
| Peter Tyndall[1] | 90-95 | 135-140 | - | - | - | - | (3,000) | 56,000 | 90-95 | 190-195 |
| Margaret Griffiths[2] | 30-35 | - | - | - | - | - | - | - | 30-35 | - |
| Elizabeth Thomas[3] | 85-90 | 95-100 | - | - | - | - | (90,000) | 59,000 | - | 150-155 |
| Chris Vinestock[4] | 5-10 | - | - | - | - | - | (1,000) | - | 5-10 | - |

[1] Wedi rhoi'r gorau i weithio 30 Tachwedd 2013
[2] Wedi dechrau gweithio rhan-amser 2 Rhagfyr 2013
[3] Ymddeolodd 31 Rhagfyr 2013
[4] Wedi dechrau gweithio ar 3 Mawrth 2014

## Cyflog

Mae'r cyflog yn cynnwys cyflog gros, taliadau goramser ac unrhyw lwfansau eraill i'r graddau y bod trethiant y DU yn berthnasol iddynt.

## Buddion o fath arall

Mae gwerth ariannol unrhyw fuddion o fath arall yn cynnwys unrhyw wariant a dalwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac sy'n cael ei drin gan Gyllid a Thollau EM fel enillion trethadwy. Ni chafwyd gwariant o'r fath.

## Bonysau

Ni thalwyd bonws yn ystod y flwyddyn i mi nac i unrhyw aelod o staff yn fy swyddfa gan nad oes cynllun bonws ar waith.

## Cymarebau tâl

Roedd tâl band y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog mwyaf yn y flwyddyn ariannol 2013-14 yn £90-£95,000 (2012-13, £135-£140,000). Roedd hyn 2.4 gwaith (2012-13, 3.6) yn fwy na thâl canolrifol y gweithlu, a oedd yn £39,351 (2012-13, £38,961). Mae'r ffaith bod yr Ombwdsmon wedi gadael yn gynnar ddiwedd mis Tachwedd wedi effeithio ar y ffigur hwn - byddai'r swm cyfwerth am y flwyddyn gron wedi bod yn 3.5 gwaith yn fwy na'r canolrif.

Yn 2013-14, ni chafodd dim cyflogai daliad a oedd yn fwy na thâl y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog mwyaf (2012-13, dim un).

Roedd ystod y taliadau rhwng £14,000 a £95,000 (2012-13 £16,000 i £135,000).

Mae'r cyfanswm tâl yn cynnwys cyflog, tâl seiliedig ar berfformiad heb ei gyfuno, a buddion o fath arall. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian pensiynau.

## Dyfarniadau cyflog

Mae cyflogau'r staff yn gysylltiedig â dyfarniadau cyflog a roddir i weithwyr sy'n gweithio ym maes Llywodraeth Leol yng Nghymru a Lloegr. Yn unol â'r drefn honno, cafodd staff godiad cyflog o 1% yn 2013-14.

## Ymgynghori â staff

Mae gennym broses ymgynghori â staff sy'n cynnwys yr undebau llafur cydnabyddedig.

## Pensiynau

Isod, dangosir hawliau pensiwn yr unigolion a enwir uchod:

| Enw | Pensiwn cronedig ar oed pensiwn ar 31/03/14 a'r cyfandaliad cysylltiedig | Gwir gynnydd mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar oed pensiwn | CETV ar 31/03/14 | CETV ar 31/03/2013 | Gwir gynnydd yn y CETV | Cyfraniad y cyflogwr at gyfrifon pensiwn partneriaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£100 agosaf** |
| Peter Tyndall | 70-75 a chyfandaliad sero | 0-5 a chyfandaliad sero | 989 | 929 | 11 | - |
| Margaret Griffiths | - | - | - | - | - | 2,800 |
| Elizabeth Thomas[5] | 30-35 a thelir 32 o'r swm hwn | (0-5) | 1,003 | 1,000 | (90) | - |
| Chris Vinestock[6] | - | - | - | - | (1) | - |

[5] Ymddeolodd ar 31 Rhagfyr 2013, pensiwn a delir a chyfandaliad wedi'i dalu

[6] Dechreuodd weithio ar 3 Mawrth 2014 – gan ystyried chwyddiant, mae'r CETV a ariennir gan y cyflogwr wedi gostwng mewn termau real

**Adrodd am gynlluniau Gwasanaeth Sifil a chynlluniau iawndal eraill – pecynnau ymadael**

Ni thalwyd pecynnau ymadael yn 2013-14 (2012-13 dim)

**Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil**

Darperir y buddion pensiwn hyn dan drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr Atodiad Pensiynau sy'n dechrau ar dudalen 51 y cyfrifon hyn.

**Panel Ymgynghorol a'r Pwyllgor Archwilio a Risg**

Gwnaed y taliadau amhensiynadwy canlynol, sy'n seiliedig ar gyfradd ddyddiol, i aelodau o'r Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Panel Ymgynghorol:

| | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| William Richardson | 1,244 | 311 |
| Ceri Stradling (daeth y contract i ben ym mis Mawrth 2014) | 1,684 | 3,035 |
| John Williams | 875 | 1,488 |
| Margaret Griffiths (tan fis Rhagfyr 2013) | 1,244 | 622 |
| Laurie Pavelin (daeth y contract i ben ym mis Mawrth 2012 | - | 850 |

**Yr Athro Margaret Griffiths**
**Swyddog Cyfrifyddu** **23 Gorffennaf 2014**

## Datganiad Llywodraethu Blynyddol

### Statws Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Fel y nodwyd yn Atodlen 1, paragraff 2 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, mae'r Ombwdsmon yn Gorfforaeth Unigol sy'n dal y swydd dan Ei Mawrhydi ac yn cyflawni ei ddyletswyddau ar ran y Goron. Mae paragraff 18 Atodlen 1 yn datgan mai'r Ombwdsmon yw Swyddog Cyfrifyddu swyddfa'r Ombwdsmon.

### Newid Deiliaid Swydd

Ar ddechrau 2013-14, Peter Tyndall oedd deiliad swydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Ond, ymddiswyddodd o'i swydd ym mis Tachwedd 2013 ar ôl iddo gael ei benodi'n Ombwdsmon ac yn Gomisiynydd Gwybodaeth Iwerddon. Fe'm penodwyd i, Margaret Griffiths, yn Ombwdsmon Dros Dro ar ddechrau mis Rhagfyr 2013.

### Cwmpas y Cyfrifoldeb

Wrth gyflawni fy swyddogaeth fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn sicrhau bod y swyddfa'n gweithio'n effeithiol ac i safon uchel o ran uniondeb. Yn ogystal, rwyf yn gyfrifol am gynnal system reolaeth fewnol gadarn sy'n cefnogi'r broses o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, gan ddiogelu hefyd yr asedau a'r arian cyhoeddus yr wyf i'n bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi yn "Rheoli Arian Cyhoeddus".

Rwyf yn annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond yn atebol i'w Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am y defnydd o adnoddau a ddarperir i gefnogi fy swyddogaethau statudol. Wrth bennu lefel yr adnoddau sydd ar gael i'r swyddfa, ystyrir y cynigion ar gyfer cyllideb Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gan Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â'r broses a nodir yn Neddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005.

Disgwylir i mi gynnwys y datganiad hwn gyda fy nghyfrifon a'm hadroddiad blynyddol er mwyn egluro sut yr eir ati i lywodraethu fy swyddfa ac i sicrhau bod hynny yn bodloni gofynion y Cod Llywodraethu Corfforaethol. Er mwyn gallu bodloni'r gofynion hyn rwyf wedi sefydlu gweithdrefnau, systemau a strwythurau priodol sy'n gynhwysfawr ac sy'n rhoi tystiolaeth i mi fod y trefniadau llywodraethu yn gweithio fel y'u bwriadwyd ar draws y sefydliad a'i weithgareddau. Mae trefniadau o'r fath yn cynnwys fy Fframwaith Llywodraethu, rheolaeth fewnol gynhwysfawr, cwmpas archwiliad mewnol ac allanol effeithiol a gweithdrefnau monitro, cynllunio risg a rheolaeth ariannol gadarn.

## Cynllunio Strategol a Monitro Perfformiad

Mae cylch cynllunio Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cynnwys llunio Cynllun Strategol bob tair blynedd a chynllun busnes bob blwyddyn. Cyflwynwyd y Cynllun Strategol tair blynedd diweddaraf i symud y swyddfa yn ei blaen at y flwyddyn 2014-15. Lluniwyd y Cynllun hwn mewn cysylltiad â holl staff Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru drwy gyfrwng seminarau a gweithdai. Lluniwyd y Cynllun Busnes ar gyfer 2013-14 i ddilyn ymlaen o hwn.

Er mai gwaith y timau unigol yn y swyddfa yw rhoi'r camau a nodwyd ar waith, mae'r Tîm Rheoli a'r Panel Ymgynghorol yn monitro'r cynnydd a wneir yn erbyn targedau a'r canlyniadau a sicrhawyd drwy adroddiadau chwarterol. Roeddwn yn falch iawn bod yr holl weithgareddau allweddol a bennwyd ar gyfer 2013-14 wedi'u cyflawni erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae cynllun tair blynedd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi ystyried y cynnydd y mae'r swyddfa'n ei wynebu yn ei llwyth gwaith yn sgil rhoi Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG a gwasanaeth Cwynion Cymru ar waith, yn ogystal â'r tueddiad cyffredinol ar i fyny sy'n parhau yn nifer y cwynion sy'n dod i law. Mae'r gwaith cynllunio hefyd wedi ystyried yr angen i baratoi ar gyfer gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), pe byddai'r cynigion i ymestyn awdurdodaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cael eu deddfu.

## System Rheolaeth Fewnol

Mae'r system rheolaeth fewnol wedi ei dyfeisio i reoli risg i raddau rhesymol ac nid i ddileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly, dim ond sicrwydd rhesymol, ac nid absoliwt, o effeithiolrwydd y gall ei gynnig. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a luniwyd i ganfod a blaenoriaethu'r risgiau o ran cyflawni fy mholisïau, fy nodau a'm hamcanion, i werthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu, a'u heffaith pe bai hynny'n digwydd, ac i'w rheoli'n effeithiol, yn effeithlon ac yn ddarbodus. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod mewn grym gan swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r cyfrifon hyn, ac mae'n cydymffurfio â chyfarwyddyd Trysorlys EM. Ni chanfuwyd dim gwendidau sylweddol mewn rheolaeth fewnol yn sgil gwaith archwilio ac mae camau i wella rheolaeth eto yn cael eu rhoi ar waith yn brydlon ac yn cael eu monitro gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.

## Trefniadau Llywodraethu Corfforaethol

Rheolir trefniadau llywodraethu drwy Banel Ymgynghorol o ymgynghorwyr allanol sy'n cael cymorth Pwyllgor Archwilio a Risg, sy'n is-bwyllgor y Panel. Dyma gyfrifoldebau'r naill a'r llall:

## Panel Ymgynghorol

### (a) Rôl y Panel

Mae'r Panel Ymgynghorol yn fforwm anstatudol a'i brif rôl yw darparu cefnogaeth a chyngor i'r Ombwdsmon er mwyn iddo roi arweiniad a llywodraethu swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn dda. Hefyd, mae'r Panel Ymgynghorol yn cynnig persbectif allanol i helpu gyda datblygu polisïau ac arferion.

Mae'r Panel Ymgynghorol yn rhoi cefnogaeth a chymorth penodol i'r Ombwdsmon ar y canlynol:

- gweledigaeth, gwerthoedd a dibenion;
- cyfeiriad strategol a chynllunio;
- atebolrwydd i ddinasyddion am y cyllid cyhoeddus a gaiff;
- trefniadau rheolaeth fewnol a rheoli risg.

Cynghori'r Ombwdsmon yn unig yw gwaith y Panel Ymgynghorol, ac nid yw'n gwneud penderfyniadau drwy ei hawl ei hun.

Mae'r Panel hefyd yn cynorthwyo'r Ombwdsmon i sefydlu:

- trefniadau llywodraethu, gan gynnwys Cylch Gorchwyl unrhyw is-bwyllgorau;
- cyfeiriad strategol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ei nodau, ei amcanion a'i dargedau;
- polisïau busnes pwysig;
- polisïau a strategaethau cyflogaeth allweddol;

ynghyd â chraffu a rhoi sicrwydd mewn perthynas â'r canlynol:

- y Cynllun Strategol Tair Blynedd a'r Cynllun Busnes Blynyddol;
- dyrannu cyllidebau ar lefel uchel;
- cyflwyno'r Amcangyfrifon cyllidebol i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
- cyfrifon adnoddau (wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Archwilio a Risg);
- contractau/buddsoddiadau cyfalaf (dros £250k) (wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Archwilio a Risg).

Mae hefyd yn monitro ac yn adolygu'r canlynol:

- rheolaeth fewnol a risg (wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Archwilio a Risg);
- darpariaeth a pherfformiad gweithredol;
- perfformiad ariannol;

- effeithiolrwydd polisïau a strategaethau cyflogaeth;
- amrywiaeth a chyfle cyfartal, yn arbennig yng nghyswllt Deddf Cydraddoldeb 2010;
- strategaethau cyfathrebu allanol a chysylltiadau â rhanddeiliaid;
- iechyd a diogelwch a pharhad busnes.

Cynhaliwyd pedwar cyfarfod a hynny ym mis Gorffennaf, Medi a Rhagfyr 2013 ac ym mis Mawrth 2014.

### (b) Aelodaeth

Mae'r aelodaeth yn cynnwys:

- yr Ombwdsmon (Cadeirydd oherwydd ystyriaethau'n ymwneud ag atebolrwydd cyfansoddiadol)
- hyd at bum aelod allanol (sy'n cynnig y profiad a'r sgiliau penodol a geisir gan yr Ombwdsmon a gall un o'r rhain fod o swyddfa ombwdsmon arall).

Mae'r Rheolwr Cyfathrebu a Pholisi yn gweithredu fel Ysgrifennydd y Panel; gall aelodau eraill o'r Tîm Rheoli fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Panel yn ôl penderfyniad yr Ombwdsmon ond nid ydynt yn aelodau o Bwyllgor Ymgynghorol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ffurfiol.

Dyma oedd aelodau'r Panel Ymgynghorol yn ystod 2013-14:

Bill Richardson
Ceri Stradling (tan ddechrau mis Mawrth 2014)
Jan Williams
John Williams.

Roeddwn hefyd yn aelod annibynnol ar y Pwyllgor Ymgynghorol tan fis Tachwedd 2013, ond dechreuais yn rôl y Cadeirydd ar ôl cael fy mhenodi'n Ombwdsmon Dros Dro ar ddechrau mis Rhagfyr 2013.

## Pwyllgor Archwilio a Risg

### (a) Cylch Gorchwyl

Y Panel Ymgynghorol sy'n gyfrifol am gytuno ar Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Risg. Pwyslais mawr rôl y Pwyllgor yw rheoli pob risg, nid dim ond rheolaeth ariannol y swyddfa.

### (b) Aelodaeth

Yn ystod y flwyddyn, cafodd tri chyfarfod cyntaf y Pwyllgor Archwilio a Risg eu cadeirio gan Ceri Stradling BA FCA. Oherwydd gwrthdaro rhwng buddiannau yn sgil ei benodi i gorff a oedd o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon,

ymddiswyddodd Ceri Stradling fel Aelod o'r Pwyllgor Ymgynghorol ac, o ganlyniad, fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg ar ddechrau mis Mawrth 2014. Cynigiodd Bill Richardson, a oedd eisoes yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg, i gadeirio'r cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2014. Rhoddodd Ceri Stradling gryn dipyn o gymorth i'r Ombwdsmon gyda'i arbenigedd helaeth o gyfrifyddu yn y sector preifat a chyhoeddus a'i brofiad o archwilio. Mae presenoldeb Bill Richardson ar y Pwyllgor yn gwella annibyniaeth y Pwyllgor. Arferai fod yn gyn-Ddirprwy Brif Weithredwr yn swyddfa Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd ac mae ganddo brofiad sylweddol o weithredu systemau llywodraethu, a systemau gweinyddol ac ariannol yng nghyd-destun cynllun ombwdsmon. Roeddwn i hefyd yn aelod annibynnol ar y Pwyllgor tan fis Tachwedd 2013, ond newidiodd fy statws ar y pwyllgor hwnnw ym mis Rhagfyr 2013 ar ôl i mi gael fy mhenodi'n Ombwdsmon Dros Dro. Rwyf innau'n aros ar y Pwyllgor yn rhinwedd fy swydd newydd fel Swyddog Cyfrifyddu. O ganlyniad i'r swydd wag a ddaeth yn sgil fy newid mewn statws, ymunodd John Williams â'r Pwyllgor. Roedd eisoes yn aelod o'r Pwyllgor Ymgynghorol, ac arferai fod yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

### (c) Hyfforddiant

Gwahoddir Aelodau'r Pwyllgor i asesu eu hanghenion hyfforddi yn flynyddol. Yn ystod y flwyddyn a fu, i ategu rhaglen cynefino'r flwyddyn flaenorol ar gyfer aelodau'r Panel Ymgynghorol a'r Pwyllgor Archwilio a Risg, mae hyfforddiant ychwanegol yn ymwneud â gwaith swyddfa Ombwdsmon wedi ei gynnal. Mae hyn wedi bod ar ffurf cyflwyniad/trafodaeth ar ddiwedd pob cyfarfod o'r Panel Ymgynghorol. Yn ystod y flwyddyn, bu Ceri Stradling mewn cyfarfod i Gadeiryddion ar Archwilio Cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru, ac roedd hyn yn fuddiol ar gyfer rhwydweithio a rhannu arfer gorau.

### (d) Cyfarfodydd

Mae'r Pwyllgor yn llunio ei raglen waith flynyddol ei hun. Cynhaliwyd pedwar cyfarfod o'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn. Ymhob cyfarfod derbyniodd y Pwyllgor nifer o eitemau agenda sefydlog. Roedd un o'r rhain yn ymdrin â Rheoli Risg ac yn cynnwys manylion risgiau newydd ac unrhyw newid i'r Gofrestr Risg a oedd yn bodoli (e.e. symudiad yn lefel y risg). Pan ystyrir y Cynllun Archwilio Mewnol blynyddol, mae'r gofrestr risgiau lawn ar gael i'r Pwyllgor er mwyn sicrhau bod y cynllun arfaethedig yn adlewyrchu'r blaenoriaethau yn y gofrestr. Mewn cyfarfodydd eraill, cyflwynir risgiau uchel a chanolig i'r Pwyllgor o leiaf er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn gwybod amdanynt. Y prif risgiau a gafodd eu monitro yn ystod y flwyddyn oedd enw da'r swyddfa ac, yn yr hinsawdd economaidd bresennol, y lefel briodol o adnoddau i alluogi'r Ombwdsmon i gyflawni ei rwymedigaethau statudol. Mae lefel gyffredinol y risg sy'n wynebu'r sefydliad wedi aros yn isel ac, at ei gilydd, yn statig.

Roedd adroddiadau sefydlog eraill a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn gysylltiedig â datganiadau ynghylch a oes unrhyw dwyll neu golledion gan gynnwys colli data wedi dod i'r amlwg.

Yn ystod y flwyddyn derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau hefyd am unrhyw faterion priodol a oedd o fewn ei gylch gorchwyl. Roedd hyn yn cynnwys: Y cyfrifon naw mis; trefniadau pensiwn; y strategaeth rheoli asedau; y newyddion diweddaraf am y cynllun parhad busnes; a materion llywodraethu corfforaethol ac ariannol perthnasol a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Ym mhob cyfarfod, cafodd y Pwyllgor gopi, er gwybodaeth, o'r adroddiad Monitro Cyllideb diweddaraf sy'n cael ei ystyried gan y Tîm Rheoli. Bwriad hwn yw rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor bod y swyddfa yn cadw llygad cyson ar y sefyllfa ariannol.

Rhoddodd y Pwyllgor gyngor i'r Ombwdsmon er mwyn sicrhau bod Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2013-14 yn cynnwys gwybodaeth briodol ac yn cydymffurfio ag arfer gorau.

## (e) Archwilio Mewnol ac Allanol

Cafodd y Pwyllgor adroddiadau rheolaidd gan yr archwilwyr mewnol a'r archwilwyr allanol. Cynlluniwyd gwaith Deloitte, yr Archwilwyr Mewnol, yn ystod y flwyddyn ar sail asesiad cyffredinol o'u hanghenion a'i gyflawni drwy eu trydedd raglen flynyddol. Cyfeiriodd eu hadroddiadau at y fframwaith rheoli mewnol boddhaol yn y sefydliad ac roeddent yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwella lle roedd angen. Nodwyd yr asesiadau cyffredinol canlynol yn eu Hadroddiad Blynyddol Mewnol ar Systemau Cyllid ar gyfer 2013-14:

| | |
|---|---|
| Rheoli Arian Parod a Bancio | Sicrwydd LLAWN |
| Refeniw a symiau Derbyniadwy eraill | Sicrwydd LLAWN |
| Rheolaeth Gyllidebol | Sicrwydd LLAWN |
| Cyfriflyfr Cyffredinol | Sicrwydd SYLWEDDOL |

Roedd y rhaglen archwilio dreiglol a oedd yn cynnwys elfennau eraill gwaith a mesurau rheoli'r sefydliad hefyd yn cyfeirio at y fframwaith rheoli mewnol boddhaol yn y sefydliad, ac roeddent yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwella lle roedd angen. Roedd yr asesiadau cyffredinol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Camau Pellach y Panel Ymgynghorol a Rheoli Risg a Llywodraethu Corfforaethol | Sicrwydd LLAWN |
| Cwynion Cymru | Sicrwydd LLAWN |

Yn ogystal, lluniodd yr archwilwyr mewnol adroddiad ymgynghorol ar drefniadau Cyfathrebu Mewnol, a oedd yn adroddiad cadarnhaol dros ben hefyd.

Nodwyd yn Adroddiad Blynyddol yr archwilwyr mewnol ar gyfer 2013-14 bod ein hasesiad cyffredinol yn dangos mai **sicrwydd llawn** a roddir ar gyfer rheoli risg a llywodraethu corfforaethol. Mae'r canfyddiadau hyn yn rhoi sicrwydd bod y trefniadau ar waith yn lleihau pa mor agored yw'r sefydliad i risg. Nododd y Pwyllgor drylwyredd y gwaith archwilio, ymarferoldeb yr argymhellion ac ymateb agored a chadarnhaol y rheolwyr i'r argymhellion a wnaed.

Mae'r Archwilwyr Allanol hefyd yn gwerthuso effeithiolrwydd yr Archwiliad Mewnol bob blwyddyn. Yn eu Llythyr Rheoli ar gyfer 2013-14, daethant i'r casgliad fod yr Ombwdsmon wedi gweithredu system reoli effeithiol gan gynnwys trefniadau Archwilio Mewnol sy'n cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Llywodraeth.

Rhaid i'r rôl archwilio allanol, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, gael ei chyflawni gan Swyddfa Archwilio Cymru. Cyflawnwyd y gwaith hwnnw, gyda chytundeb yr Ombwdsmon, yn ystod y flwyddyn gan Grant Thornton UK LLP yn gweithredu ar ran Swyddfa Archwilio Cymru. Ystyriodd y Pwyllgor y Cyfrifon Blynyddol a oedd yn cynnwys Datganiad Llywodraethu'r swyddfa ar gyfer 2013-14 ynghyd ag Adroddiad Archwilio Allanol ISA260. Cafodd casgliadau Archwilio ar gyfer blwyddyn ariannol 2012/13 eu hadolygu yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi 2013. Rhoddwyd barn ddiamod ar Gyfrifon 2012-13 ar 8 Awst a chodwyd dim ond tri o'r cywiriadau a argymhellwyd a oedd eisoes wedi'u rhoi ar waith.

Mae gan yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol yr hawl, os ystyrir hynny'n briodol, i godi unrhyw fater drwy bolisi mynediad agored gyda'r Cadeirydd a thrwy'r hawl honno i ddwyn unrhyw fater i sylw'r Pwyllgor. Sicrhaodd y Pwyllgor, drwy adolygu rhaglenni'r Archwilwyr Mewnol ac Allanol, eu bod yn cydweithredu'n effeithiol â'i gilydd. Mae ansawdd y gwaith archwilio a safon gwaith y Pwyllgor wedi cael ei werthuso yn ystod y flwyddyn drwy ystyried yr adroddiadau archwilio a'r argymhellion a'r ddeialog mewn cyfarfodydd rhwng Aelodau'r Pwyllgor a'r Archwilwyr.

I sicrhau y gellir codi materion priodol yn gyfrinachol mae Cadeirydd y Pwyllgor yn cynnal cyfarfod bob blwyddyn â chynrychiolwyr yr Archwilwyr Allanol a Mewnol. Cynhaliwyd cyfarfod o'r fath ar 26 Mawrth 2014.

### (f) Prosesau monitro

Ym mhob cyfarfod yn ystod 2013-14, cafodd y Pwyllgor adroddiad ar y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran gweithredu ar argymhellion yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol. Roedd aelodau'r pwyllgor yn fodlon bod pob un o'r argymhellion a wnaed heblaw un wedi'u gweithredu. Roedd yr unig argymhelliad ar ôl i'w weithredu yn ymwneud ag adolygu polisïau AD ac roedd y rhain erbyn hyn yn destun adolygiad gan arbenigwyr AD allanol.

## (g) Asesiad ac Adolygiad Blynyddol

Cynhelir yr adolygiad blynyddol hwn er mwyn sicrhau bod gwaith y Pwyllgor Archwilio a Risg yn parhau i gydymffurfio â'r Egwyddorion Arfer Da sydd wedi'u nodi yn Llawlyfr Pwyllgorau Archwilio Trysorlys EM. I helpu'r Pwyllgor i benderfynu a oedd yn cydymffurfio ag arfer da, gofynnwyd i bob aelod gwblhau "rhestr wirio hunanasesiad y Pwyllgor Archwilio" y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

Wrth baratoi adroddiad y llynedd, cafwyd sylwadau gan aelodau'r Pwyllgor a chafodd y rhain eu hystyried wrth baratoi'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2013-14. Isod, dyma'r meysydd a nodwyd a'r sefyllfa ar ddiwedd 2013-14:

- cyflwyno asesiad o berfformiad blynyddol ffurfiol ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Risg [cyflwynwyd asesiad peilot ar ddiwedd 2013-14]
- adolygu amodau penodi Aelodau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn ag arfer gorau, yn enwedig yng nghyswllt terfynu [yn dal i gael ei adolygu]
- o safbwynt hyfforddi a datblygu, adolygu'r broses gynefino yn sgil penodiadau diweddar a'i gwella, os oes angen, er mwyn rhoi gwell dealltwriaeth o fusnes y sefydliad [wedi'i gwblhau]
- cyfrifoldebau o ran gweithdrefn chwythu'r chwiban Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a Chod Ymddygiad y Staff i'r graddau ag y mae'n berthnasol i faterion ariannol a llywodraethu. [Mae oedi wedi bod gyda hyn oherwydd bod y Tîm Rheoli wedi penderfynu cael cyngor allanol ynghylch portffolio polisïau Adnoddau Dynol.]

Cynhaliodd aelodau'r Pwyllgor adolygiad tebyg ar gyfer y flwyddyn 2013-14. Nodwyd un mater ychwanegol:

- y byddai'n ddefnyddiol cael un sesiwn gynefino benodol ar gyfer aelodau newydd y Pwyllgor.

Lluniodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2013-14.

Casgliad yr adroddiad oedd ei fod wedi cael gwybodaeth a sicrwydd cynhwysfawr a oedd yn ddibynadwy ac yn ddigon iddo gyflawni ei gyfrifoldebau. Roedd y sicrwydd hwn yn dangos bod yr amgylchedd rheolaeth fewnol cyffredinol, adroddiadau ariannol, rheoli risg ac ansawdd y gwaith Archwilio Allanol a Mewnol yn foddhaol.

Felly, roedd y Pwyllgor yn gallu rhoi sicrwydd y byddai'n fy nghynorthwyo i fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gydymffurfio â'm cyfrifoldebau i, a chyfrifoldebau fy rhagflaenydd, fel Swyddog Cyfrifyddu, yn benodol yng nghyswllt rhoi tystiolaeth a fyddai'n helpu gyda'r gwaith o baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn.

## Rhoi Gwybod am Ddigwyddiadau sy'n ymwneud â Data Personol

Mae Swyddfa'r Cabinet wedi cyhoeddi canllawiau ar roi gwybod ynghylch unrhyw achos o golli data personol a warchodwyd, datgelu'r data hynny heb awdurdod ac unrhyw achos o gael gwared ar ddata personol a warchodwyd mewn modd anniogel. Y ddyletswydd yw adrodd ynghylch y canlynol:

- manylion unrhyw achosion sy'n ymwneud â data personol yr adroddwyd yn eu cylch wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y flwyddyn ariannol;
- achosion wedi'u cofnodi sy'n ymwneud â data personol a warchodwyd nas adroddwyd yn ffurfiol yn eu cylch wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y flwyddyn ariannol; ac
- unrhyw achosion sy'n ymwneud â data personol a warchodwyd yn y blynyddoedd ariannol blaenorol.

Er nad oedd data wedi mynd ar goll (llwyddwyd i adfer yr holl ddata perthnasol), ystyriwyd ei bod yn briodol adrodd dau ddigwyddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Risg lle roedd data personol wedi cael eu hanfon at yr unigolyn anghywir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Roeddent yn ymwneud ag achosion heb gysylltiad â'i gilydd. Yn dilyn ymchwiliad mewnol, daethpwyd i'r casgliad bod y ddau ddigwyddiad wedi digwydd oherwydd gwall dynol ac nid oherwydd unrhyw ddiffyg yn y broses. Ar ôl hynny, mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi cynnal hyfforddiant diweddaru ar gyfer holl aelodau o'r staff ar bwysigrwydd diogelwch data a'r angen i wneud archwiliadau digonol a thrylwyr o'r hyn a anfonir drwy unrhyw gyfrwng (post/negesydd/e-bost/ffôn ayb). Ymdriniwyd â gwallau'r staff yn fewnol yn y ddau achos yn unol â pholisi AD priodol. Roedd llythyr yn cynnig ymddiheuriad llawn wedi'i anfon yn y ddau achos at y sawl a dderbyniodd y data anghywir. Yng nghyswllt un o'r achosion, roedd gweithdrefnau ar waith i ganiatáu i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru roi gwybod i'r partïon perthnasol eraill am y wybodaeth a gafodd ei chamgyfeirio yn ystod wythnosau cyntaf 2014-15.

Mae'r polisi diogelwch gwybodaeth ar gyfer y swyddfa ar gael os gwneir cais amdano.

## Y Fframwaith Risg a Rheoli

Yn unol â "Rheoli Arian Cyhoeddus" rwyf yn cael fy nghefnogi gan Gynghorydd Ariannol. Mae'n gyfrifydd cymwysedig ac yn ymgymryd â chyfrifoldebau'r cyfarwyddwr cyllid proffesiynol fel sy'n cael ei nodi yn y ddogfen honno.

Rwyf yn parhau i wella'r trefniadau ar gyfer rheolaeth fewnol gadarn er mwyn sicrhau bod y swyddfa'n gallu canfod, asesu a rheoli risg yn effeithiol. Wrth ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014 cefais i a'm rhagflaenydd gefnogaeth Cyfarwyddwr y mae rhai o gyfrifoldebau'r Ombwdsmon wedi cael eu dirprwyo iddo. Yn ogystal, y Tîm Rheoli a gadeirir gennyf fi sydd â'r cyfrifoldeb dros oruchwylio rheoli risg. Rwyf yn fodlon bod y systemau sydd ar waith yn canfod risgiau posibl yn gynnar ac yn caniatáu, trwy reolaeth weithredol, i gamau priodol gael eu cymryd er mwyn lleihau i'r eithaf unrhyw effaith andwyol ar y swyddfa. Fel yr wyf wedi nodi eisoes, mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cael adroddiadau rheolaidd am Gofrestr Risgiau'r swyddfa.

## Y Broses Gyllidebu

Yn rhinwedd fy swydd fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn sicrhau bod gennyf drefniadau ar waith sy'n cadw rheolaeth dynn ar yr arian cyhoeddus sydd yn fy ngofal, fel y gwnaeth fy rhagflaenydd o'm blaen. Yn benodol, mae'r Tîm Rheoli yn cael adroddiad monitro cyllideb bob mis sy'n nodi gwir wariant o'i gymharu â'r gwariant a glustnodwyd yn y gyllideb. Mae unrhyw faterion annisgwyl yn ymwneud â gwariant sy'n codi yn ystod y flwyddyn yn cael eu trafod a phennir camau i'w cymryd i sicrhau bod y swyddfa yn cadw o fewn y gyllideb y cytunwyd arni. Nid oes dim ystyriaethau mawr wedi codi yng nghyswllt cyllideb Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2013-14. O ran y broses llunio amcangyfrif ariannol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2014-15, cafodd papur yn nodi meini prawf cychwynnol ar gyfer y gyllideb ei drafod gan y Panel Ymgynghorol ym mis Gorffennaf 2013. Yn dilyn hyn trafodwyd papur amcangyfrif drafft o'r gyllideb yn y cyfarfod ym mis Medi 2013. Roedd y papur hwn yn nodi'n llawn yr adnoddau ariannol yr oedd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn eu hystyried yn angenrheidiol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru allu cyflawni ei ddyletswyddau. Cyflwynwyd y papur Amcangyfrifon terfynol i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ystyriodd y Pwyllgor Cyllid y papur ym mis Hydref 2013 ac roedd fy rhagflaenydd yn falch o allu bod yn bresennol yn y cyfarfod i ateb cwestiynau penodol Aelodau'r Cynulliad ar y cyflwyniad. Ar ôl hynny, cymeradwyodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yr amcangyfrif ariannol ar gyfer 2014-15.

**Casgliad**

Gallaf ddatgan nad oedd gwendidau o bwys yn system rheolaeth fewnol y swyddfa yn 2013-14 a effeithiodd ar allu'r swyddfa i gyflawni ei pholisïau, ei nodau a'i hamcanion a bod trefn Lywodraethu Gorfforaethol gadarn ar waith heb unrhyw enghreifftiau o dorri'r Cod Llywodraethu Corfforaethol.

**Yr Athro Margaret Griffiths**
**Swyddog Cyfrifyddu** **23 Gorffennaf 2014**

## Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 o dan paragraff 17 (2) o atodlen 1 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) (2005). Mae'r rhain yn cynnwys y Crynodeb Alldro Adnoddau, y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llifau Arian, y Datganiadau o'r Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr, a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth y nodir ei bod wedi'i harchwilio yn yr adroddiad hwnnw.

### Priod gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Archwilydd

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) (2005) a chyfarwyddiadau a wnaed gan Drysorlys EM o dan y Ddeddf honno, ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth i'w harchwilio yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

### Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Cynhelir archwiliad er mwyn cael digon o dystiolaeth o'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a pha un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Mae hefyd yn ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn Adroddiad yr Ombwdsmon er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol

archwiliedig. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

**Barn ar y Datganiadau Ariannol**

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar 31 Mawrth 2014 a'i ofyniad arian parod net, ei alldro adnoddau net a'i gost gweithredu net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac

- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) (2005).

**Barn ar Reoleidd-dra**

Yn fy marn i, ymhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a Gweinidogion Cymru a wnaed o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) (2005); ac

- mae'r wybodaeth sy'n cynnwys Adroddiad yr Ombwdsmon a'r rhan heb ei archwilio o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth, a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol yn gyson â'r datganiadau ariannol.

**Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad**

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM;

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;

- ni ddatgelwyd gwybodaeth a ddynodwyd gan Drysorlys EM o ran

cydnabyddiaeth a thrafodion eraill; neu

- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

**Adroddiad**

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

5 Awst 2014

## Crynodeb o'r Alldro Adnoddau

*Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014*

| | Amcangyfrif Diwygiedig | | | Alldro | | | | 2012-13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwariant Gros | Incwm | Cyfanswm Net | Gwariant Gros | Incwm | Cyfanswm Net | Cyfanswm yr alldro net o'i gymharu â'r arbediad/ (gormodedd) a amcangyfrifwyd | Cyfanswm Net |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Costau Gweinyddu | 3,908 | (6) | 3,902 | 4,029 | - | 4,029 | | 4,150 |
| Llai Gwasanaethau Cronfa Gyfunol Cymru a rennir | | | | 162 | | 162 | | 189 |
| **Cyfanswm Adnoddau** | **3,908** | **(6)** | **3,902** | **3,867** | **-** | **3,867** | **35** | **3,961** |
| **Gofyniad Arian Parod Net Nodyn 2** | **4,060** | | **4,060** | **4,040** | | **4,040** | **20** | **3,961** |

### Incwm anweithredol a derbyniadau nas ystyrir yn incwm gweithredu

| | Amcangyfrif Diwygiedig | | | Alldro | | | | 2012-13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwariant Gros | Incwm | Cyfanswm Net | Gwariant Gros | Incwm | Cyfanswm Net | Cyfanswm yr alldro net o'i gymharu â'r arbediad/ (gormodedd) a amcangyfrifwyd | Cyfanswm Net |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Gwerthu Asedau Sefydlog | - | - | - | - | - | - | - | - |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 35 i 50 a'r Atodiad Pensiynau ar dudalennau 51 i 61 yn rhan o'r datganiadau hyn

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
**Datganiadau Ariannol 2013-14**

## Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr

*ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014*

| | Nodyn | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| **Costau gweinyddol** | | | |
| Costau staff | 3 | 2,503 | 2,568 |
| Costau gweinyddol eraill heb fod yn rhai staff | 4 | 1,526 | 1,582 |
| **Costau Gweinyddol Gros** | | **4,029** | **4,150** |
| Incwm Gweithredol | 5 | - | - |
| **Costau Gweinyddol Net** | | **4,029** | **4,150** |
| | | | |
| **COST GWEITHREDU NET a'r ALLDRO ADNODDAU NET** | | **4,029** | **4,150** |

Mae'r holl weithgareddau a ddechreuwyd o fewn y cyfnod yn parhau.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 35 i 50 a'r Atodiad Pensiynau ar dudalennau 51 i 61 yn rhan o'r datganiadau hyn

## Datganiad Sefyllfa Ariannol

*ar 31 Mawrth 2014*

| | Nodyn | 2013-14 | | 2012-13 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Asedau anghyfredol** | | | | | |
| Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar | 7 | 83 | | 127 | |
| Asedau anniriaethol | 8 | 138 | | 182 | |
| Symiau derbyniadwy sy'n dod yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 9 | 67 | | - | |
| **Cyfanswm yr asedau anghyfredol** | | | **288** | | **309** |
| **Asedau Cyfredol** | | | | | |
| Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 9 | 188 | | 146 | |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | 10 | 20 | | 2 | |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | | **208** | | **148** |
| **Cyfanswm asedau** | | | **496** | | **457** |
| | | | | | |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | | | |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 11 | (140) | | (117) | |
| Darpariaethau | 12 | (190) | | (80) | |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | | **(330)** | | **(197)** |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | | **166** | | **260** |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn | 11 | - | | (25) | |
| Darpariaethau | 12 | (438) | | (460) | |
| | | | **(438)** | | **(485)** |
| | | | **(272)** | | **(225)** |
| **Gwarged / (Diffyg) y Gronfa Bensiwn** | Atodiad Pensiynau | | **(720)** | | **(640)** |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau** | | | **(992)** | | **(865)** |
| **Ecwiti Trethdalwyr: Cronfa Gyffredinol** | | | **(992)** | | **(865)** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 35 i 50 a'r Atodiad Pensiynau ar dudalennau 51 i 61 yn rhan o'r datganiadau hyn

**Yr Athro Margaret Griffiths**
**Swyddog Cyfrifyddu** **23 Gorffennaf 2014**

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
**Datganiadau Ariannol 2013-14**

## Datganiad Llif Arian

*ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014*

| | Nodyn | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| All-lif arian o weithgareddau gweithredol | 13 | (3,975) | (4,035) |
| Llif arian net o weithgareddau buddsoddi | 14 | (47) | (14) |
| Cyllid gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru | 15 | 4,060 | 3,962 |
| **Cynnydd (gostyngiad) net mewn symiau cyfwerth ag arian parod cyn addasu ar gyfer taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru** | | **38** | **(87)** |
| Taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru | | **(20)** | **(2)** |
| **Cynnydd (gostyngiad) net mewn symiau cyfwerth ag arian parod ar ôl addasu ar gyfer taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru** | | **18** | **(89)** |
| | | | |
| **Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod** | | **2** | **91** |
| | | | |
| **Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod** | | **20** | **2** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 35 i 50 a'r Atodiad Pensiynau ar dudalennau 51 i 61 yn rhan o'r datganiadau hyn

## Datganiad Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr

*ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014*

| | Cronfa Gyffredinol | Cronfa Gyffredinol |
|---|---|---|
| | **2013-14** | **2012-13** |
| | **£000** | **£000** |
| **Balans ar 1 Ebrill** | **(865)** | **(714)** |
| | | |
| Costau gweithredu net | (4,029) | (4,150) |
| Cyllid gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru | 4,060 | 3,962 |
| Yn ddyledus i Gronfa Gyfunol Cymru<br>- Arian parod<br>- Incwm anweithredol | (20)<br>- | (2)<br>- |
| Gwasanaethau Cronfa Gyfunol Cymru a rennir | 162 | 189 |
| (Diffyg) gwarged actwaraidd | (300) | (150) |
| **Cyfanswm yr incwm a'r costau cydnabyddedig am y flwyddyn** | **(127)** | **(151)** |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **(992)** | **(865)** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 35 i 50 a'r Atodiad Pensiynau ar dudalennau 51 i 61 yn rhan o'r datganiadau hyn

## Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol

### 1. Datganiad am y Polisïau Cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) y Llywodraeth, a gyhoeddir gan Drysorlys EM, ac sydd mewn grym ar gyfer 2013-14. Mae'r polisïau cyfrifyddu yn yr FReM yn defnyddio Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y maent wedi cael eu mabwysiadu neu eu dehongli ar gyfer y sector cyhoeddus. Os yw'r FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y tybiwyd iddo fod yr un mwyaf priodol i amgylchiadau arbennig Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, i bwrpas rhoi darlun gwir a theg. Disgrifir y polisïau cyfrifyddu arbennig sydd wedi cael eu mabwysiadu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru isod. Fe'u defnyddiwyd yn gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod o bwys mewn perthynas â'r cyfrifon.

### 1.1 Confensiwn Cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn dan y confensiwn costau hanesyddol, a'u haddasu i ystyried unrhyw achos lle cafodd gwerth yr asedau sefydlog eu hailbrisio, yn ôl eu gwerth i'r busnes drwy gyfeirio at eu costau cyfredol.

### 1.2 Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

Mae gwariant ar eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cael ei gyfalafu lle disgwylir i'r hyn a brynir fod ag oes ddefnyddiol o fwy na blwyddyn a lle mae'r gost yn fwy na £1k. Gall asedau sy'n costio llai na £1k gael eu cyfalafu ar yr amod eu bod yn rhai cyfalaf a'u bod yn rhan o gynllun mwy sydd â chyfanswm dros £1k. Dangosir asedau ar eu cost, llai lwfans am ddibrisiant. Adeg eu cydnabod ar y cychwyn, mesurir asedau sefydlog ar sail eu cost gan gynnwys costau megis costau gosod, y gellir eu priodoli'n

uniongyrchol i fod at ddibenion eu paratoi ar gyfer y defnydd y bwriadwyd hwynt. Wrth adolygu costau'r asedau sefydlog a brynwyd eisoes a'r prisiau a dalwyd am yr eitemau newydd a brynwyd yn ystod y flwyddyn, nid oes gwahaniaeth o bwys rhwng gwerth llyfr net hanesyddol yr asedau a chost eu hadnewyddu, llai dibrisiant.

## 1.3 Dibrisiant

Caiff asedau eu dibrisio yn ôl cyfraddau a fydd yn eu gostwng i sero neu, os yw'n berthnasol, i amcangyfrif o'u gwerth gweddillol ar sail llinell syth dros eu hoes ddefnyddiol dybiedig yn dilyn taliad dibrisiant blwyddyn lawn cychwynnol ym mlwyddyn eu prynu. Caiff asedau sy'n cael eu datblygu eu dibrisio o'r flwyddyn y defnyddir yr asedau hynny gyntaf. Ac eithrio lle nodir hynny'n wahanol, tybir bod oes asedau fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Peiriannau | 10 mlynedd neu gyfnod y brydles os yw'n llai |
| Dodrefn a ffitiadau eraill | 10 mlynedd neu, yn achos y ffitiadau, cyfnod y brydles |
| Cyfrifiaduron a chyfarpar arall | 3 i 10 mlynedd |

## 1.4 Asedau anniriaethol

Mae trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol a brynir a meddalwedd a ddatblygir yn cael eu cyfalafu os ydynt yn costio £1k neu ragor ac os yw eu hoes ddefnyddiol yn fwy na blwyddyn. Gall asedau anniriaethol sy'n costio llai na £1k gael eu cyfalafu gyhyd â'u bod yn asedau cyfalaf a'u bod yn rhan o gynllun mwy sydd â chyfanswm dros £1k. Caiff asedau anniriaethol eu hadolygu'n flynyddol er mwyn canfod lleihad yn eu gwerth a chânt eu datgan ar sail cost hanesyddol wedi'i hamorteiddio. Caiff trwyddedau meddalwedd eu hamorteiddio dros gyfnod y drwydded neu dros oes economaidd ddefnyddiol yr offer cyfrifiadurol y maent wedi'u gosod arno, pa un bynnag yw'r byrraf. Fel arfer, byddai hyn rhwng 3 a 5 mlynedd. Caiff

meddalwedd a ddatblygir ei hamorteiddio dros ei hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig. Yn y flwyddyn y cânt eu prynu, gwneir taliad amorteiddio blwyddyn lawn gyda'r gweddill yn cael ei amorteiddio ar sail llinell syth dros weddill yr oes amcangyfrifedig.

### 1.5 Treth ar Werth (TAW)

Nid yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi'i gofrestru ar gyfer TAW. Felly datgelir gwariant yn cynnwys TAW.

### 1.6 Pensiynau

Mae’r ymrwymiadau pensiwn i staff blaenorol a phresennol yn cael eu cyflawni drwy ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), sy’n bennaf yn un anghyfrannol a heb ei ariannu, drwy’r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir drwy Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y Gronfa), a thrwy daliadau uniongyrchol i ddau Gomisiynydd blaenorol dros Weinyddu Lleol yng Nghymru ac un buddiolwr sy’n dal yn fyw. Datgelir y manylion llawn yn yr Atodiad Pensiynau ar ddiwedd y Datganiadau Ariannol. Caiff costau darparu'r pensiynau hyn eu cynnwys yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr gyda’r enillion a’r colledion actwaraidd sy’n gysylltiedig â Chynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg yn cael eu cynnwys yn y flwyddyn y maent yn codi.

### 1.7 Costau gadael yn gynnar

Lle mae’n ofynnol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dalu costau ychwanegol buddion sy’n fwy na’r buddion arferol a delir dan y cynllun pensiwn priodol i weithwyr sy’n ymddeol yn gynnar, caiff y costau hyn eu cynnwys yn llawn yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr pan fydd y rhwymedigaeth yn codi.

1.8 **Prydlesi Gweithredol**

Mae gwariant ar eiddo a brydlesir yn wariant yn y cyfnod y mae'n berthnasol iddo. Mae taliadau ar gyfer cyfarpar yng nghyswllt prydlesi gweithredol yn cael eu rhannu'n gyfartal dros oes y brydles.

1.9 **Costau Staff**

Yn unol ag IAS 19, caiff buddion tymor byr gweithwyr, megis cyflogau a chyfraniadau nawdd cymdeithasol, gwyliau blynyddol â thâl ac absenoldeb salwch â thâl, yn ogystal â buddion anariannol ar gyfer gweithwyr cyfredol, eu cydnabod pan fydd gweithiwr wedi darparu gwasanaethau'n gyfnewid am y buddion hynny.

1.10 **Incwm Gweithredol**

Cyfrifir ar gyfer llog banc yn y flwyddyn y'i ceir. Credydir incwm arall i'r flwyddyn gyfrifo y gwneir y gwaith ynddi.

1.11 **Incwm anweithredol**

Mae incwm anweithredol y mae'n rhaid ei ildio i Gronfa Gyfunol Cymru yn dod o werthu asedau sefydlog.

1.12 **Grantiau'r Llywodraeth**

Cyfrifir ar gyfer grantiau'r llywodraeth yn y flwyddyn y'u ceir.

1.13 **Cyfnewid Arian Tramor**

Mae trafodion busnes mewn arian tramor yn cael eu trosi'n sterling yn ôl y cyfraddau sydd mewn grym ar ddyddiadau'r trafodion hyn.

1.14 **Offerynnau Ariannol**

Offeryn ariannol yw unrhyw gontract sy'n rhoi ased ariannol i un endid a rhwymedigaeth ariannol neu offeryn ecwiti i endid arall. Nid oes gan yr Ombwdsmon unrhyw offerynnau ariannol cymhleth o dan y disgrifiad a

ddarperir gan IAS 32. Y prif offerynnau ariannol sy'n cael eu dal yw'r symiau taladwy a'r symiau derbyniadwy. Ystyrir y rhain yn fenthyciadau a symiau derbyniadwy yn unol ag IAS 39. Felly fe'u datgelir yn y cyfrifon ar sail cost wedi'i hamorteiddio.

1.15 **Darpariaethau**

Symiau yw'r rhain y mae'r swm neu'r amseru sy'n berthnasol iddynt yn ansicr ar ddyddiad y fantolen ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r ymrwymiadau. Pan fydd effaith gwerth amser arian yn sylweddol, caiff y llifoedd arian amcangyfrifedig yr addaswyd yn ôl risg eu disgowntio gan ddefnyddio'r gyfradd ddisgownt a argymhellir gan Drysorlys EM.

1.16 **Adroddiadau Segmentol**

Ni ystyrir bod unrhyw segmentau gweithredu i adrodd arnynt ar wahân yn unol ag IFRS 8; ond mae'r Ombwdsmon wedi dewis datgelu'n ychwanegol y gwariant sy'n gysylltiedig â phedwar phrif amcan y swyddfa. Mae'r dulliau a ddefnyddir i ddyrannu costau wedi eu dyfeisio i roi'r darlun mwyaf cywir o gostau rhedeg swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Sail y dosrannu yw amcangyfrif o'r amser a dreulir ar amcanion y swyddfa gan y staff, ac eithrio gwariant y gellir ei briodoli'n uniongyrchol. Ni ddarperir adroddiad ar y wybodaeth hon yn fewnol.

## 2. Cysoni Adnoddau â'r Gofynion Arian Parod Net

| | Nodyn | 2013-14 Amcangyfrif diwygiedig | 2013-14 Cyfanswm yr Alldro Net | Cyfanswm yr alldro net o'i gymharu â'r arbediad / (gormodedd) diwygiedig a amcangyfrifwyd | 2012-13 Alldro Diwygiedig |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Alldro Adnoddau Net Datganiad am y Gwariant Net Cynhwysfawr | | | 4,029 | | 4,150 |
| Llai Gwasanaethau Cronfa Gyfunol Cymru a rennir | 4 | | (162) | | (189) |
| **Gofynion Adnoddau Net** | | **3,902** | **3,867** | **35** | **3,961** |
| Gofyniad Cyfalaf Net | 7/8 | 40 | 47 | (7) | 14 |
| Symudiad mewn darpariaethau | 12 | (40) | (88) | 48 | (25) |
| Taliadau cyfalaf | 4 | (109) | (135) | 26 | (125) |
| Symudiadau mewn cyfalaf gwaith | 10/13 | 25 | 129 | (104) | (64) |
| Cyllido pensiynau | 3 | 242 | 220 | 22 | 200 |
| **Gofyniad net o ran arian Crynodeb o'r Alldro Adnoddau** | | **4,060** | **4,040** | **20** | **3,961** |

## 3. Niferoedd a Chostau Staff

Dyma gyfanswm y costau cyflogi:

| | 2013-14<br>£000 | 2012-13<br>£000 |
|---|---|---|
| Staff parhaol: | | |
| Cyflogau | 1,876 | 1,883 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 134 | 149 |
| Costau Pensiwn | 370 | 373 |
| Symudiadau yn y gronfa bensiwn | 90 | 134 |
| **Cyfanswm** | **2,470** | **2,539** |
| | | |
| Staff dros dro | | |
| Cyflogau | 28 | 25 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 1 | 1 |
| Costau Pensiwn | 4 | 3 |
| **Cyfanswm** | **33** | **29** |
| | | |
| **Cyfanswm costau cyflogi** | **2,503** | **2,568** |

Mae costau staff dros dro yn cynnwys staff asiantaeth ynghyd ag unrhyw unigolion a gyflogwyd ar gontract dros dro. Nid yw'r costau cyflogau a nodwyd uchod yn dangos costau cyflogi a chostau cysylltiedig yr ombwdsmon. Mae'r rheswm dros y gwahaniaeth wedi'i nodi yn yr Adroddiad Taliadau (gweler tudalen 11).

Roedd nifer gyfartalog y staff a gyflogwyd ar sail gyfwerth ag amser llawn (gan gynnwys uwch reolwyr) yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | 2013-14<br>Nifer | 2012-13<br>Nifer |
|---|---|---|
| Uwch reolwyr | 2 | 2 |
| Ymchwilio i gwynion | 42 | 42 |
| Staff Gwasanaethau Corfforaethol / Gweithredol | 8 | 9 |
| **Cyfanswm** | **52** | **53** |

Mae'r uchod yn cynnwys Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

At ddibenion cymharu, cyfanswm y costau cyflogi yn cynnwys yr Ombwdsmon yw:

| | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| Ombwdsmon | 162 | 189 |
| Swyddfa | 2,503 | 2,568 |
| **Cyfanswm** | **2,665** | **2,757** |

## 4. Costau Gweinyddol heb fod yn rhai staff

| | 2013-14 | | 2012-13 | |
|---|---|---|---|---|
| | **£000** | | **£000** | |
| Rhenti dan brydlesau gweithredol | 232 | | 235 | |
| Ffi Archwilwyr Allanol | 20 | | 19 | |
| Gwasanaethau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru a Grant Thornton | - | | - | |
| Cynghorwyr Proffesiynol | 400 | | 336 | |
| Costau eiddo eraill | 109 | | 102 | |
| Gwasanaethau cyfrifiadurol | 207 | | 189 | |
| Costau swyddfa | 111 | | 145 | |
| Teithio a chynhaliaeth | 35 | | 33 | |
| Recriwtio a Hyfforddi | 37 | | 75 | |
| Cyfathrebu | 76 | | 132 | |
| Gwasanaethau sefydlog y Gronfa Gyfunol (Cyflog a chostau cysylltiedig yr Ombwdsmon a delir o Gronfa Gyfunol Cymru) | 162 | | 189 | |
| **Is-gyfanswm** | **1,389** | | | **1,455** |
| Dibrisiant<br>Tâl Amorteiddio | 89<br>46 | | **80**<br>**45** | |
| Colled wrth waredu | - | | **-** | |
| Darpariaeth ar gyfer ailaddurno swyddfeydd yn y dyfodol | 2 | | **2** | |
| **Is-gyfanswm** | **137** | | | **127** |
| **Cyfanswm y Costau Gweinyddol Eraill** | **1,526** | | | **1,582** |

## 5. Incwm Gweithredol

Daw'r incwm a dderbynnir o fuddsoddi cronfeydd dros ben yn y tymor byr ac o secondiad dros dro ymchwilydd.

| | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| Llog derbyniadwy | - | - |
| **Cyfanswm yr incwm gweithredol** | **-** | **-** |

## 6. Costau Gweithredu yn ôl Nodau ac Amcanion

Amlinellir costau darparu gwasanaeth Ombwdsmon o'r radd flaenaf i Gymru isod.

Dyrannwyd i bob amcan fel a ganlyn:

(a) Amcangyfrif o'r amser staff a dreuliwyd ar yr amcan

(b) Dyrannu gwariant yn uniongyrchol

(c) Dosrannu costau eraill ar sail pro rata i'r amcangyfrif amser staff

| | **2013-14** | | | **2012-13** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Gros** | **Incwm** | **Net** | **Gros** | **Incwm** | **Net** |
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Nod 1:** Cynnig gwasanaeth sy'n rhoi lle blaenllaw i ofal cwsmeriaid ardderchog ym mhopeth a wnawn, lle rydym yn ymdrechu i godi ymwybyddiaeth o'n gwasanaeth a lle rydym yn gwneud ein gorau i sicrhau ei fod ar gael i bawb a'i fod yn hawdd ei ddefnyddio. | 374 | - | 374 | 301 | - | 301 |
| **Nod 2:** Darparu gwasanaeth o safon uchel ar gyfer ymdrin â chwynion, sy'n ystyried ac yn dod i benderfyniad ynghylch cwynion mewn modd trylwyr ond cymesur, ac yn cyfleu penderfyniadau'n glir. | 3,037 | - | 3,037 | 3,069 | - | 3,069 |
| **Nod 3:** Defnyddio'r wybodaeth a gawsom o'n hymchwiliadau i gyfrannu at ddarparu gwasanaeth cyhoeddus gwell ac i weithredu fel sail ar gyfer polisi cyhoeddus. | 433 | - | 433 | 586 | - | 586 |
| **Nod 4:** Parhau i ddadansoddi a gwella ein heffeithlonrwydd a'n heffeithiolrwydd o ran llywodraethu, prosesau busnes a swyddogaethau cymorth, er mwyn bod yn fwy tryloyw a sicrhau y defnyddir yr arian cyhoeddus sydd yn ein gofal yn y ffordd orau bosibl. | 185 | - | 185 | 194 | - | 194 |
| **Costau gweithredu net** | **4,029** | **-** | **4,029** | **4,150** | **-** | **4,150** |

## 7. Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

| | Peiriannau | Cyfrifiaduron a chyfarpar arall | Dodrefn a ffitiadau eraill | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu brisiad ar 1 Ebrill 2013** | **156** | **185** | **297** | **638** |
| Ychwanegiadau | - | 45 | - | 45 |
| Gwarediadau | **-** | **(32)** | **-** | **(32)** |
| **Ar 31 Mawrth 2014** | **156** | **198** | **297** | **651** |
| | | | | |
| **Dibrisiant Ar 1 Ebrill 2013** | **(127)** | **(149)** | **(235)** | **(511)** |
| Cofnodwyd yn y flwyddyn | (24) | (27) | (38) | (89) |
| Gwarediadau | **-** | **32** | **-** | **32** |
| **Ar 31 Mawrth 2014** | **(151)** | **(144)** | **(273)** | **(568)** |
| | | | | |
| **Gwerth Llyfr ar 31 Mawrth 2014** | **5** | **54** | **24** | **83** |
| Gwerth Llyfr ar 31 Mawrth 2013 | **29** | **36** | **62** | **127** |

Ym marn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru nid oes gwahaniaeth o bwys rhwng gwerth llyfr net yr asedau yn ôl eu gwerthoedd heddiw a'u cost hanesyddol.

## 8. Asedau Anniriaethol

| | Technoleg Gwybodaeth | Trwyddedau Meddalwedd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu brisiad ar 1 Ebrill 2013** | **474** | **69** | **543** |
| Ychwanegiadau | - | 2 | 2 |
| Gwarediadau | **-** | **-** | **-** |
| **Ar 31 Mawrth 2014** | **474** | **71** | **545** |
| | | | |
| **Amorteiddio ar 1 Ebrill 2013** | **(292)** | **(69)** | **(361)** |
| Amorteiddio a gofnodwyd yn y flwyddyn | (46) | - | (46) |
| Gwarediadau | **-** | **-** | **-** |
| **Ar 31 Mawrth 2014** | **(338)** | **(69)** | **(407)** |
| | | | |
| **Gwerth Llyfr ar 31 Mawrth 2014** | **136** | **2** | **138** |
| Gwerth Llyfr ar 31 Mawrth 2013 | **182** | **-** | **182** |

Ym marn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru nid oes gwahaniaeth o bwys rhwng gwerth llyfr net yr asedau yn ôl eu gwerthoedd heddiw a'u cost hanesyddol.

## 9. Symiau Masnach derbyniadwy a symiau Derbyniadwy eraill

| | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Blaendaliadau | 188 | 146 |
| Dyledwyr masnach | - | - |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn** | | |
| Blaendaliadau | 67 | - |
| **Cyfanswm** | **255** | **146** |

## 10. Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag Arian Parod

Rhaid dychwelyd unrhyw falansau banc a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn i Gronfa Gyfunol Cymru. Mae ffigur o £20k (£2k yn 2012-13) wedi'i gynnwys yn y cyfrifon, fel balans net diwedd blwyddyn yr holl gyfrifon banc a weithredir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ni waeth a yw'r cyfrif unigol mewn dyled neu gredyd, a swm y grant a dderbyniwyd yn cael ei wrthbwyso gan yr ad-daliad hwn. Bydd yn rhaid ad-dalu hwn i Gronfa Gyfunol Cymru dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 os yw'n dal yn weddill ar ddiwedd y flwyddyn.

## 11. Symiau Masnach taladwy a Rhwymedigaethau Cyfredol eraill

| | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus mewn blwyddyn** | | |
| Symiau sy'n ddyledus i'r Casglwr Trethi | - | - |
| Gwyliau blynyddol heb eu cymryd | 62 | 56 |
| Gostyngiad gohiriedig ar rent | 12 | - |
| Symiau sy'n ddyledus i'r Comisiynydd Seneddol | - | - |
| Cronfa Gyfunol Cymru – balansau heb eu gwario | 20 | 2 |
| incwm anweithredol | - | - |
| Symiau masnach taladwy | 32 | 56 |
| Croniadau | 14 | 16 |
| | **140** | **130** |
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus mewn mwy na blwyddyn** | | |
| Gostyngiad gohiriedig ar rent | - | 12 |
| **Cyfanswm** | **140** | **142** |

## 12. Darpariaethau ar gyfer Rhwymedigaethau a Thaliadau

| | 2013-14 | | | | 2012-13 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Pensiynau i Gyn-Gomisiynwyr** | **Costau ailaddurno yn y dyfodol** | **Costau cyfreithiol** | **Cyfanswm** | **Cyfanswm** |
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Balans ar 1 Ebrill | **535** | **5** | **-** | **540** | **515** |
| Darpariaeth ychwanegol sy'n ofynnol | 57 | 2 | 100 | 159 | 95 |
| Symudiad yn y gyfradd ddisgownt | 11 | - | - | 11 | 10 |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | (82) | - | - | (82) | (80) |
| **Balans** | **521** | **7** | **100** | **628** | **540** |

Dadansoddiad o pryd y disgwylir i'r darpariaethau gael eu talu:

| | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| Taladwy o fewn blwyddyn | **190** | **80** |
| Taladwy o fewn 2 i 5 mlynedd | 366 | 312 |
| Taladwy ar ôl 5 mlynedd | 72 | 148 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2012** | **628** | **540** |

Mae angen y ddarpariaeth Pensiynau ychwanegol ar gyfer y cynnydd mewn pensiynau yn unol ag Offerynnau Statudol Gorchymyn Cynyddu Pensiynau (Adolygu) 2014 Rhif 668 a chynnydd yn y disgwyliad oes sy'n seiliedig ar y llythyrau dros dro a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol mewn perthynas ag oes yng Nghymru. Mae'r cynnydd mewn pensiynau yn hwyrach ymlaen yn y flwyddyn yn unol â'r wybodaeth am ddadchwyddyddion CMC a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r ffactor disgownt wedi'i newid i 1.8% ar gyfer y flwyddyn ariannol (2.35% yn 2012-13) yn unol â'r arweiniad a gyhoeddwyd gan y Trysorlys.

Mae costau ailaddurno yn y dyfodol yn codi o ymrwymiad i ailaddurno y tu mewn i'r adeiladau a brydlesir ym Mharc Bocam. Mae symiau yn cael eu rhoi o'r neilltu ar gyfer y rhwymedigaeth i ailaddurno'r swyddfa ym mlwyddyn ariannol 2014-15. Darparwyd £2,000 tuag at gost y gwaith hwn ym mlwyddyn ariannol 2013-14 (£2,000 yn 2012-13).

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer costau cyfreithiol wedi tarddu o achos proffil uchel sy'n bod ers tro ac a ddaeth i ben yn ddiweddar. Yn dilyn dyfarniad yr Uchel Lys, rhaid i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dalu 35% o gostau cyfreithiol y parti arall. Amcangyfrifir mai 35% o £300k fydd hynny sef £100k.

## 13. Cysoni'r Costau Gweithredol â'r Llifoedd Arian Gweithredol

| | Nodiadau | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| **Costau gweithredol net** | | **(4,029)** | **(4,150)** |
| Addasu ar gyfer eitemau anariannol | 3,4 | 195 | 195 |
| Gostyngiad /(Cynnydd) mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 9 | (109) | 57 |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 11 | (2) | (81) |
| Taliad i gwrdd â'r diffyg yn y gronfa pensiynau | | (280) | (270) |
| Symudiad mewn darpariaethau | 12 | 88 | 25 |
| Gwasanaethau Cronfa Gyfunol Cymru a rennir | 4 | 162 | 189 |
| **All-lif arian o weithgareddau gweithredol** | | **(3,975)** | **(4,035)** |

## 14. Buddsoddiad Ariannol a Gwariant Asedau Anghyfredol

| | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | (45) | (12) |
| Yr elw o werthu eiddo, peiriannau a chyfarpar | - | - |
| Prynu asedau anniriaethol | (2) | (2) |
| **All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi** | **(47)** | **(14)** |

## 15. Cysoni'r Gofyniad Arian Parod Net â'r Cynnydd / (Gostyngiad) mewn Arian Parod

| | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Gofynion Arian Parod Net: | | |
| Gweithgareddau gweithredol | (3,975) | (4,035) |
| Gwariant Cyfalaf | (47) | (14) |
| | **(4,022)** | **(4,049)** |
| Cyllid gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru | 4,060 | 3,962 |
| | | |
| Ad-daliadau i Gronfa Gyfunol Cymru | (20) | (2) |
| **Cynnydd / (Gostyngiad) mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod** | **18** | **(89)** |

## 16. Ymrwymiadau o dan Brydlesi Gweithredol

| | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| Cyfanswm taliadau prydles sylfaenol yn y dyfodol ar gyfer yr Adeilad: | | |
| Taladwy o fewn blwyddyn | 183 | 184 |
| Rhwng dwy a phum mlynedd | 732 | 155 |
| Mwy na phum mlynedd | 1,071 | - |
| | **1,986** | **339** |
| Arall: | | |
| Taladwy o fewn blwyddyn | 17 | 11 |
| Rhwng dwy a phum mlynedd | 27 | 27 |
| Mwy na phum mlynedd | - | - |
| | **44** | **38** |
| Cyfanswm pob prydles weithredol | **2,030** | **377** |

Cytunwyd ar brydles rifersiwn newydd ar sail Yswirio a Thrwsio Llawn am gyfnod o 10 mlynedd o 27ain Ionawr 2015 ymlaen yn yr adeiladau presennol ym Mharc Bocam Park, Pencoed. Bydd y brydles ar gontract yn unol â Deddf Landlord a Thenant 1954.

## 17. Rhwymedigaethau Digwyddiadol

Dim.

## 18. Ymrwymiadau Cyfalaf

Nid oedd dim ymrwymiadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2014 (2012-13 Dim).

## 19. Offerynnau Ariannol

Oherwydd natur ddifasnach y rhan fwyaf o'i weithgareddau, a'r modd y mae cyrff y llywodraeth yn cael eu hariannu, nid yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn agored i'r un faint o risg ariannol ag a wynebir gan rai cyrff busnes. Nid oes gan y swyddfa bwerau i gael benthyg arian ond gall fuddsoddi arian dros ben dros dro. Mae asedau a rhwymedigaethau ariannol yn codi yn sgil gweithgareddau gweithredol o ddydd i ddydd ac ni thybir eu bod yn newid y risgiau a wynebir gan y swyddfa wrth gyflawni ei gweithgareddau.

## 20. Trafodion Partïon Cysylltiedig

Pennaeth Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac fe'i sefydlwyd o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol ar y Llywodraeth ac mae trefniadau cyllido'r swyddfa wedi'u trefnu i sicrhau y diogelir annibyniaeth y swyddfa. Mae'r Ombwdsmon wedi cael nifer o drafodion y bwys gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru a chyda swyddfa'r Ombwdsmon Seneddol.  Hefyd, mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi cael ychydig o drafodion gydag Adrannau eraill y Llywodraeth a chyrff eraill y llywodraeth ganolog.

## 21. Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd

Dim.

## Atodiad Pensiynau

Mae dau gynllun pensiwn yn cael eu gweithredu ar ran y staff presennol – Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil a Chronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae rhwymedigaeth barhaus o hyd i dalu pensiynau tri chyn Ombwdsmon neu unrhyw berthnasau dibynnol.

### Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 30 Gorffennaf 2007 ymlaen, gall gweision sifil fod yn un o bedwar cynllun buddion diffiniedig; naill ai cynllun cyflog terfynol (**clasurol, premiwm** neu **glasurol a mwy**); neu gynllun gyrfa gyfan (**nuvos**). Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi'u cyllido ac mae cost y buddion yn cael ei thalu gan swm a benderfynir drwy bleidlais gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy dan y cynlluniau **clasurol, premiwm, clasurol a mwy** a **nuvos** yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Gall aelodau sy'n ymuno o Hydref 2002 ymlaen ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn cyfranddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad cyflogwr (cyfrif pensiwn **partneriaeth**).

Mae cyfraniadau'r gweithiwr yn gysylltiedig â chyflog ac maent yn amrywio o rhwng 1.5% a 6.25% o enillion pensiynadwy ar gyfer y cynllun **clasurol**, a rhwng 3.5% a 8.25% ar gyfer y cynlluniau **premiwm**, **clasurol a mwy** a **nuvos.** Bydd cynnydd mewn cyfraniadau gweithwyr yn berthnasol o 1 Ebrill 2014 ymlaen. Mae'r buddion o dan y cynllun **clasurol** yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, telir cyfandaliad sydd gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol pan fydd gweithiwr yn ymddeol. Gyda'r cynllun **premiwm**, mae'r buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn

wahanol i'r cynllun **clasurol**, nid oes dim cyfandaliad awtomatig. Mae **Clasurol a Mwy** yn ei hanfod yn gynllun hybrid gyda buddion yng nghyswllt gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel y cynllun **Clasurol**, a buddion am wasanaeth ar ôl mis Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel yn y cynllun **Premiwm**. Gyda **nuvos**, mae'r aelod yn cronni pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy tra bo'n aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif pensiwn a enillwyd yr aelod yn cael ei gredydu gyda 2.3% o'i enillion pensiynadwy ym mlwyddyn honno'r cynllun ac mae'r pensiwn cronedig yn cael ei gynyddu yn ôl deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis rhoi rhan o'u pensiwn heibio (cyfnewid) i gael cyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn **partneriaeth** yn drefniant pensiwn cyfranddeiliaid. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 3% a 12.5% (gan ddibynnu ar oed yr aelod) i bensiwn cyfranddeiliaid a ddewisir gan y gweithiwr o banel o dri darparwr. Nid oes raid i'r gweithiwr gyfrannu, ond os bydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn talu swm cyfatebol hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Bydd cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% ychwanegol o gyflog pensiynadwy i dalu costau yswiriant risg a ddarperir yn ganolog (marw tra'n dal i weithio ac ymddeol oherwydd salwch).

Y pensiwn cronedig a nodir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn pan fydd yn cyrraedd oed pensiwn, neu'n syth pan fydd yn peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os ydyw eisoes wedi cyrraedd neu dros oed pensiwn. 60 yw'r oedran pensiwn ar gyfer aelodau cynlluniau **clasurol, premiwm** a **chlasurol a mwy**, a 65 ar gyfer aelodau **nuvos**.

Mae manylion pellach ar drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar gael ar y wefan http://www.civilservice.gov.uk/pensions.

**Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV)**

Y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafedig buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol, wedi ei asesu gan actwari. Y buddion y pennir eu gwerth yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn dichonol sydd i'w dalu o'r cynllun i ŵr neu wraig. Taliad yw'r CETV a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i'w aelodaeth gyflawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae datgelu yn berthnasol iddi.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi ei drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod o ganlyniad iddo brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau'r Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid yw'n ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fuddion o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes a allai fod yn daladwy pan gymerir buddion pensiwn.

**Y cynnydd gwirioneddol yn y CETV**

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y CETV sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn neu drefniant arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

**Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg – Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**

Mae'r datgeliadau isod yn gysylltiedig â rhwymedigaethau Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y "Gronfa") sydd wedi'u cyllido, sy'n rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Oherwydd bod y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn un a gyllidir rhaid i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'i staff sy'n aelodau o'r cynllun dalu cyfraniadau i'r Gronfa, wedi'u cyfrifo ar lefel sydd â'r bwriad o gydbwyso rhwymedigaethau'r pensiwn ag asedau buddsoddiadau.

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cydnabod enillion a cholledion yn llawn, yn uniongyrchol drwy'r Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr. Yn unol â Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol, mae'n ofynnol i ddatgelu gwybodaeth benodol sy'n ymwneud ag asedau, rhwymedigaethau, incwm a gwariant sy'n ymwneud â chynlluniau pensiwn.

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn amcangyfrif y caiff gwerth £290k o gyfraniadau eu talu i mewn i'r Gronfa yn y flwyddyn ariannol nesaf.

**Datgelu o dan IAS19 (buddion a ariennir gan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol)**

**Cyflwyniad**

Mae'r datgeliadau isod yn gysylltiedig â rhwymedigaethau Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y "Gronfa") sydd wedi'u cyllido, sy'n rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gynllun buddion diffiniedig a ariennir gyda buddion a enillir hyd at 31 Mawrth 2014 yn cael eu cysylltu â'r cyflog terfynol. Mae buddion ar ôl 31 Mawrth 2014 yn seiliedig ar gynllun Enillion Dros Oes Gyrfa wedi'u Hailbrisio. Disgrifir manylion y buddion i'w talu am y cyfnod sydd o dan sylw yn y datgeliad hwn yn Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007. Oherwydd

bod y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn un a gyllidir rhaid i'r Cyflogwr a'i staff dalu cyfraniadau i'r Gronfa, wedi'u cyfrifo ar lefel sydd â'r bwriad o gydbwyso rhwymedigaethau'r pensiwn ag asedau buddsoddiadau. Mae gwybodaeth am y fframwaith ar gyfer cyfrifo cyfraniadau i'w talu ar gael yn Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 ac yn Natganiad Strategaeth Gyllido'r Gronfa. Mae'r cyfraniadau i'w talu hyd at y dyddiad y bydd prisiad actwari nesaf y Gronfa ar gael yn cael eu disgrifio yn y Dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau.
Yr Awdurdod sy'n Gweinyddu'r Gronfa, Dinas a Sir Caerdydd, sy'n gyfrifol am lywodraethu'r Gronfa.

**Cyfraniadau ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2015**

Amcangyfrifir y bydd cyfraniadau rheolaidd y Cyflogwr i'r Gronfa ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2015 yn £0.29m. Mae'n bosibl y ceir cyfraniadau ychwanegol hefyd yn sgil hawl unrhyw gyflogwr i ddewis cynyddu buddion aelodau yn y Gronfa dros y cyfnod cyfrifyddu nesaf.

**Tybiaethau**

Cynhaliwyd prisiad diweddaraf yr actwari o rwymedigaethau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar 31 Mawrth 2013. Mae'r rhwymedigaethau wedi cael eu hamcangyfrif gan yr actwari cymwysedig annibynnol ar sail actwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu credyd unedau. Dyma'r prif dybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actwari i ddiweddaru prisiad diweddaraf y Gronfa at ddibenion IAS19:

## Prif dybiaethau ariannol (% y flwyddyn)

| | 31 Mawrth 2014 | 31 Mawrth 2013 | 31 Mawrth 2012 |
|---|---|---|---|
| Cyfradd ddisgownt | 4.2 | 4.2 | 4.7 |
| Chwyddiant y Mynegai Prisiau Manwerthu | 3.2 | 3.6 | 3.4 |
| Chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr | 2.2 | 2.7 | 2.4 |
| Cyfradd cynnydd mewn pensiynau a delir* | 2.2 | 2.7 | 2.4 |
| Cyfradd cynnydd mewn pensiynau gohiriedig | 2.2 | 2.7 | 2.4 |
| Cyfradd y cynnydd cyffredinol mewn cyflogau** | 3.2 | 4.6 | 4.4 |

* Goruwch unrhyw gynnydd yn yr Isafswm Pensiwn Gwarantedig a delir pan fo hynny'n briodol
** Yn ogystal, caniateir ar gyfer yr un graddfeydd cyflog hyrwyddol sy'n gysylltiedig ag oedran ag a ddefnyddiwyd ym mhrisiad yr actwari o'r Gronfa ar 31 Mawrth 2013

## Tybiaethau ynghylch y gyfradd marwolaethau

Mae'r tybiaethau ynghylch y gyfradd marwolaethau'n seiliedig ar y marwolaethau a brofwyd yn ddiweddar ymysg aelodau'r Gronfa ac yn caniatáu ar gyfer gwelliannau a ddisgwylir yn y dyfodol yn y gyfradd marwolaethau.

| **Marwolaethau ar ôl ymddeol (ymddeol mewn iechyd arferol)** | **31 Mawrth 2014** | **31 Mawrth 2013** |
|---|---|---|
| Dynion<br>Tabl sylfaenol Blwyddyn Geni | Iechyd Arferol SAPS Safonol - Symiau Isel (S1NMA_L) | Iechyd Arferol SAPS Safonol - Symiau Isel (S1NMA_L) |
| Cyfradd yn uwch na'r tabl sylfaenol * (blynyddoedd) | - | - |
| Codi'n uwch na chyfraddau'r tabl sylfaenol | 110% | 100% |
| Gwelliannau i gyfraddau'r tabl sylfaenol | CMI 2012 gyda chyfradd gwella tymor hir o 1.5% y flwyddyn | CMI 2009 gyda chyfradd gwella tymor hir o 1.25% y flwyddyn |
| Oes yn y dyfodol ar ôl 65 oed (yn 65 oed ar ddyddiad y cyfrifyddu) | 23.7 | 24.0 |
| Oes yn y dyfodol ar ôl 65 oed (yn 45 oed ar ddyddiad y cyfrifyddu) | 25.7 | 25.7 |
| Menywod<br>Tabl sylfaenol Blwyddyn Geni | Iechyd Arferol SAPS Safonol - Symiau Isel (S1NFA_L) | Iechyd Arferol SAPS Safonol - Symiau Isel (S1NFA_L) |
| Cyfradd yn uwch na'r tabl sylfaenol * (blynyddoedd) | - | - |
| Codi'n uwch na chyfraddau'r tabl sylfaenol | 90% | 80% |
| Gwelliannau i gyfraddau'r tabl sylfaenol | CMI 2012 gyda chyfradd gwella tymor hir o 1.5% y flwyddyn | CMI 2009 gyda chyfradd gwella tymor hir o 1.25% y flwyddyn |
| Oes yn y dyfodol ar ôl 65 oed (yn 65 oed ar ddyddiad y cyfrifyddu) | 26.6 | 26.8 |
| Oes yn y dyfodol ar ôl 65 oed (yn 45 oed ar ddyddiad y cyfrifyddu) | 28.9 | 28.8 |

* Mae cyfradd o x o flynyddoedd yn golygu y tybir y bydd aelodau'r Gronfa'n dilyn patrwm marwoldeb y tabl sylfaenol am x o flynyddoedd yn hŷn na hwynt. Mae'r cyfraddau a ddangosir yn berthnasol i ymddeoliadau iechyd arferol.

| | 31 Mawrth 2014 | 31 Mawrth 2013 |
|---|---|---|
| **Cyfathrebu** | Wrth ymddeol, tybiwyd bob pob aelod yn ildio pensiwn fel bod cyfanswm yr arian a geir (gan gynnwys unrhyw gyfandaliad sydd wedi cronni o wasanaeth cyn 2008) yn 75% o'r uchafswm a ganiateir. | Tybiwyd bod pob aelod yn cyfnewid 50% o'r uchafswm a ganiateir o'u hawl pensiwn cyn 1 Ebrill 2010, am gyfandaliad ychwanegol.<br>Tybiwyd bod pob aelod yn cyfnewid 75% o'r uchafswm a ganiateir o'u hawl pensiwn ar ôl 31 Mawrth 2010, am gyfandaliad ychwanegol. |

## Dyrannu asedau

Mae rhaniad yr asedau'n fras ar gyfer y Gronfa i gyd (yn seiliedig ar ddata a ddarperir gan Awdurdod Gweinyddu'r Gronfa) i'w weld yn y tabl isod. Mae'r asedau a ddyrennir i'r Cyflogwr yn y Gronfa yn dybiannol a thybir bod yr asedau'n cael eu buddsoddi yn unol â buddsoddiadau'r Gronfa a ddisgrifir isod at ddibenion cyfrifo'r enillion i'w clustnodi i'r asedau tybiannol hynny. Mae'r Gronfa'n fawr ac yn cynnwys asedau rhydd yn bennaf. O ganlyniad ni fydd dim cyfyngiad sylweddol ar droi asedau'n arian os oes angen talu swm mawr o arian (e.e. taliad gwerth trosglwyddo swmp).

Nid yw'r Awdurdod Gweinyddu yn buddsoddi mewn eiddo neu asedau sy'n gysylltiedig â'r Awdurdod ei hun. Ond mae'n bosibl i asedau gael eu buddsoddi mewn cyfranddaliadau sy'n gysylltiedig â rhai o gyflogwyr y sector preifat sy'n cymryd rhan yn y Gronfa os yw'n rhan o'u strategaeth buddsoddi cytbwys.

| | | Rhaniad yr asedau ar 31 Mawrth 2014 (%) | | Rhaniad yr asedau ar 31 Mawrth 2013 (%) |
|---|---|---|---|---|
| | **Wedi ei restru** | **Heb ei restru** | **Cyfanswm** | |
| Ecwitïau | 72.1 | 6.2 | 78.3 | 76.0 |
| Eiddo | 5.4 | - | 5.4 | 5.6 |
| Bondiau'r Llywodraeth | 7.0 | - | 7.0 | 7.5 |
| Bondiau Corfforaethol | 8.1 | - | 8.1 | 9.1 |
| Arian parod | 1.1 | - | 1.1 | 1.2 |
| Arall* | 0.1 | - | 0.1 | 0.6 |
| **Cyfanswm** | **93.8** | **6.2** | **100.0** | **100.0** |

* Ymysg y daliadau eraill y mae cronfeydd rhagfantoli, daliadau arian cyfred, blaendrafodion dyrannu asedau ac offerynnau ariannol eraill. Tybir y bydd y rhain yn darparu enillion yn unol ag ecwitïau.

## Cysoni'r statws 'a ariennir' â'r Fantolen

| | Gwerth ar 31 Mawrth 2014 £M | Gwerth ar 31 Mawrth 2013 £M | Gwerth ar 31 Mawrth 2012 £M |
|---|---|---|---|
| Gwerth teg yr asedau | 5.39 | 4.79 | 4.09 |
| Gwerth presennol yr ymrwymiad o ran y buddion diffiniedig a ariennir | 4.82 | 5.43 | 4.78 |
| Statws 'a ariennir' | **0.57** | **(0.64)** | **(0.69)** |
| Effaith gofyniad cyllido sylfaenol/uchafswm asedau – IFRIC 14 | **(1.29)** | **-** | **-** |
| Ased/(Rhwymedigaeth) a gydnabyddir yn y fantolen | **(0.72)** | **(0.64)** | **(0.69)** |

Dyma'r rhaniad yn yr ymrwymiad buddion diffiniedig ar y dyddiad prisio diwethaf rhwng yr amrywiol gategorïau o aelodau:

| | |
|---|---|
| Aelodau Gweithredol | 22% |
| Pensiynwyr Gohiriedig | 18% |
| Pensiynwyr | 60% |

## Dadansoddiad o'r symiau a welir mewn elw a cholled / Gwarged neu'r Diffyg yng nghyswllt Darparu Gwasanaethau ac Incwm Cynhwysfawr arall (OCI)

| | Cyfnod yn dod i ben 31 Mawrth 2014 £M | Cyfnod yn dod i ben 31 Mawrth 2013 £M |
|---|---|---|
| Cost gweithredu<br>Cost bresennol y gwasanaeth(1) | **0.04** | **0.04** |
| Cost y gwasanaeth yn y gorffennol (yn cynnwys cwtogiadau) | - | - |
| Cost setliad | - | - |
| Cost Cyllido<br>Llog ar y buddion net diffiniedig<br>Rhwymedigaeth (asedau) | 0.02 | 0.03 |
| Costau pensiwn a welir mewn elw a cholled | 0.06 | 0.07 |
| Ail-gyfrifo mewn OCI<br>Enillion asedau cynllun (yn fwy na) yn llai na'r hyn a welwyd yn y llog net | (0.32) | (0.39) |
| Colledion/(enillion) yr actwari oherwydd newid mewn tybiaethau ariannol | (0.34) | 0.55 |
| Colledion/(enillion) yr actwari oherwydd newidiadau mewn tybiaethau demograffig | (0.06) | - |
| Colledion/(enillion) yr actwari oherwydd rhwymedigaethau - profiad | (0.27) | (0.01) |
| Cyfanswm a welwyd yn OCI | (0.99) | 0.15 |
| **Cyfanswm** | **(0.93)** | **0.22** |

(1) Mae cost bresennol y gwasanaeth yn cynnwys lwfans ar gyfer costau gweinyddu o £0.00M

## Newidiadau i werth presennol yr ymrwymiad buddion diffiniedig yn ystod y cyfnod cyfrifyddu

| | Cyfnod yn dod i ben 31 Mawrth 2014 £M | Cyfnod yn dod i ben 31 Mawrth 2013 £M |
|---|---|---|
| Ymrwymiad buddion diffiniedig agoriadol | 5.43 | 4.78 |
| Cost bresennol y gwasanaeth | 0.04 | 0.04 |
| Cost llog ar y buddion net diffiniedig | 0.22 | 0.22 |
| Cyfraniad gan gyfranogwyr | 0.01 | 0.01 |
| Colledion/(enillion) yr actwari ar rwymedigaethau – tybiaethau ariannol | (0.34) | 0.55 |
| Colledion/(enillion) yr actwari ar rwymedigaethau – tybiaethau demograffig | (0.06) | - |
| Colledion/(enillion) yr actwari ar rwymedigaethau – profiad | (0.27) | (0.01) |
| Buddion net a dalwyd # | (0.21) | (0.16) |
| Cost y gwasanaeth yn y gorffennol (yn cynnwys cwtogiadau) | - | - |
| Cynnydd net yn y rhwymedigaethau o safbwynt caffael / gwaredu | - | - |
| Setliadau | - | - |
| Ymrwymiad buddion diffiniedig terfynol | 4.82 | 5.43 |

# yn cynnwys llif arian net o'r Gronfa yng nghyswllt y cyflogwr, heb gynnwys cyfraniadau ac unrhyw gyfandaliadau a dalwyd yn sgil marwolaeth mewn gwaith, ac yn cynnwys lwfans bras ar gyfer cost ddisgwyliedig cyfandaliadau a delir yn sgil marwolaeth mewn gwaith. Hefyd yn cynnwys lwfans ar gyfer costau gweinyddu cronfa o £0.00M.

## Newidiadau i werth teg yr asedau yn ystod y cyfnod cyfrifyddu

| | Cyfnod yn dod i ben 31 Mawrth 2014 £M | Cyfnod yn dod i ben 31 Mawrth 2013 £M |
|---|---|---|
| Gwerth teg agoriadol yr asedau | **4.79** | **4.09** |
| Incwm llog ar asedau | 0.20 | 0.19 |
| Ail-gyfrifo enillion/(colledion) ar asedau | 0.32 | 0.39 |
| Cyfraniadau gan y cyflogwr | 0.28 | 0.27 |
| Cyfraniadau gan gyfranogwyr | 0.01 | 0.01 |
| Buddion net a dalwyd # | (0.21) | (0.16) |
| Cynnydd net yn yr asedau o safbwynt caffael / gwaredu | - | - |
| Setliadau | - | - |
| Gwerth teg terfynol yr asedau | **5.39** | **4.79** |

# yn cynnwys llif arian net o'r Gronfa yng nghyswllt y cyflogwr, heb gynnwys cyfraniadau ac unrhyw gyfandaliadau a dalwyd yn sgil marwolaeth mewn gwaith, ac yn cynnwys lwfans bras ar gyfer cost ddisgwyliedig cyfandaliadau a delir yn sgil marwolaeth mewn gwaith. Hefyd yn cynnwys lwfans ar gyfer costau gweinyddu cronfa o £0.00M.

## Enillion gwirioneddol ar asedau

| | **Cyfnod yn dod i ben 31 Mawrth 2014 £M** | **Cyfnod yn dod i ben 31 Mawrth 2013 £M** |
|---|---|---|
| Incwm llog ar asedau | **0.20** | **0.19** |
| Ail-gyfrifo enillion/(colledion) ar asedau | 0.32 | 0.39 |
| Enillion gwirioneddol ar asedau | **0.52** | **0.58** |

## Terfynu'r cynllun

Mae'r wybodaeth am bensiynau a ddarperir uchod yn cydymffurfio â gofynion IAS 19 a addaswyd ar gyfer IFRIC 14. Mae'n dangos diffyg o £720k yn y gronfa bensiwn ar 31 Mawrth 2014. Mae gweithdrefnau ar waith gyda'r Gronfa Bensiwn ynglŷn â gwneud taliadau cyfnodol ar gyfer y rhwymedigaeth ariannol a fydd yn codi pan na fydd rhagor o aelodau gweithredol i'w cael; 2017-18 yn ôl yr amcangyfrif ar hyn o bryd. Mae'r gweithdrefnau a ddisgrifir yng Nghanllawiau Trysorlys EM ar Gyllidebu Cyfunol yn caniatáu ar gyfer darpariaeth ariannol i ymdrin â'r rhwymedigaeth hon.

**Pensiynau i gyn-Ombwdsmyn**

Gyda chytundeb Ysgrifennydd Gwladol Cymru ym 1991, a chadarnhad dilynol drwy Offeryn Statudol 1993 Rhif 1367, daeth Comisiynwyr Llywodraeth Leol yn gymwys i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Fodd bynnag, mae pensiynau'r tri Chomisiynydd Llywodraeth Leol blaenorol yn parhau'n gyfrifoldeb Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ac yn cael eu talu drwy'r Datganiad am y Gwariant Net Cynhwysfawr.

Mae pensiynau'n cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â chynlluniau pensiwn eraill yn y Sector Cyhoeddus. Mae sail y cyfrifiadau ar gyfer y Cynnydd Blynyddol mewn Pensiynau wedi cael ei newid o ddefnyddio'r symudiad blynyddol seiliedig ar y Mynegai Prisiau Manwerth i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Mae maint y cynnydd wedi'i nodi yn Offeryn Statudol Gorchymyn Cynyddu Pensiynau (Adolygu) 2013 Rhif 604. Eleni, y cynnydd oedd 2.2% a bydd hwn mewn grym o 8 Ebrill 2013 ymlaen. Yn 2012-13 y cynnydd oedd 5.2%.

Cyfanswm y taliadau yn ystod 2013-14 oedd £82k (£79k yn 2012-13). Mae'r rhwymedigaethau sy'n codi o'r ymrwymiad i gyllido'r pensiynau hyn ynghyd â phensiynau unrhyw ddibynyddion wedi'i gyfrifo yn £521k (£535k yn 2012-13). Cyflawnwyd y cyfrifiad i bennu'r rhwymedigaeth gyffredinol yn fewnol drwy ddefnyddio tablau disgwyliadau oes ar gyfer dynion a menywod yng Nghymru oddi ar wefan Adran Actwari'r Llywodraeth. Mae cyfradd ddisgownt, o PES (2013) 07, o 1.8% (2.35% yn 2012-13) wedi'i defnyddio yn unol ag arweiniad gan y Trysorlys y dylid rhoi disgownt ar gyfer yr holl rwymedigaethau pensiwn. Dangosir manylion pellach dan symudiadau mewn darpariaethau (Nodyn 12).

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

1 Ffordd yr Hen Gae

Pencoed

CF35 5LJ

| | |
|---|---|
| **Ffôn:** | 01656 641150 |
| **Ffacs:** | 01656 641199 |
| **E-bost:** | ask@ombudsman-wales.org.uk |
| **Dilynwch ni ar Twitter:** | @OmbudsmanWales |

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon